


ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
i ddefnyddwyr ynni



2016-17

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

2016-17

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
(Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i Dŷ'r Cyffredin drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 29 Mehefin 2017

© Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn yn drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn hawlfraint i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r cyfeiriad canlynol: Ofgem, 9 Millbank, London SW1P 3GE. Print ISBN 9781474143295

Gwe ISBN 9781474143301 ID P002873975 06/17

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Adroddiad ar Berfformiad

Rhagair y Cadeirydd	7
Adroddiad y Prif Weithredwr	8
Galluogi marchnad fanwerthu sy'n gweithio'n well	10
Hwyluso'r broses o drawsnewid ynni	15
Rheoleiddio'r rhwydweithiau ac RIIO	19
Bod yn ffynhonnell awdurdodol dadansoddi ansawdd	22
Ein gweithgareddau busnes craidd	24
E-Serve	29
Ein rhanddeiliaid	32
Adroddiad ar gynaliadwyedd	35

Adroddiad ar Atebolrwydd

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	
<i>Adroddiad y Cyfarwyddwyr</i>	41
<i>Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu</i>	45
<i>Datganiad Llywodraethu</i>	46
<i>Adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff</i>	53

Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad	61
--	----


Cyfrifon Adnoddau	67
--------------------------------	----

Datganiad Ymddiriedaeth	89
--------------------------------------	----

Atodiadau

Atodiad I - Perfformiad yn erbyn yr hyn oedd i'w gyflawni yn 2016-17	104
Atodiad II - Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2016-17	108
Atodiad III - Asesiadau effaith a gynhaliwyd yn 2016-17	111
Atodiad IV - Ymchwiliadau a champau gorfodi 2016-17	112
Atodiad V - Ymrwymadau nad ydynt ar y gyflogres	115

Adroddiad ar Berfformiad



Rhagair y Cadeirydd

David Gray

Mae'n adeg gyffrous i Ofgem: gwelwyd blwyddyn o her a newid yn 2016-17. Hoffem ddiolch i bawb yn Ofgem a'r Awdurdod am eu hymatebion pendant, a'u gallu i ddelio â'r annisgwyl a chyflawni'r nod.

Ym mis Mehefin 2016 cwblhaodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei adolygiad o'r sector ynni ac rydym bellach yn gweithredu ei rwymedïau. Mae a wnelo'r rhan fwyaf o'r rhain â chynnwys defnyddwyr yn y farchnad fanwerthu fel y gallant gael bargaen well a thecach. Edrychwn ymlaen at weld canlyniadau da a fydd yn helpu i gynnwys cwsmeriaid ac yn gwella'r ffordd y mae'r farchnad yn gweithio i bawb.

Agwedd newydd ddiddorol ar ein gwaith eleni oedd ystyried sut mae sicrhau bod defnyddwyr ynni yn cael eu diogelu cyn, yn ystod ac ar ôl Brexit. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth, gan gynghori ar faterion ynni wrth iddi ddechrau negodi'r broses o adael yr UE, ac rydym wedi cynnal cydberthnasau cynhyrchiol â'n cyd-reoleiddwyr. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod buddiannau defnyddwyr ynni Prydain Fawr wrth wraidd pob cam ar y negodi.

Er ei fod ychydig flynyddoedd i ffwrdd o hyd, rydym eisoes wedi dechrau cynllunio'r cylch nesaf o reolaethau prisiau rhwydwaith RIIO, gan ddysgu'r gwersi o RIIO1.

Yn y cyfamser, mae'r diwydiant yn newid o'n hamgylch. Er enghraifft, erbyn hyn mae dros 25% yn fwy o gyflenwyr tanwydd deuol yn y farchnad na blwyddyn yn ôl ac mae cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy newydd yn parhau i gysylltu â'r rhwydweithiau ar raddfa gyflym. Disgwylwn i'r broses o newid barhau ac rydym wedi dechrau cyfres o brosiectau sy'n edrych yn fanylach ar hanfodion y system ynni ei hun. Y rhain fydd sylfaen y farchnad ynni yn y dyfodol.

Rwy'n falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni eleni, a gallwch ddarllen mwy am hynny yn ein Hadroddiad Blynyddol. Edrychaf ymlaen at weithio gyda fy nhîm ardderchog wrth fynd i'r afael â'r llu o heriau diddorol a phwysig sydd ar y gorwel.



David Gray
Cadeirydd



Adroddiad y Prif Weithredwr

Dermot Nolan

Cyn i mi eistedd i lawr i ysgrifennu hwn, cyhoeddodd y Grid Cenedlaethol fod holl bŵer Prydain wedi dod o ffynonellau heblaw am lo, am ddiwrnod cyfan. Dyma oedd y tro cyntaf ers y Chwyldro Diwydiannol.

Mae Ofgem wedi bod yn trafod y newid a welir yn y system ynni ers cryn amser nawr, ond roedd y cyhoeddiad hwn yn teimlo fel eiliad arwyddocaol. Gwnaeth i mi ystyried pa gerrig filltir eraill a welwn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf – a pha syniadau a oedd yn ymddangos yn annhebygol hyd yn oed ddeng mlynedd yn ôl a fyddai'n dod yn realiti yn fuan iawn.

I Ofgem, mae paratoi ar gyfer y newid a sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ddelio ag ef wedi dod yn fater o drefn. Wrth i'r drafodaeth am y farchnad ynni fanwerthu barhau, rydym yn gweithio ar wella cydymffurfiaeth, gweithredu rwynddau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, monitro, a diogelu defnyddwyr agored i niwed. Un cam pwysig fu cyflwyno cap ar brisiau i ddefnyddwyr mesuryddion rhagdal, gan arbed hyd at £80 y flwyddyn iddynt mewn biliau nwy.

Cyflymodd ein gwaith rheoleiddio manwerthu yn y dyfodol wrth i ni ddileu rhagnodi o'r drwydded, ac ymgynghorwyd ar reoleiddio cyflenwyr drwy egwyddorion seiliedig ar ganlyniadau yn hytrach na rheolau manwl. Rydym yn parhau i weithio ar fesuryddion deallus a newid cyflenwr yn gyflymach. Gwnaethom wella'r rhwyd ddiogelwch i ddefnyddwyr os bydd eu cyflenwr yn mynd yn fethdalwr, rheoli'r broses o drosglwyddo cwsmeriaid o GB Energy i Co-operative Energy yn llwyddiannus, a sefydlu system monitro cydymffurfiaeth i lawer o newydd-ddyfodiaid.

O ran rhwydweithiau, mae llawer o'n gwaith yn ymwneud â sicrhau gwerth i ddefnyddwyr, ac rydym wrthi'n datblygu ein fframwaith ar gyfer rheoli prisiau rhwydwaith RIIO2 er mwyn cyflawni'r nod. Rydym wedi bod yn ymchwilio i drefniadau codi tâl cynhyrchwyr ynni bach a gysylltir â rhwydwaith

dosbarthu, sef buddion ymgorfforedig.

Ar y cyd â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) gwnaethom gais am dystiolaeth sef System Ynni Hyblyg a Deallus. Gofynnodd am farn rhanddeiliaid ynghylch system ynni hyblyg y dyfodol, a sut y gallwn sicrhau bod ein cyfundrefn reoleiddio yn ei galluogi.

Gwnaethom gyhoeddi pedwar papur Future Insights, gan adeiladu ar ein gwaith sganio'r gorwel i nodi heriau rheoleiddio a pholisi yn y dyfodol. Gwnaethom dreialu Cyswllt Arloesi, gan roi cyngor anffurfiol ar faterion rheoleiddio i tua 60 o arloeswyr a chael 30 o gynigion ar gyfer ein Bocs Tywod Rheoleiddiol.

Fel rhan o'n gwaith gorfodi cafwyd dirwyon a chamau gweithredu amgen, a arweiniodd at werth £277.5m mewn camau unioni. Roedd y swm hwn yn cynnwys £18m yn erbyn ScottishPower am fethiannau gwasanaeth cwsmeriaid, a £4.5m yn erbyn Nwy Prydain am fethu terfyn amser i osod uwch fesuryddion.

Mae E-Serve yn parhau i gyflwyno cynlluniau amgylcheddol mewn modd effeithlon, a bydd yn parhau i fod yn rhan annatod o Ofgem yn y dyfodol agos. Lansiodd ymchwiliad cyhoeddus annibynnol i'r cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mawrth, ac rydym yn chwarae rhan lawn a thryloyw yn yr Ymchwiliad wrth iddo gasglu tystiolaeth a chyflawni ei waith pwysig.

Yn fewnol, lansiodd Swyddfa'r Prif Economegydd, gan atgyfnerthu ein systemau sicrhau ansawdd a dadansoddi. Yn Llundain, byddwn yn symud i swyddfa newydd yn Canary Wharf yn fuan. Rydym wedi prydlesu safle newydd yn Glasgow, ac mae'n bwysig i ni fod ein swyddfeydd nid yn unig yn cynnig gwerth da am arian ond eu bod hefyd yn weithleoedd deniadol i'n staff.

Y llynedd gwnaethom ffarwelio â Maxine Frerk, a adawodd Ofgem ar ôl 15 mlynedd mewn uwch rolau o fewn rhwydweithiau a marchnadoedd manwerthu. Gwnaeth gyfraniad aruthrol.

Wrth ysgrifennu hwn, mae'r Etholiad Cyffredinol ar fin digwydd. Wrth gwrs, gwnawn weithio gyda'r llywodraeth newydd gorau y gallwn, gan roi blaenoriaeth i fuddiannau defnyddwyr bob amser. Wrth i ynni barhau i fod o bwys mawr er budd y cyhoedd ac yn uchel ar yr agenda wleidyddol, gallwn ddisgwyl hyd yn oed fwy o gerrig milltir yn y dyfodol.



Dermot Nolan
Prif Weithredwr





Galluogi marchnad fanwerthu sy'n gweithio'n well

Ein rôl yw diogelu defnyddwyr, ac i wneud hynny rydym am gael marchnad ynni fanwerthu sy'n gweithio i bawb. Rydym am gael marchnad lle mae cystadleuaeth yn cyfyngu ar brisiau, yn hyrwyddo effeithlonrwydd, yn darparu gwasanaethau a chynhyrchion o safon, a lle mae cyflenwyr yn diwallu anghenion pobl agored i niwed.

Mae'r farchnad yn gweithio'n dda i gwsmeriaid sy'n barod i newid cyflenwr neu dariff er mwyn cael bargaen dda, ac a all wneud hynny. Ond nid yw tua 70% o bobl yn elwa o'r fath gystadleuaeth. Ni all defnyddwyr agored i niwed ar fesuryddion rhagdalau gael y cynigion gorau. Ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a wnaeth i ni gyhoeddi cap dros dro ar brisiau ym mis Ebrill, lle gwelwyd biliau nwy cwsmeriaid yn cwmpo tua 10-15% – neu tua £80 y flwyddyn.

Nid yw'r farchnad ychwaith yn gweithio i lawer o fusnesau bach, sy'n wynebu problemau tebyg i ddeiliaid tai. Mae ein gwaith i wella'r ffordd y mae'r farchnad fanwerthu yn gweithio yn cwmpasu tri maes:

- **Ymddygiad cyflenwyr** – sicrhau bod y drwydded a'n rhyngweithio â chyflenwyr yn hyrwyddo'r ymddygiad a'r safonau gwasanaeth rydym yn eu disgwyl ganddynt.
- **Cystadleuaeth ar yr ochr gyflenwi** – mae angen i'n rheoliadau hwyluso cystadleuaeth gadarn rhwng cyflenwyr. Dylai gwefannau cymharu prisiau fod yn cystadlu â'i gilydd, ac â chyflenwyr, tra'n parhau i ennyn ymddiriedaeth defnyddwyr.
- **Cynnwys defnyddwyr** – mae angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu i annog deiliaid tai a busnesau bach i ymgysylltu â'r farchnad a'i gwneud yn hawdd newid cyflenwr. Mae hyn yn hanfodol er mwyn gwneud i'r farchnad weithio'n well

Rheoleiddio manwerthu yn y dyfodol

Eleni, dechreuwyd o ddifrif weithio ar un o'r prosiectau mwyaf ei faint a mwyaf cyffrous yn ein hanes.

Rydym yn symud i reoleiddio'r farchnad ynni fanwerthu'n fwy drwy egwyddorion gorfodadwy, a gwneud llai o ddefnydd o reolau rhagnodi manwl. Mae hyn yn diogelu defnyddwyr yn y dyfodol mewn marchnad sy'n newid yn gyflym, ac mae'n rhoi mwy o le i gyflenwyr gystadlu ac arloesi.

Eleni gwnaethom weithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar sut i wneud y broses drawsnewid yn llwyddiant. Cynhaliwyd gweithdai a digwyddiadau, a chyhoeddwyd papurau er mwyn tywys rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu ein syniadau.

Dechreuwyd dileu rhannau mawr o ragnodi o'r drwydded gyflenwi, gan gynnwys 30 tudalen o amodau trwydded manwl, a ddylai alluogi cyflenwyr i arloesi'n fwy wrth gynnig tariffau.

Cyhoeddwyd ymgynghoriad statudol ar sut i alluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau hyddysg, ac un arall ar sicrhau bod y Safonau Ymddygiad yn cyflawni amcanion polisi, gan gynnwys ymgynghori ar egwyddor newydd i ddiogelu defnyddwyr agored i niwed yn well.

Gwnaethom herio cyflenwyr i newid y ffordd y maent yn gweithredu, ac i ganolbwyntio mwy ar gyflawni canlyniadau da i ddefnyddwyr. Gweithiwyd ar ddatrys cannoedd o faterion cydymffurfio drwy'r fath ymgysylltu, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu a bod cyflenwyr yn unioni'r sefyllfa yn gyflym – ac yn yr achosion mwyaf dybryd, cymerwyd camau gorfodi.



Mae cwynion gan gwsmeriaid i gyflenwyr ynni wedi cwmpo i'w lefel isaf mewn tair blynedd. Cafwyd cyfanswm o **3.5m** o gwynion yn 2016, o gymharu â **5m** yn 2015.

Rhaglen newid

Rydym am i ddefnyddwyr allu newid cyflenwr ynni yn gyflym ac yn ddibynadwy, ac erbyn y diwrnod trannoeth os ydynt yn dymuno. Rydym yn symleiddio ac yn cysoni systemau newid nwy a thrydan, wrth leihau'r risg o drosglwyddiadau anghywir.

Credwn y bydd system newid fwy dibynadwy a chyflym yn helpu i wella ymgysylltiad ac ymddiriedaeth defnyddwyr yn y farchnad. Mae profiad y cwsmer wedi bod yn ganolog i'r gwaith o ddylunio'r polisi sy'n ategu'r rhaglen gyfan.

Eleni, lluniwyd rhestr fer o dri phecyn diwygio: gwella proses y diwydiant, creu systemau canolog newydd, a chysoni systemau newid nwy a thrydan.

Yn 2016, newidiwyd cyflenwyr nwy neu drydan **7.7m** o weithiau, a oedd **28%** yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Dyma'r cyfraddau newid uchaf ers 2010. **Mewn bron hanner (47%)** newidiwyd i gyflenwyr bach neu ganolig.

Rhwymedïau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Yn ystod haf 2016, cyhoeddodd yr Awdurdod ganfyddiadau o'i ymchwiliad i'r farchnad ynni, a sbardunwyd gennym ddwy flynedd yn gynt.

Amlinellodd rwymedïau ar gyfer datrys y problemau a welodd – hynny yw, marchnad dwy haen: un lle'r oedd rhai defnyddwyr yn ymgysylltu ac yn cael y cynigion gorau, ac un arall lle prin oedd dwy ran o dair o gartrefi yn ymgysylltu â'r farchnad, os o gwbl, ac yn talu mwy am eu hynni nag oedd angen.

Yna dechreuasom weithredu'r rhwymedïau ar sail pum amcan: rheoleiddio er cystadleuaeth effeithiol, sicrhau mwy o ymgysylltu gan ddefnyddwyr, diogelu a grymuso'r rhai ar fesuryddion nad ydynt yn safonol, adeiladu systemau a phroses lywodraethu'r diwydiant ar gyfer y dyfodol, a rheoleiddiwr cadarn ac annibynnol.

Mae'r rhwymedïau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cap ar brisiau mesuryddion rhagdal, gan arbed tua £80 y flwyddyn i ddefnyddwyr nwy tan 2020. Daeth hyn i rym ym mis Ebrill
- Treialu sbardunau i'r cwsmeriaid 'anoddaf' ymgysylltu â'r farchnad a chwilio am dariffau rhatach. Rydym wedi gweithio gyda chyflenwyr i gynnal y treialon hyn ac wedi cyhoeddi canllawiau ar dreialu da
- Cronfa ddata a wnaiff arwain at gwsmeriaid sydd wedi ymddieithrio yn cael gwybod am y cynigion gwerth gorau. Rydym eisoes wedi treialu gwahanol amrywiannau'r gwasanaeth cronfa ddata ar raddfa fach
- Dileu rhan o'n diwygiadau o'r Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu fel y gall cwsmeriaid fwynhau ystod ehangach o gynigion
- Ymgynghori ar system o lywodraethu cod sy'n ei gwneud yn bosibl i gyflawni newid strategol mewn ffordd esmwyth ac effeithlon, sydd er budd defnyddwyr
- Ymgynghori ar y rheolau Cod Hyder newydd i wefannau cymharu prisiau

Credwn y bydd y mentrau hyn yn annog defnyddwyr i ymgysylltu â'r farchnad, ac yn helpu i wneud i gystadleuaeth weithio i bob defnyddiwr, wrth i gyflenwyr gystadlu amdanynt drwy ostwng prisiau a gwella gwasanaethau. I ddefnyddwyr, bydd yn haws ac yn gyflymach iddynt gael bargaen well, wrth i ni symud tuag at farchnad fwy deallus.

Rheoleiddio gwefannau cymharu prisiau a chyfryngwyr trydydd parti eraill

Gwefannau newid, broceriaid ynni, a chynghorwyr effeithlonrwydd ynni sy'n rhyngweithio â defnyddwyr yw cyfryngwyr trydydd parti. Gallant gynnig cyngor a



chynhyrchion er mwyn helpu defnyddwyr i gaffael a rheoli eu hynni, ac mae eu modelau busnes a'u llwybrau i'r farchnad yn ymledu drwy'r amser.

Eleni rydym wedi canolbwyntio ar rwymediâu'r Awdurdod sy'n effeithio ar gyfryngwyr trydydd parti. Gwnaethom gyfrannu at astudiaeth yr Awdurdod o'r farchnad cymharu ddigidol, a chasglwyd data cydymffurfio ar gyfryngwyr nad ydynt yn ddomestig.

Mae ganddynt rôl bwysig yn y gwaith o helpu i gyflwyno buddiannau mesuryddion deallus i ddefnyddwyr, a bydd fframwaith rheoleiddio cryf a hyblyg yn eu galluogi i ddiogelu defnyddwyr a hyrwyddo cystadleuaeth, sy'n gyson â'n dull o reoleiddio manwerthu yn y dyfodol.

Cynnwys defnyddwyr a deall ymddygiad

Mae ymchwil defnyddwyr yn llywio ein hymyriadau rheoleiddiol ac yn golygu y clywir llais y defnyddiwr wrth ystyried opsiynau polisi. Mae cipolwg yn sicrhau bod tystiolaeth a wnaiff wrthsefyll craffu cyhoeddus wrth wraidd polisi. Mae ein rhaglen ymchwil Defnyddwyr yn Gyntaf yn ein helpu i ddeall blaenoriaethau, safbwyntiau a phrofiadau, ac rydym yn comisiynu ymchwil annibynnol ac yn ymgysylltu â miloedd o ddefnyddwyr drwy ein harolygon a'n gweithdai rheolaidd.

Yn 2016, gwnaethom gynnal arolygon i olrhain ymgysylltiad defnyddwyr sy'n gartrefi ac yn ficrofusnesau â'r marchnadoedd ynni. Bydd y rhain yn ein helpu i roi mesurau newydd ar waith i annog defnyddwyr i chwilio am gynigion gwell.

Drwy ddylunio ymyriadau sy'n cyd-fynd â'r ffordd y mae defnyddwyr yn ymddwyn mewn gwirionedd yn hytrach na'r ffordd y credwn y dylent ymddwyn mae'r ymyriadau yn fwy tebygol o lwyddo. Gwnaethom sefydlu uned Cipolwg Ymddygiadol newydd i ddatblygu ein gwaith ar dreialon ar hap dan reolaeth. Gyda chymorth gwyddonwyr ymddygiadol a chyflenwyr ynni gwirfoddol, dyluniwyd rhwymediâu ymgysylltu. Gwnaethant hefyd baratoi'r ffordd ar gyfer treialon wedi'u harwain gan Ofgem.

Defnyddwyr agored i niwed

Ni chredwn y dylai unrhyw ddefnyddiwr fod dan anfantais na derbyn gwasanaeth gwaeth am ei fod yn agored i niwed.

Mae'r amgylchiadau a all roi pobl dan anfantais – er enghraifft: problemau darllen ac ysgrifennu, anabledd, salwch meddwl, argyfwng ariannol neu brofedigaeth sydyn – yn amrywio cymaint â'r defnyddwyr eu hunain.

Rydym am i gwmnïau gymryd perchenogaeth o gefnogi defnyddwyr agored i niwed. Wrth i ni symud tuag at reoleiddio ar sail egwyddorion, rydym yn cynnig egwyddor fras ar fod yn agored i niwed yn ein llyfryn rheolau. Byddai hyn yn gofyn i gyflenwyr roi sylw penodol i ddefnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus – sut i'w nodi, beth yw eu hanghenion, a sut mae cyflenwyr yn ymateb.

Gweithio gyda rheoleiddwyr eraill

Drwy Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU, rydym wedi bod yn gweithio ar sut y gall ein priod ddiwydiannau rannu gwybodaeth yn well am ddefnyddwyr agored i niwed mewn ffordd sensitif a chymesur, sydd wedi'i thargedu.

Mae cannoedd o ddefnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus yn elwa o gymorth am ddim gan gyflenwyr a gweithredwyr rhwydweithiau. Mae hyn yn helpu i sicrhau nad ydynt dan anfantais wrth ymwneud â'r farchnad ynni, eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel, a'u bod yn deall yr ohebiaeth a gânt gan gyflenwyr ynni.

Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth

Ym mis Ionawr 2017, daeth newidiadau i'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth i rym. Gwnaethant ehangu'r meini prawf cymhwysedd, fel y gall mwy o bobl gael gafael ar y gwasanaethau hyn, ac fel y gall cwmnïau dosbarthu a chyflenwi rannu data i'w cefnogi.

Er mwyn deall pa mor dda y mae cyflenwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion defnyddwyr agored i niwed, rydym yn mynd ati'n rheolaidd i gasglu data rhwymediagaethau cymdeithasol ar ddyled, datgysylltu, rhagdalau a'r defnydd o wasanaethau'r Gofrestr.



Nododd yr Adroddiad ar Rwymedigaethau Cymdeithasol, a gyhoeddwyd gennym y llynedd, y canlynol:

- Mae llai o gwsmeriaid mewn dyled, ond mae'r swm cyfartalog sy'n ddyledus ganddynt wedi cynyddu
- Er bod llai o gwsmeriaid mewn dyled, mae cyfran y cwsmeriaid ar fesuryddion rhagdalau yn dal i fod yn siomedig o uchel
- Dylai cyflenwyr – yn enwedig rhai bach a chanolig – wneud mwy i gefnogi cwsmeriaid drwy gynlluniau ad-dalu dyledion
- Nid yw'r rhan fwyaf o gyflenwyr bellach yn datgysylltu unrhyw gwsmeriaid oherwydd dyled, ond gwelwyd cynnydd y llynedd yn bennaf oherwydd dau gyflenwr: Npower ac Utility Warehouse.

ar yr ochr galw. Nododd yr adroddiad rai arwyddion calonogol ond hefyd broblemau parhaus.

Mae'r adroddiad hwn ymhlith llawer o adroddiadau a data eraill a gyhoeddwn i egluro sut mae'r farchnad yn gweithio, fel y gall pobl ddeall a yw'n gweithio'n dda.

Ceir mwy o ddangosyddion yn y Porth Data ar ein gwefan, www.ofgem.gov.uk/data-portal.

Fodd bynnag, gwyddom nad oes diben cyhoeddi'r data os na chânt eu rhoi mewn cyd-destun, felly, ochr yn ochr â'r data, cyhoeddwn gipolwg o'r hyn y mae'r data yn ei ddangos, beth all fod wrth wraidd y patrymau amrywiol ynddynt, sut maent yn effeithio ar ddefnyddwyr, a beth maent yn ei olygu i'r diwydiant. Gweler y bennod o'r enw: Bod yn ffynhonnell awdurdodol dadansoddi ansawdd.

Ar ddechrau 2017, gwnaethom ddechrau cyhoeddi Mynegai Cost Cyflenwi chwarterol. Mae'n olrhain tueddiadau mewn costau cyfanwerthol a rhwydwaith, a chostau rhaglenni'r llywodraeth i gyflenwyr a ddyluniwyd i helpu i sicrhau diogelwch cyflenwad, darparu trydan carbon isel, a rhoi cymorth ariannol i'r rhai mewn tlodi tanwydd.

Cwmnïau rhwydwaith a defnyddwyr agored i niwed

Caiff cwmnïau rhwydwaith eu cymell i gefnogi pobl agored i niwed a phobl mewn tlodi tanwydd. Gwnaethom barhau â Chynllun Ehangu Rhwydwaith Tlodi Tanwydd, lle mae'n ofynnol i gwmnïau rhwydwaith dosbarthu nwy gysylltu dros 91,000 o gartrefi mewn tlodi tanwydd erbyn 2021, gan gynnwys cymhelliant i gysylltu mwy. Ers ei gyflwyno yn 2008, mae mwy na 58,000 o gartrefi mewn tlodi tanwydd wedi'u cysylltu â'r grid nwy o dan y Cynllun. O'r rhain, bu dros 39,000 o gysylltiadau yn ystod tair blynedd gyntaf GD1, sy'n gadael 52,000 yn weddill erbyn mis Ebrill 2021.

Rhaid i bob cwmni dosbarthu fodloni Rheoliadau Safonau Perfformiad Trydan 2015. Os yw'n methu, rhaid iddo wneud taliad i'r cwsmer.

Monitro'r farchnad ac egluro sut mae'n gweithio

Rydym yn parhau i fonitro'r marchnadoedd ynni manwerthu ac yn 2016 gwnaethom gyhoeddi ein hail adroddiad blynyddol ar y Farchnad Ynni Fanwerthu. Edrychodd ar dueddiadau'r farchnad fanwerthu ar gyfer 2015-16: strwythur y farchnad, prisiau ac elw ar yr ochr gyflenwi, a datblygiadau wrth gynnwys defnyddwyr

Roedd y Mynegai Cost Cyflenwi 22% yn uwch ym mis Chwefror 2017 na blwyddyn yn gynt. Adlewyrchodd y cynnydd sylweddol hwn yn bennaf y cynnydd mewn prisiau nwy a thrydan cyfanwerthol am y 12 mis nesaf yn ystod y cyfnod.

Balansau credyd cyfrifon sydd wedi cau

Yn 2016, gwnaethom gyhoeddi bod cyflenwyr mawr wedi ad-dalu bron £670m i gwsmeriaid a oedd wedi cau eu cyfrifon ers dechrau 2014, pan wnaethom annog y diwydiant i weithredu.

Roeddem wedi herio cyflenwyr mawr i wneud mwy i ad-dalu hen gwsmeriaid a oedd mewn credyd pan gaewyd eu cyfrifon, fel arfer wrth newid cyflenwr.

Mae cyflenwyr mawr wedi ad-dalu tua 90% o falansau cyfrifon sydd wedi cau ers hynny, gyda'r rhan fwyaf o daliadau yn cael eu gwneud i hen gwsmeriaid o fewn 14 diwrnod i'r bil terfynol.

Weithiau gall fod yn anodd ad-dalu balansau credyd hirsefydledig, megis pan fydd hen gwsmer wedi symud tŷ ac na ellir dod o hyd iddo. Os na all cyflenwyr ddod o hyd i'r cwsmeriaid hyn, byddant yn cyfrannu unrhyw greddydd sy'n weddill at elusen.



Tueddiadau yn y farchnad ynni fanwerthu

- Mae cyflenwyr newydd yn dal i ymuno â'r farchnad fwyfwy (roedd **14** o gyflenwyr domestig newydd yn ystod y cyfnod hwnnw, a **naw** cyflenwr newydd annomestig)
- Parhaodd cyfran gyfunol o'r farchnad cyflenwyr bach a chanolig yn y farchnad ddomestig i dyfu i **14%** ar y cyfan (i fyny o 10% flwyddyn yn gynt). Parhaodd y chwe chyflenwr mwyaf i gollu cwsmeriaid domestig ac annomestig
- Cynyddodd elw cyn treth cyfunol y cyflenwyr mawr ym maes nwy, ond cwmpodd ym maes trydan. Cwmpodd elw cyfartalog, er bod gwahaniaethau mawr rhwng cwmnïau
- Gwelwyd cyfraddau newid domestig uwch, a chynyddodd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth defnyddwyr o'r farchnad ynni, ynghyd â'u hymddiriedaeth ynddi, ychydig. Ond parhaodd **un o bob pum defnyddiwr** i fod wedi ymddieithrio'n sylweddol, a'r rhan fwyaf yn dal i fod ar dariffau amrywiol safonol drud
- Cynyddodd cyfraddau newid annomestig ym maes trydan a chwmpo ychydig ym maes nwy. Mae microfusnesau a busnesau bach yn gwneud dewisiadau mwy gweithredol ar ddiwedd contractau tymor penodol, ond nid yw llawer yn deall telerau contractau o hyd
- Cwmpodd bil tanwydd deuol cyfartalog cwsmer domestig cyflenwr mawr **2%**
- Cwmpodd defnydd ynni domestig wedi'i addasu yn ôl y tywydd **0.9%** ym maes nwy ac **1.3%** ym maes trydan.

Capiau mesuryddion rhagdalau

Ceir pedair miliwn o gartrefi ym Mhrydain Fawr sy'n rhagdalau am eu hynni, yn bennaf gyda mesuryddion rhagdalau traddodiadol. Maent yn llai tebygol o gael budd o gystadleuaeth: mae llai o dariffau ar gael iddynt, ac mae'r rhai sydd ar gael yn ddrutach yn gyffredinol. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod mewn sefyllfaoedd bregus na'r rhai sy'n talu mewn ffyrdd eraill.

Felly, ar ddechrau 2017, gwnaethom gyhoeddi cap dros dro ar brisiau rhagdalau a fydd, er yn amrywio o ran nwy a thrydan ac yn ôl y math o fesurydd a rhanbarth, yn gweld biliau cwsmeriaid yn lleihau tua 10-15% – neu tua £80 y flwyddyn.

Bydd y cap yn dod i ben yn 2020, pan fydd y broses o gyflwyno mesuryddion deallus wedi'i chwblhau.

Yn 2016, gwnaethom gynnig capio taliadau am osod mesuryddion rhagdalau o dan warant. Mae hyn er mwyn diogelu cwsmeriaid sydd mewn dyled, lle mae eu cyflenwr yn aml yn gosod mesurydd rhagdalau pan fetho popeth arall.



Hwyluso'r broses o drawsnewid ynni

Mae'r ffordd y caiff ynni ei gynhyrchu, ei eneradu, ei gludo, ei storio a'i gyflenwi yn newid. Mae'r ymgyrch i leihau allyriadau carbon a defnyddio technoleg newydd yn golygu bod y system ynni yn cael ei thrawsnewid. Mae'n dod yn un garbon isel, sy'n llai canolog, yn fwy deallus ac yn fwy hyblyg.

Mae modelau busnes newydd a allai amharu yn ymuno â'r farchnad. Mae rhai yn seiliedig ar dechnolegau ynni newydd, mae rhai yn canolbwyntio ar gymunedau lleol, ac mae eraill yn defnyddio technoleg mewn ffordd arloesol.

Mae'r holl newidiadau hyn yn herio'r rheoliadau a rheolau'r farchnad sy'n llywodraethu'r diwydiant. Mae angen i drefniadau system sydd â galw goddefol a gorsafoedd ynni mawr a chanolog esblygu. Rôl Ofgem yw sicrhau bod hyn yn digwydd.

Bydd y broses drawsnewid hon yn cael ei hwyluso yn sgil cyflwyno mesuryddion deallus ym mhob cartref a busnes, a gysylltir drwy rwydwaith cyfathrebu i dŷ clirio data canolog.

Er mai'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol sy'n berchen ar y fframwaith polisi a rheoleiddio mesuryddion deallus cyffredinol, Ofgem sy'n gyfrifol am sicrhau bod y broses o gyflwyno seilwaith deallus yn amserol, yn effeithlon ac o fudd i ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y trefniadau yn galluogi'r diwydiant i wneud defnydd llawn o swyddogaethau.



Hyblygrwydd

Mae Coleg Imperial a'r Ymddiriedolaeth Garbon yn amcangyfrif y gallai system ynni fwy hyblyg a deallus arbed rhwng £17 a £40 biliwn i ddefnyddwyr erbyn 2050. Credwn y gall helpu i sicrhau bod y DU yn parhau i gael budd o system ynni ddiogel a fforddiadwy wrth i ni symud tuag at ddyfodol carbon is.

Ym mis Tachwedd 2016, ochr yn ochr â'r Adran, gwnaethom gais am dystiolaeth mewn perthynas â system ynni hyblyg a deallus. Gwnaethom ofyn i randdeiliaid am eu barn ar system ynni hyblyg y dyfodol, a sut y gallwn sicrhau bod ein cyfundrefn reoleiddio yn ei galluogi.

Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- defnyddio technoleg a gwasanaethau newydd mewn modd deallus i wneud cyflenwadau'n fwy diogel a chefnogi'r symudiad i system ynni carbon isel
- dileu rhwystrau i dechnolegau storio ynni megis batris mewn cartrefi, busnesau a rhwydweithiau – gall y rhain gadw ynni ar gyfer yr adegau pan fydd galw uchel neu fod ynni yn ddrutach

- Rôl newidiol cwmnïau rhwydwaith, wrth reoli system sy'n cynhyrchu llai o garbon
- ei gwneud yn haws i fusnesau ymateb yn wirfoddol ar yr ochr galw, hy lleihau eu defnydd o drydan ar adegau prysur yn gyfnewid am dâl
- sut y gall Ofgem a'r llywodraeth greu'r amgylchedd i syniadau newydd ffynnu drwy ddileu rhwystrau i arloesi

Denodd ein gwaith yn y maes hwn gryn ddiddordeb ac rydym wedi cael dros 200 o ymatebion i'r cais am dystiolaeth.



Rhaglen Marchnadoedd Mwy Deallus

Rydym yn arwain rhaglen waith i sicrhau bod pawb yn cael budd o fesuryddion ynni deallus a newidiadau i brosesau'r diwydiant.

Mae hyn yn gofyn am lawer o newidiadau sylfaenol i'r trefniadau sylfaenol, er mwyn paratoi'r ffordd i gynnwys defnyddwyr yn fwy yn y farchnad, a rhoi mwy o reolaeth iddynt dros eu defnydd ynni.

Cyflwyno mesuryddion deallus

Bydd mesuryddion deallus yn trawsnewid y marchnadoedd ynni cystadleuol ac yn helpu i greu system ynni fwy deallus sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Rhaid i gyflenwyr nwy a thrydan gymryd pob cam rhesymol i osod mesuryddion deallus ym mhob eiddo domestig a busnes bach erbyn diwedd 2020.

Yn 2016, derbyniom gynlluniau cyflenwyr ynni ar gyfer y broses hon. Gwnaethom fonitro hynt eu targedau gosod, ac ar ddechrau 2017 cafodd y cyflenwyr y cyfle i ddiweddarau eu cynlluniau.

Ar yr un pryd, rydym wedi canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr o'r broses hon, gan weithio gyda Cyngor ar Bopeth a'r Ombwdsmon Ynni. Mae hyn yn cynnwys goruchwyliaeth reoleiddiol o Smart Energy GB, sy'n gyfrifol am yr ymgyrch gyfathrebu genedlaethol, a Chod Ymarfer Gosod Mesuryddion Deallus, er mwyn sicrhau bod profiad y defnyddiwr yn gadarnhaol.

Y Cwmni Data a Chyfathrebu yw'r monopoli trwyddedig sy'n gyfrifol am gysylltu mesuryddion deallus mewn cartrefi a busnesau bach â systemau cyflenwyr ynni, gweithredwyr rhwydwaith a chwmnïau gwasanaethau ynni. Craffwn ar ei gostau drwy'r system rheoli prisiau flynyddol fel ei fod yn darparu gwerth am arian ac, ym mis Chwefror 2017, gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad ynghylch rheoli prisiau ar gyfer blwyddyn reoleiddio 2015-16. Ymgynghorwyd ar gyflwyno cymelliadau newydd i reoli prisiau er mwyn gwobrwyo perfformiad da.

Grymuso a diogelu defnyddwyr mewn marchnad fwy deallus

Mae prosiect Grymuso a Diogelu Defnyddwyr yn anelu at sicrhau y gall defnyddwyr gymryd rhan mewn marchnad ynni fanwerthu fwy deallus, gan gydnabod y cyfleoedd a'r risgiau sydd dan sylw.

Y llynedd gwnaethom ymgynghori ar newidiadau i Adroddiadau ar Rwymedigaethau Cymdeithasol ar gyfer perfformiad cyflenwyr o ran cwsmeriaid domestig. Penderfynwyd gwneud newidiadau er mwyn ein paratoi'n well ar gyfer monitro'r farchnad ragdal ddeallus yn y dyfodol.

Setliad

Mae setliad yn cysoni anghysondebau rhwng pryniannau cytundebol trydan cyflenwr a galw gwirioneddol ei gwsmeriaid. Bydd mesuryddion deallus yn cofnodi'r union symiau a ddefnyddir bob hanner awr yn hytrach nag amcangyfrif patrymau gan ddefnyddio proffiliau cwsmeriaid cyffredin. Golyga hyn fod cyflenwr wedi'u cymell i helpu eu cwsmeriaid i ddefnyddio trydan ar adegau pan fo'n rhatach i'w gynhyrchu a'i gludo.

Gall setliad bob hanner awr helpu i gyflawni marchnad drydan fwy hyblyg, arloesol ac effeithlon. Cam cyntaf ein gwaith oedd dileu'r rhwystrau i setliad dewisol costeffeithiol bob hanner awr. Gwnaethom symleiddio, cydlynu a chyflymu'r broses o symud cwsmeriaid i ac o setliad bob hanner awr, creu newidiadau i leihau cost asiantiaid cyflenwi dewisol, a darparu mesur trosiannol er mwyn atal cwsmeriaid sy'n dewis setliad bob hanner awr rhag talu ddwywaith am gostau trawsyrru.

Fel yr argymhellwyd gan yr Awdurdod, gwnaethom ymgynghori ar gynllun ar gyfer yr ail gam: symud i setliad gorfodol bob hanner awr. Gwnaethom weithio gydag ELEXON i fonitro cydymffurfiaeth cyflenwyr â'u rhwymedigaeth yn y Cod Cydbwyso a Setliad i setlo defnyddwyr annomestig canolig a mwy o faint (dosbarthiadau proffil 5-8) ar sail bob hanner awr erbyn 1 Ebrill 2017.



Cyswllt Arloesi

Y llynedd gwnaethom ddechrau treialu Cyswllt Arloesi am chwe mis. I unrhyw gwmni sydd am gyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau arloesol i'r farchnad, gyda rhagolygon realistig o fod o fudd i ddefnyddwyr, mae'r Cyswllt yn eu helpu gydag agweddau ar reoleiddio ynni.

Ystyriodd y treial a yw arloeswyr yn gwerthfawrogi adborth cyflym ac onest ar reoleiddio. Gwnaethom hefyd wahodd datganiadau o ddiddordeb mewn 'blwch tywod rheoleiddiol' – lle gall arloeswyr dreialu cynigion busnes a fydd o fudd i ddefnyddwyr heb orfod bodloni'r holl ofynion rheoleiddiol arferol.

Bu'r treial yn llwyddiannus, a phenderfynwyd parhau â'r Cyswllt Arloesi. Yn ogystal â helpu darpar arloeswyr, mae'n ein helpu i ddeall tueddiadau newydd, a meysydd lle gall fod angen i'n gwaith rheoleiddio addasu.

Mae'r gweithgareddau hyn ar ben y cyllid uniongyrchol a ddarparwn i gwmnïau rhwydwaith fynd ati i arloesi.

Future Insights

Yn dilyn gwaith a wnaed yn ystod hanner cyntaf 2016-17 ar sganio'r gorwel, gan gynnwys gweithdai i randdeiliaid ledled y wlad, gwnaethom gyhoeddi cyfres o bapurau future insights. Dechreuodd y rhain drwy asesu'r newidiadau cyffredinol rydym yn disgwyl eu gweld yn y sector ynni, gan nodi faint o ansicrwydd sydd a'r goblygiadau o ran gwaith rheoleiddio.

Edrychwyd ar ddatgarboneiddio gwres, gan archwilio'r newidiadau posibl yn y sectorau a reoleiddiwn, a rhai meysydd lle gallai fod yn fuddiol ehangu rheoleiddio. Rydym nawr yn gweithio gyda'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill ar ddyfodol rhwydweithiau nwy, potensial hydrogen, a'r fframwaith ar gyfer gwresogi ardal.

Lansiwyd papur yn archwilio byd ynni lleol, er mwyn ystyried effaith ei dwf ar y fframwaith rheoleiddio a'r goblygiadau i fuddiannau defnyddwyr.

Nodwyd sawl gwahanol fath o fodolau ynni lleol. Credwn mai'r ffordd orau o wasanaethu buddiannau defnyddwyr yw drwy eu gwneud yn rhan o system

integredig, gyda phrisiau yn adlewyrchu costau a gwerth system, a chyda marchnadoedd lleol yn gwella mynediad i gyfranogwyr llai.

Edrychodd ein papur terfynol yn 2016-17 ar ddyfodol defnydd ynni. Ystyriwyd tueddiadau, megis demograffeg a digideiddio, ac ystyriwyd y mathau o fodolau busnes a allai ddod i'r amlwg i ddiwallu anghenion defnyddwyr a bodloni eu dyheadau. Gwnaethom hefyd edrych ar y goblygiadau posibl i'r sector ynni a sut rydym yn rheoleiddio.

Ar y cyfan, hyd yn hyn mae cyfres Future Insights wedi dangos y potensial enfawr am newid yn y sector ynni, gan gynnig cyfle gwych i wella canlyniadau i gwsmeriaid ond rhai risgiau a heriau hefyd.

Gwyddom fod angen i ni reoleiddio mewn ffyrdd gwahanol er mwyn gwireddu'r potensial, ac ystyriwn fod mentrau rydym eisoes wedi eu rhoi ar waith, megis rheoleiddio ar sail egwyddorion a'r Cyswllt Arloesi yn gamau pwysig ar y daith honno.

Taliadau rhwydwaith a buddion ymgorfforedig

Mae'r broses o gynhyrchu trydan ym Mhrydain yn camu i ffwrdd o ddefnyddio gweithfeydd tanwydd ffosil mawr, a thuag at weithfeydd adnewyddadwy lleol. Mae mwy o'r hyn a gynhyrchir yn cysylltu â'r gridiau dosbarthu foltedd isel, yn hytrach na'r gridiau foltedd uchel.

Mae'r newid cyflym hwn wedi golygu efallai na fydd y trefniadau sydd ar waith yn galluogi cynhyrchwyr ynni bach a mawr i gael chwarae teg wrth gystadlu. Dyma pam ein bod yn edrych ar agweddau ar y trefniadau talu (sef buddion ymgorfforedig) ar gyfer cynhyrchwyr ynni sydd wedi'u cysylltu â rhwydwaith dosbarthu sydd â chapasiti islaw 100MW.

Lansiwyd adolygiad o fuddion ymgorfforedig, ac rydym yn pryderu bod un elfen o hyn yn amharu ar y Farchnad Gapasiti a marchnadoedd cyfanwerthu, ac yn cynyddu costau i ddefnyddwyr. Credwn y dylai defnyddwyr sy'n elwa o'r rhwydwaith wynebu taliadau sy'n adlewyrchu'n fras y costau a godir, oherwydd o wynebu cost wirioneddol eu hymddygiad maent yn fwy tebygol o wneud dewisiadau effeithlon.



Lle gwneir taliad, dylai adlewyrchu'r arbedion y mae defnyddwyr yn eu cynnig i'r system.

Rydym wedi ymgynghori ar ddisodli'r trefniadau hyn ac wrthi'n ystyried yr achos dros gyflwyno rhai newydd fesul cam.

Creu gweithredwr mwy annibynnol a all wrthsefyll y dyfodol

National Grid Electricity Transmission plc yw gweithredwr system rhwydwaith trawsyrru trydan Prydain Fawr.

Mae ganddo rôl bwysig yn y system drydan, sydd wedi tyfu dros y blynyddoedd. Mae bellach yn fwy gweithredol o ran datblygu'r rhwydwaith trawsyrru a'r farchnad gapasiti, a disgwylir iddo gyflawni swyddogaethau newydd wrth i gystadleuaeth am asedau trawsyrru ar y tir gael ei chyflwyno.

Rheoleiddiwn y gweithredwr hwn er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni buddiannau defnyddwyr. Weithiau byddwn yn ei gymhell er mwyn arloesi a gwella ei berfformiad.

Ond credwn fod angen iddo esblygu er mwyn sicrhau y gall ymateb i drawsnewidiad y system ynni a'i hwyluso dros y degawd nesaf. Mae'r trawsnewidiad yn tanlinellu'r angen am ddull mwy cydgysylltiedig, sydd wedi'i deilwra o gynllunio a gweithredu'r systemau trawsyrru a dosbarthu.

Credwn hefyd y dylai fod mwy o fwllch rhwng gweithredwr system y GC a swyddogaethau rhwydwaith trawsyrru trydan, fel bod y gweithredwr yn gweithredu er budd y defnyddiwr mewn gwirionedd.

Yn ddiweddar, gwnaethom ymgynghori ar rolau'r gweithredwr system a'r broses lywodraethu sy'n sicrhau ei fod yn gweithredu'n annibynnol, a sut y gall fframwaith rheoleiddio'r gweithredwr system gael ei ddylunio fel ei fod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i ddefnyddwyr. Ar adeg cyhoeddi, rydym yn dal i gasglu ymatebion. Fodd bynnag, disgwyliwn wahanu'r ddau erbyn mis Ebrill 2019 ac ystyriwn y gall y Grid Cenedlaethol ddechrau trawsnewid i'w rôl newydd ar unwaith.

Ariannu, llywodraethu a diwygio perchenogaeth Xoserve

Mae Xoserve yn darparu gwasanaethau data hanfodol i'r diwydiant nwy, gan gynnwys bilio, archebu capasiti, rhedeg gwasanaethau setlo nwy, a rheoli'r broses o newid cyflenwr.

O 1 Ebrill 2017, mae Xoserve wedi cael ei lywodraethu a'i ariannu'n uniongyrchol gan ei ddefnyddwyr, yn dilyn ein hadolygiad o'i drefniadau llywodraethu, perchenogaeth ac ariannu. Bydd y newidiadau a wnaed gennym yn ei alluogi i fod yn fwy ymatebol i'w ddefnyddwyr, yn fwy tryloyw, ac yn fwy arloesol o ran ei wasanaethau.

Dywedodd cludwyr nwy wrthym nad oedd Xoserve mewn sefyllfa i ddelio â newidiadau i'r diwydiant yn y dyfodol, megis mesuryddion deallus a newid yn gyflymach, a bod angen ei ddiwygio.

Ymgynghorwyd â'r diwydiant a phenderfynwyd, er y dylai perchenogaeth Xoserve barhau gyda'r cludwyr nwy, y dylid sefydlu model llywodraethu cydweithredol llawn er mwyn galluogi defnyddwyr Xoserve i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau, ac y dylai defnyddwyr ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol.

Rheoleiddio'r rhwydweithiau ac RIIO

Y rhwydweithiau sy'n cludo nwy a thrydan o amgylch y DU yw congflaen y system ynni gyfan. Yn ôl eu natur, monopoliâu yw'r rhan fwyaf o'r rhwydweithiau, felly mae angen i'w refferniw a'u perfformiad gael eu rheoleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig gwerth da i ddefnyddwyr. Mae ein rheolaethau prisiau yn darparu fframwaith buddsoddi hirdymor, sefydlog i rhwydweithiau, tra'n lleihau costau i ddefnyddwyr. Awn ati i fonitro perfformiad rhwydweithiau yn ofalus drwy'r rheolaethau prisiau wyth mlynedd, a chyfyngwn ar yr hyn a godir gan y cwmnïau trawsyrru a dosbarthu. Gosodwn dargedau iddynt er mwyn eu hannog i arloesi wrth dorri costau defnyddwyr, ac i helpu'r rhwydwaith i ddiwallu anghenion ynni Prydain yn y dyfodol. Galwn ein model rheoleiddio yn RIIO yn Saesneg, sef:

referniw = cymelliadau + arloesedd + allbynnau



Adolygiad canol cyfnod: Addasu lwfansau'r Grid Cenedlaethol

Yn 2013, gwnaethom bennu rheolaethau prisiau wyth mlynedd trawsyrru ynni a dosbarthu nwy. Darparwyd ar gyfer adolygu allbynnau cwmnïau hanner ffordd drwy'r cyfnod hwn, petai newidiadau i bolisi'r llywodraeth neu newidiadau i anghenion defnyddwyr rhwydwaith.

Gwnaethom benderfynu lansio adolygiad canol cyfnod o reolaethau prisiau 2013-2021, ond wedi'i gyfyngu i National Grid Electricity Transmission a National Grid Gas Transmission.

Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid i'n cynigion i newid allbynnau a chyllid, ym mis Chwefror 2017 penderfynwyd lleihau lwfansau'r Grid Cenedlaethol ym meysydd nwy a thrydan £185m.

Penderfynwyd cael gwared ar allbwn piblinellau Avonmouth National Grid Gas Transmission ynghyd â £168.8m mewn cyllid, gan nad oes angen y piblinellau mwyach.

Penderfynwyd lleihau lwfansau National Grid Electricity Transmission £16.6m. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod llai o angen diogelu safleoedd rhag lefelau nam cynyddol (gan leihau lwfansau £38.1m) a gweithgareddau newydd yn ymwneud â rôl newydd uwch weithredwr systemau (gan gynyddu lwfansau £21.5m).

Gwaith cyfochrog yr adolygiad canol cyfnod

Wrth benderfynu cynnal ein hadolygiad canol cyfnod gwnaethom nodi meysydd yr hoffem ymchwilio iddynt ymhellach. Galwn hyn yn waith cyfochrog ACC, ac mae'n edrych ar reolaethau prisiau trawsyrru a dosbarthu nwy.

Ym mis Chwefror 2017 cyhoeddwyd papur ymgynghori ar ein cynigion. Yn gyntaf, edrychwyd ar ddau allbwn lle nad yw'n glir sut y byddwn yn dwyn cwmnïau i gyfrif. Ein cynnig yw canolbwyntio ar ganlyniadau defnyddwyr yn hytrach na manylion allbwn.

Yn ail, nodwyd dau faes o'r rheolaethau prisiau lle credwn ei bod er budd defnyddwyr gwneud addasiadau. Bwriadwn ohirio'r lwfansau a ddarperir i National Grid Electricity Transmission a SP Transmission am fod yr HVDC Gorrlewinol, sef cyswllt isfor £1bn wedi'i gwblhau'n hwyr. Rydym hefyd yn bwriadu derbyn cynnig National Grid Gas Distribution i ad-dalu £53.9m i ddefnyddwyr am waith disodli prif bibellau haearn pwysedd canolig a ohiriwyd y tu hwnt i'r rheolaeth prisiau hon.

Safonau adrodd ariannol rheoleiddiol a chyfrifon RIIO

Rydym yn ymgynghori ar safonau adrodd ariannol rheoleiddiol, fel rhan o gyfrifon RIIO. Credwn y bydd hyn yn gwneud ein cyfundrefnau cymelliadau yn fwy

effeithiol drwy ddarparu fframwaith adrodd ariannol rheoleiddiol sy'n gyson â safon 'cyflwyno'n deg' ac yn cael ei archwilio'n unol â safon o'r fath, ac yn y pen draw bydd yn helpu i sicrhau bod cwmnïau yn cael eu dwyn i gyfrif yn fwy manwl gywir am eu perfformiad o dan RIIO.

Eleni gwnaethom weithio gyda rhanddeiliaid i gyflwyno fframwaith sy'n cyflawni'r amcan hwn, gan ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau rhwydwaith baratoi cyfrifon yn unol â'r safon adrodd ariannol rheoleiddiol.

Adolygiad Llywodraethu Cod 3

Caiff y rheolau sy'n sail i'r diwydiant nwy a thrydan ym Mhrydain Fawr eu hamlinellu mewn nifer o godau diwydiant, sy'n cynnwys trefniadau llywodraethu sy'n diffinio sut y gall y codau gael eu newid. Rydym wedi adolygu'r trefniadau llywodraethu hyn yn flaenorol ac wedi cyflwyno diwygiadau i'w gwella.

Ond o ystyried y newid a ddisgwyllir dros y blynyddoedd i ddod, gwnaethom adolygu'r trefniadau llywodraethu cod ym mis Mawrth 2016, ac ymgynghori ar newidiadau i'r trwyddedau a'u newid er mwyn gweithredu'r cynigion terfynol. Gwnaethom benderfyniadau ar newidiadau cysylltiedig i'r cod a gyflwynwyd gan y diwydiant, er mwyn sicrhau bod ein diwygiadau i'r cod ar waith o 1 Ebrill 2017.

Mae ein diwygiadau llywodraethu cod yn anelu at leihau rhwystrau diangen a biwrocratiaeth. Ystyriwn y bydd ein cynigion terfynol yn hyn o beth yn gwneud gwelliannau cynyddrannol pwysig wrth i ni weithio ar gyflawni rhwymedïau'r Awdurdod ar lywodraethu cod. Bydd newidiadau'r adolygiad a weithredwyd gennym eleni yn helpu gweinyddwyr codau a'r diwydiant ehangach i baratoi ar gyfer y newidiadau mwy sylfaenol a gynigir gan yr Awdurdod.

Cyllid arloesi RIIO

Mae angen i Brydain weld rhwydweithiau nwy a thrydan yn dod yn fwy deallus fel bod modd rheoli'r broses o drawsnewid i economi carbon isel ar y gost isaf bosibl i ddefnyddwyr. Bob blwyddyn, mae Ofgem yn galw ar gwmnïau rhwydwaith i gystadlu am gyllid o dan ein Cystadleuaeth Arloesi Rhwydwaith. Mae hyn yn eu galluogi i dreialu dulliau gweithredu a thechnoleg newydd a fydd yn paratoi'r ffordd i

gridiau mwy deallus, a rhwydweithiau mwy effeithlon a hyblyg.

Ym mis Tachwedd 2016, gwnaethom ariannu chwe phrosiect. Ymhlith y rhain roedd profi sut y gellir defnyddio nwy 'gwyrddach' ar grid nwy prifysgol yn Swydd Stafford, ac archwilio sut y gall meddalwedd ddatblygedig helpu i wneud defnydd mwy effeithlon o ynni'r haul a gysylltir yn lleol. Cytunwyd ar gyfanswm o £44.6m.

Ym mis Rhagfyr 2016, gwnaethom gyhoeddi gwerthusiad annibynnol o Gronfa Rhwydweithiau Carbon Isel (ein cronfa a oedd yn galluogi cwmnïau dosbarthu trydan i dreialu technoleg a threfniadau masnachol ar eu rhwydweithiau). Amcangyfrifodd yr adolygiad fuddiannau ariannol net o £4.8bn i £8.1bn erbyn 2030, petai pob cwmni yn cyflwyno'r holl ddatrysiadau cymwys. Hefyd, amcangyfrifodd y gallai'r prosiectau hyn leihau allyriadau hyd at 215m tunnell o CO2 yn ystod eu hoes.

Ym mis Mawrth 2017, gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i gyflwyno newidiadau i'n Cynlluniau Arloesi presennol: Cystadleuaeth Arloesi Rhwydwaith a Lwfans Arloesi Rhwydwaith. Rydym am i'n cynlluniau arloesi sicrhau gwerth am arian i ddefnyddwyr a newid diwylliant mewnol y cwmnïau rhwydwaith a reoleiddiwn. Dylai'r newidiadau gynyddu ymwneud cwmnïau nad ydynt yn rhwydwaith â'r cynlluniau drwy ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau rhwydwaith wneud cais blynyddol am syniadau arloesol.

Asesu cyflawniadau a gwariant

Ar ôl i'r bumed reolaeth prisiau dosbarthu trydan ddod i ben yn 2015, penderfynwyd bod meysydd penodol lle'r oeddem am gael mwy o fanylion er mwyn ein helpu i asesu cyflawniadau a gwariant allbwn. Addaswyd Llawlyfr Ariannol RIIO-ED1 i gynnwys y newidiadau. Roedd y rhain ar gyfer:

- Mesurau allbwn rhwydwaith
- Ailgorwr cysylltiedig â llwyth
- Prosiectau gwerth uchel
- Ailgorwr costau trwydded y Ddeddf Rheoli Traffig
- Ailgorwr atal llifogydd

Ar sail yr holl fanylion hyn, bu modd i ni benderfynu p'un a ddylid addasu lwfansau gweithredwyr y rhwydwaith dosbarthu am i fyny neu am i lawr, yn dibynnu ar p'un a ydynt yn cyflawni ai peidio.

Rhyng-gysylltwyr

Rydym yn asesu ac yn rheoleiddio rhyng-gysylltwyr trydan newydd drwy ein cyfundrefn cap a therfyn isaf. Yn 2016-17 newidiwyd y drwydded er mwyn gweithredu cap a therfyn isaf prosiect Cyswllt Nemo i Wlad Belg (ein prosiect cap a therfyn isaf cyntaf) a gwnaethom ymgynghori ar yr Asesiad Prosiect Terfynol ar gyfer prosiect NSL i Norwy. Mae'r ddau brosiect bellach yn mynd rhagddynt, a gwnaeth prosiect IFA2 i Ffrainc ei benderfyniad buddsoddi yn 2016-17 hefyd. Mae'r prosiectau eraill a gymeradwywyd hyd yma hefyd yn datblygu tuag at y cam Asesu Prosiect Terfynol.

Yn 2016-17 cynhaliwyd ein hail ffenestr ymgeisio cap a therfyn isaf, a gaeodd ym mis Hydref. Cawsom dri chais ac rydym wrthi'n eu hasesu er mwyn pennu a ydynt yn debygol o elwa defnyddwyr ac a ddylid eu cymeradwyo fel rhan o'r gyfundrefn cap a therfyn isaf.

Mae'r llwybr eithrio ar gyfer buddsoddi mewn rhyng-gysylltwyr newydd yn dal i fod ar gael. Yn 2016-17 gwnaethom ganiatáu ymestyn yr eithriad rheoleiddio presennol ar gyfer prosiect ElecLink, a wnaeth ei benderfyniad buddsoddi ddiwedd 2016. Bydd ElecLink yn dechrau'r gwaith adeiladu rhwng Prydain a Ffrainc yn ddiweddarach yn 2017.

Perchenogion Gweithrediadau Trawsyrur ar y Môr

Ddiwedd 2016, cyhoeddwyd ein hadroddiad ar referniw perchenogion gweithrediadau trawsyrur ar y môr ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Nododd y canlynol:

- Ymrwymwyd bron £3bn hyd yma i ddatblygu perchenogion gweithrediadau trawsyrur ar y môr
- Yn 2015-16 galluogodd perchenogion gweithrediadau trawsyrur ar y môr dros 13TWh o drydan i gael ei drawsyrur (gall 1TWh gadw rhwydwaith rheilffyrdd y DU i symud am fwy na thri mis)
- Mae gwynt ar y môr yn cyfrannu at 5% o ofynion trydan blyneddol y DU ar hyn o bryd

- Mae'r DU yn cynhyrchu mwy o drydan o wynt nag unrhyw wlad arall

Tendrau ar y môr

Gwnaethom barhau i reoli proses dendro gystadleuol ar gyfer gweithrediadau trawsyrur ar y môr er mwyn penodi perchenogion trawsyrur ar y môr. Cwblhawyd trydydd cylch dendro prosiectau perchenogion gweithrediadau trawsyrur ar y môr, y cyntaf o dan y gyfundrefn barhaus, gan greu cyfanswm buddsoddi presennol o ychydig o dan £3bn a chysylltu dros 4.3GW o gynhyrchiant gwynt ar y môr â'r grid ar y tir, a chyflawni £700m mewn arbedion.

Dechreuodd cylch dendro pedwar ym mis Ebrill 2016 a'r pumed ym mis Hydref 2016 – gyda'r ddau gylch gyda'i gilydd yn cynrychioli dros £2bn o fuddsoddiad trawsyrur ac yn cysylltu dros 2.3GW o gapasiti cynhyrchu gwynt ar y môr – y cylch dendro mwyaf hyd yma. Dewiswn y cynigion mwyaf cystadleuol gan gwmnïau i fod yn berchen ar y cysylltiadau â safleoedd ar y môr a'u gweithredu dros ugain mlynedd.

Gwnaethom gyhoeddi rhestr fer o bum cynigydd i fod yn berchen ar y cyswllt trawsyrur gwerth £230m ar gyfer fferm wynt ar y môr Burbo Bank Extension ym Mae Lerpwl a'i weithredu. Ym mis Mawrth 2017, gwnaethom gyhoeddi rhestr fer o gynigwyr a oedd yn cystadlu i fod yn berchen ar gysylltiadau trawsyrur â ffermydd gwynt Dudgeon, Rampion a Race Bank oddi ar arfordiroedd Norfolk a Sussex a'u gweithredu, a gwahoddwyd cwmnïau i gyflwyno cynigion i fod yn berchen ar gysylltiadau â fferm wynt Galloper oddi ar arfordir dwyreiniol Lloegr, a fferm wynt Walney Extension ym Môr Iwerddon a'u gweithredu.

Cystadleuaeth trawsyrur ar y tir

Ymgynghorwyd ar sut i dendro prosiectau seilwaith trawsyrur trydan newydd ar y tir gwerth £100m neu fwy. Ystyriwn ei bod yn debygol yr arbedir arian i ddefnyddwyr os defnyddir proses dendro i ddewis parti i adeiladu rhai prosiectau newydd ar y tir a bod yn berchen arnynt. Gwnaethom barhau i ddatblygu dyluniad y gyfundrefn a'r cynigion ar gyfer newid deddfwriaeth a thrwyddedau, gan weithio gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Hefyd, dechreuwyd asesu p'un a ddylai prosiectau penodol (Cysylltiadau Arfordir y Gogledd-orllewin a Chefnen Hinkley) fod yn destun proses dendro gystadleuol.



Bod yn ffynhonnell awdurdodol dadansoddi ansawdd

Gall Ofgem wneud gwahaniaeth wrth egluro beth sy'n llywio newidiadau mewn prisiau ac elw, drwy roi data diduedd ac awdurdodol ar y farchnad ynni. Felly cyhoeddwn wybodaeth am y prisiau y mae cartrefi yn eu talu am eu hynni, yr elw a wnaiff cyflenwyr, a'r tueddiadau o ran costau diwydiant cyflenwyr.

Y llynedd, gwnaethom weithio'n galed i wneud y data hyn yn hawdd eu defnyddio, drwy lansio ein Porth Data a'n cyfres o d dangosyddion y farchnad.

Disgwyliwn helpu i wneud y farchnad yn fwy cystadleuol a dynamig drwy fod yn dryloyw – â defnyddwyr sy'n chwarae mwy o ran. Dros amser, rydym am weld y newidiadau a wnawn i'r marchnadoedd ynni yn cynyddu'r pwysau cystadleuol sydd ar gyflenwyr, ac yn helpu i gadw prisiau ynni i lawr.

Mae gennym rôl i'w chwarae yn egluro sut mae'r farchnad yn gweithio, ac yn llywio'r penderfyniadau a wnaiff pobl pan gymerant ran ynddi.

Eleni, gwnaethom hefyd ganolbwyntio ar sicrhau bod ein proses gwneud penderfyniadau fewnol yn rhedeg mor esmwyth â phosibl, a'n bod mor effeithlon a dibynadwy ein hunain ag yr anogwn eraill i fod.



Swyddfa'r Prif Economegydd

Y llynedd gwnaethom lansio Swyddfa'r Prif Economegydd, er mwyn gwella'r broses gwneud penderfyniadau o fewn Ofgem. Mae ganddi dri nod:

- Atgyfnerthu ein penderfyniadau ar ran defnyddwyr, gan gynnwys gwella ansawdd ein hasesiadau effaith a gwerthuso polisiau
- Meithrin gallu dadansodol o fewn Ofgem, gan sicrhau bod gan ein pobl yr adnoddau i wneud gwahaniaeth
- Arwain ein gwaith ymchwil a sganio'r gorwel sy'n ein helpu i ddeall beth sy'n llywio newidiadau yn y system ynni, beth fydd yr effaith, a beth ddylai ein hymateb rheoleiddiol fod

Porth data a dangosyddion

Gwnaethom lansio Porth Data, www.ofgem.gov.uk/data-portal, lle gallwch weld siartiau rhyngweithiol a dangosyddion sy'n dangos pa mor dda mae'r farchnad ynni yn gweithio. Rydym yn ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth mor gyfredol a chywir â phosibl.

Mae'n cynnwys gwybodaeth am y marchnadoedd manwerthu a chyfanwerthu, gwasanaeth cwsmeriaid, a rhwydweithiau.

Ein nod, wrth wneud hyn, yw darparu gwybodaeth glir a dibynadwy am y farchnad ynni, ei fod yn hygyrch ac yn llawn gwybodaeth.

Monitro perfformiad cwmnïau

Rydym yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad cyflenwyr er mwyn i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau newid effeithiol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Ombwdsmon Ynni a Cyngor ar Bopeth er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn berthnasol, yn gymaradwy ac yn gyson, a chydlynwn gyhoeddiadau lle bo modd.

Meddylfryd reoleiddio

Lansiodd y grŵp ein meddylfryd reoleiddio ddiwedd y llynedd – pum egwyddor yw'r rhain a ddyluniwyd i helpu pawb yn Ofgem wrth ddatblygu polisiau a gwneud penderfyniadau. Maent yn helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein canlyniadau strategol i ddefnyddwyr. Y rhain yw:



- 1) Hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol sydd er budd defnyddwyr
- 2) Sicrhau gwerth gweithgareddau monopoli drwy gystadleuaeth a rheoleiddio
- 3) Cefnogi arloesedd o ran technoleg, systemau a modelau busnes
- 4) Rheoli risgiau er ynni effeithlon a chynaliadwy
- 5) Diogelu defnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus

Adnodd mewnol yw ein meddylfryd reoleiddio yn bennaf i sicrhau bod ein gwaith yn cefnogi'r dull gweithredu a'r canlyniadau yn ein strategaeth. Dylent hefyd helpu ein rhanddeiliaid mewnol i ddeall ein dull gweithredu yn well. Nid ydynt yn drech na'n pwerau na'n dyletswyddau statudol.



Ein gweithgareddau busnes craidd

Efallai mai ein gwaith ar farchnadoedd manwerthu sydd yn y penawdau, a bod ein rhwydweithiau a'n systemau ynni yn paratoi'r ffordd ar gyfer y dyfodol, ond y tu ôl i'r llenni mae ein cydweithwyr yn gweithio ar feysydd "busnes fel arfer" sydd serch hynny yn hynod gymhleth, gan ganolbwyntio'n ddifflino ar anghenion defnyddwyr. Dyma rai ohonynt o'r flwyddyn ddiwethaf.



Cydymffurfio a gorfodi

Yn 2016-17 gwnaethom gwblhau pedwar ymchwiliad a chymryd camau gorfodi amgen, a arweiniodd at dalu iawndal o £277.5m i ddefnyddwyr, neu unioni'r sefyllfa.

Arweiniodd un ymchwiliad at Nwy Prydain yn cytuno i dalu £4.5m i'r Ymddiriedolaeth Garbon er mwyn unioni'r sefyllfa ar ôl iddo fethu â bodloni terfyn amser i gyflenwi rhai cwsmeriaid busnes mwy o faint drwy uwch fesuryddion trydan. Arweiniodd ymchwiliad arall at ScottishPower yn cytuno i dalu £18m, yr aeth £15m ohono i gwsmeriaid agored i niwed y gwnaeth ei fethiannau wrth ddelio â chwynion a bilio effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Cwblhawyd ein hymchwiliad i SSE o dan y Ddeddf Cystadleuaeth, a oedd yn ymwneud â gwasanaethau hanfodol a ddarperir ganddo wrth gysylltu datblygiadau newydd â'i rwydwaith trydan yn Ne Lloegr. Nodwyd anghysondeb yn y ffordd roedd yn darparu'r gwasanaethau hyn, sydd eu hangen i alluogi cystadleuwyr i gystadlu'n effeithiol. Ymrwymodd i wella systemau TG er mwyn atal dyfynbrisiau anghyson, hyfforddiant rheolaidd ar gydymffurfio ac archwiliadau ac adroddiadau trydydd parti.

Mae ein systemau cydymffurfio a gorfodi yn mynd y tu hwnt i gosbi cwmnïau yn ariannol yn unig. Gwnaethom sicrhau y newidiwyd ymddygiad a phrosesau, gan ddefnyddio ein hadnoddau statudol ac anstatudol i atal defnyddwyr rhag cael niwed.

Er enghraifft, yn dilyn ein gwaith gyda Co-operative Energy, cytunodd y cyflenwr i dalu £1.8m i ddefnyddwyr am fod cwynion gan gwsmeriaid y rhoddwyd gwybod i ni a Cyngor ar Bopeth amdanynt wedi cynyddu'n sylweddol ar ôl iddo fudo

ei system filio TG. Ers hynny, mae'r cyflenwr wedi gweithio'n dda gyda ni i adfer lefelau gwasanaeth cwsmeriaid, ac mae wedi ein sicrhau y gall gyflawni ei rwymedigaethau.

Newidiadau i'r broses unioni

Pan fo cwmnïau ynni yn torri gofyniad, gall unioni'r sefyllfa drwy wneud taliadau i helpu defnyddwyr ynni, drwy elusennau, ymddiriedolaethau a thrydydd partiön, gyda'n sêl bendith.

Mae'r taliadau hyn yn wirfoddol, ac maent yn lle neu ar ben cosb ariannol is a wynebwr gan gwmni yn dilyn camau gorfodi. Yn wahanol i gosbau ariannol, a delir i'r Trysorlys, mae'r taliadau unioni gwirfoddol hyn yn elwa defnyddwyr ynni.

Gyda mwy o gwmnïau yn dewis gwneud taliadau unioni gwirfoddol, gwnaethom edrych i weld a oedd y system hon yn sicrhau'r budd mwyaf i ddefnyddwyr ynni. Ar ôl ymgynghori, penderfynwyd caffael darparwr gwasanaeth annibynnol a oedd yn arbenigo mewn talu arian i brosiectau elusennol er mwyn dyrannu'r taliadau unioni. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod yr arian wedi'i dargedu'n dda ac yn cael yr effaith fwyaf posibl.

Cyflenwyr sy'n mynd yn fethdalwyr

Os bydd cyflenwyr yn mynd yn fethdalwyr, bellach mae rhwyd ddiogelwch ar waith i ddiogelu balansau credyd cwsmeriaid.

Mae'r gyfundrefn 'cyflenwr pan fetho popeth arall' eisoes yn sicrhau y bydd pobl yn parhau i gael eu



cyflenwad ynni os bydd eu cyflenwyr yn mynd allan o fusnes. Penodwn gyflenwr arall i sicrhau hyn, ond yn y gorffennol roedd risg i arian cwsmeriaid petai ganddynt gredyd – fel credydwyr diwarant roeddent yn annhebygol o gael eu harian yn ôl petai'r cyflenwr yn mynd i'r wal.

Nawr, fodd bynnag, mae Ofgem yn ystyried pwy all ddiogelu balansau credyd cwsmeriaid orau wrth benodi cyflenwr arall.

Cafodd hyn ei brofi'r hydref diwethaf pan aeth GB Energy Supply allan o fusnes a phenodwyd Co-operative Energy gennym yn ei le. Dyma'r tro cyntaf mewn wyth mlynedd i'r broses 'cyflenwr pan fetho popeth arall' gael ei gweithredu, a sicrhawyd canlyniad da i ddefnyddwyr.

Gwnaethom ymateb yn gyflym a thros un penwythnos. Cafodd pob cwsmer ei symud o GB i Co-op gan barhau ar yr un tariff. Diogelwyd eu balansau credyd, ac anrhydeddwyd eu balansau credyd oedd yn weddill.

Rheolwyd y broses o gyfathrebu â chwsmeriaid, gan weithio'n agos gyda Cyngor ar Bopeth i dawelu meddyliau. Cafodd y ffordd lwyddiannus y gwnaethom ymdrin â'r sefyllfa ei chydnabod gan grwpiau defnyddwyr, sylwebwyr yn y farchnad ynni, y llywodraeth, a chyflenwyr ynni. Mae wedi rhoi hyder i ni fod cyfundrefn gadarn a all ddiogelu defnyddwyr mewn sefyllfaoedd fel hyn.

Monitro safonau gwarantedig

Rydym yn monitro'r ffordd y mae cyflenwyr yn gweithredu'r gyfundrefn safonau gwarantedig, gan sicrhau bod eu perfformiad o dan y safonau hyn yn cael ei gyhoeddi'n gyson ac yn dryloyw.

Y llynedd, gwnaeth E.ON ac Ovo ein hysbysu eu bod wedi methu â thalu iawndal (sydd wedi'i fandadu gan y safonau) ar ôl methu apwyntiadau neu fod yn hwyr ar eu cyfer. Yn y ddau achos, gwnaethom weithio gyda'r cwmnïau i wella a chytuno ar becynnau

unioni, yn hytrach na chymryd camau gorfodi ffurfiol. Cytunodd y ddau gwmni i dalu iawndal i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol a/neu elusennau er mwyn helpu defnyddwyr ynni.

Daeth safonau newydd i rym yn 2016, gyda fframwaith adrodd newydd. Mae cyflenwyr yn gyfrifol am weithredoedd trydydd partion sy'n gweithredu ar eu rhan, ac fe'u hanogir i roi gwybod i ni am unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Safonau ac i gymryd camau adfer cadarn.

Gwrthwynebiadau cyflenwyr

Y llynedd cwblhawyd ein hadolygiad o'r amgylchiadau lle gallai cyflenwyr wrthwynebu gweld cwsmeriaid domestig ac annomestig yn newid ('gwrthwynebiadau'). Penderfynwyd parhau â'r rheolau ar gyfer gwrthwynebiadau newid i ddefnyddwyr domestig ac annomestig ond i wella ein proses o fonitro arferion cyflenwyr.

Nodwyd bod cyfraddau gwrthwynebu domestig wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a nodwyd y dylai cyflenwyr gynnal pwysau am i lawr ar nifer y gwrthwynebiadau, yn enwedig ar lefelau dyled cwsmeriaid is. Roeddem am weld mwy o newid mewnol gan gwsmeriaid y gwrthwynebwyd eu newid oherwydd dyled. Anogwyd cyflenwyr i wella'r broses o gyfathrebu â chwsmeriaid sydd mewn dyled.

Cwynion am gyflenwyr

Mae cwynion gan gwsmeriaid i gyflenwyr ynni wedi cwmpo i'w lefel isaf mewn tair blynedd. Yn 2016, cafwyd cyfanswm o 3.5m o gwynion, i lawr o 5m yn 2015.

Cyhoeddodd Ofgem a'r Ombwdsmon Ynni ffigurau newydd ym mis Mawrth 2017, a wnaeth hefyd ddangos bod y rhan fwyaf o gyflenwyr mawr a chanolig yn datrys o leiaf 90% o gwynion o fewn wyth wythnos ar gyfartaledd – y terfyn amser lle gall unigolion wedyn atgyfeirio cwynion at yr Ombwdsmon.



Fodd bynnag, mae defnyddwyr yn llai bodlon ar y ffordd y mae eu cyflenwr yn delio â chwynion. Nid yw'r rhan fwyaf o gwsmeriaid yn barod i oddef gwasanaeth cwsmeriaid gwael mwyach, ac roedd 52% o'r holl achwynwyr a holwyd wedi neu'n bwriadu newid yn sgil eu profiad. Cyflenwyr â'r hanes gwaethaf o ddelio â chwynion oedd yn wynebu'r niferoedd mwyaf yn newid.

Roedd rhai cyflenwyr wedi gwella ond gallai eraill wneud yn well drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid am hynt eu cwynion, a rhoi gwybodaeth iddynt am ffyrdd eraill o ddatrys eu problem, megis drwy'r Ombwdsmon. Mae'r Ombwdsmon yn gweithio i godi safonau cyflenwyr, megis drwy roi cosbau llymach.

Ceir gwybodaeth am wasanaeth cwsmeriaid a phroses delio â chwynion cyflenwyr yn adran Porth Data'r wefan, fel y gall defnyddwyr gymharu'r gorau a'r gwaethaf.

Gwella'r broses gysylltu

Gofynnwyd i Weithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu dreialu ffyrdd o greu capasiti newydd ymhellach ymlaen llaw, er mwyn cyflymu cysylltiadau. Gelwir hyn yn rhagfuddsoddi.

Ym mis Chwefror, gwnaethom gyhoeddi adroddiad yn dangos bod Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu wedi darparu dros 3.7GW o gapasiti drwy weithredu'n fwy deallus o ran cysylltiadau. Mae ychydig o hyn yn ymwneud â threfniadau cysylltu hyblyg lle mae cynhyrchwyr ynni yn cytuno â Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu na fyddant yn rhedeg ar adegau pan fo'r rhwydwaith yn cael ei ddefnyddio'n llawn. Mewn achosion eraill roedd Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu yn gallu cynnig capasiti lle caiff y cynhyrchydd ynni fynediad parhaus i'r rhwydwaith.

Mae hyn yn lleihau'r angen am waith atgyfnerthu grid costus, gan olygu bod cysylltiadau yn gyflymach ac yn rhatach.

Prosiect Nexus

Rydym yn parhau i oruchwylio Prosiect Nexus, sef rhaglen fawr gan y diwydiant cyfan i ddisodli systemau setlo nwy. Yn 2016, gwnaethom ymgynghori ar opsiynau gweithredu llwyddiannus, a phennwyd dyddiad gweithredu newydd, sef 1 Mehefin 2017. Rydym wedi goruchwylio a gwella ymdrechion y diwydiant o ran y rhaglen yn llwyddiannus ac mae'r diwydiant ar y trywydd iawn i fodloni'r terfyn amser.

Gwaith Ewropeaidd

Brexit: Cefnogi'r llywodraeth

Ers y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae Ofgem wedi gweithio'n agos iawn gyda'r llywodraeth i roi cyngor diduedd ac arbenigol ar faterion ynni. Rydym wedi treulio cryn dipyn o amser yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'r Adran dros Adael yr Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â deall safbwyntiau'r diwydiant a chynnal cydberthnasau gwaith cynhyrchol â'n cyd-reoleiddwyr.

Disgwylwn i lefel y gwaith hwn gynyddu ac iddo ddod yn fwy cymhleth nawr bod Erthygl 50 wedi'i sbarduno ac wrth i'r Bil Diddymu Mawr gael ei ffurfioli. O fewn Ofgem, gwnaethom werthuso ein dull o ymdrin â materion yn deillio o bolisiau Ewropeaidd o ganlyniad i bleidlais Brexit er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd sydd o'r budd mwyaf i gwsmeriaid.

Ymgysylltu â phe cyn Ynni Glân i Ewrop Gyfan

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion eang i ailddylunio'r farchnad ynni Ewropeaidd sef 'Ynni Glân i Ewrop Gyfan'. Mae Ofgem wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n cyd-reoleiddwyr, drwy'r Asiantaeth Cydweithredu Rheoleiddwyr Ynni (ACER) a Chyngor Rheoleiddwyr Ynni Ewrop (CEER), i wneud awgrymiadau ar gyfer mireinio a gwella cynigion y Comisiwn.

Mae'n debygol y bydd rhannau o'r Pecyn Ynni Glân terfynol, os nad y cyfan, wedi dod yn rhan o acquis yr UE cyn cwblhau negodiadau Brexit y DU, felly mae'n bwysig ein bod yn parhau i ymgysylltu fel hyn, gan ddatblygu marchnadoedd sy'n gweithio er budd defnyddwyr ym Mhrydain a ledled Ewrop.

Mae ein gwaith ymgysylltu drwy CEER yn canolbwyntio ar y canlynol: rôl Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu yn y dyfodol; datblygu gridiau deallus, a chynigion i wella gweithrediad marchnadoedd manwerthu. Mae ein gwaith o fewn ACER yn sicrhau bod marchnadoedd cyfanwerthu yn gystadleuol, bod fframweithiau llywodraethu yn effeithiol, a bod seilwaith yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio'n effeithlon.

Dylanwadu ar gyfreithiau cymeradwy a'u gweithredu

Mae Codau Rhwydwaith Ewropeaidd yn gyfres o gyfreithiau cyfrwymol sy'n hyrwyddo cystadleuaeth, y defnydd effeithlon o gapasiti trawsyrru, integreiddio marchnadoedd ynni a chysoni rheolau ar gyfer gweithredu rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu. Fel rhan o'n gwaith i'w gweithredu, gwnaed nifer o newidiadau i drefniadau, trwyddedau a deddfwriaeth y diwydiant ym Mhrydain Fawr.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd pedwar Cod a Chanllaw Rhwydwaith newydd yn cael eu mabwysiadu. Ym maes nwy, mabwysiadwyd y cod tariffau ac ym maes trydan, mabwysiadwyd y Canllaw ar Weithredu Systemau a thrafodwyd y cod cydbwysu yn helaeth.

Dylanwadodd Ofgem ar gynnwys y dogfennau hyn wrth iddynt gael eu datblygu. Fel rhan o hyn, cynhaliwyd trafodaethau â chyd-reoleiddwyr a gweithredwyr systemau trawsyrru sy'n drafftio'r cyfreithiau hyn, a chefnogwyd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn ystod y negodiadau. Parhawyd i weithio'n agos gyda'r diwydiant i weithredu'r Codau Rhwydwaith a gymeradwywyd cyn eleni.

Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU

Gwnaethom barhau i gymryd rhan ym mhrosiectau Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU yn ystod 2016-17. Gwnaethom arwain yr adolygiad cyntaf gan gymheiriaid o benderfyniad cost gyfalaf rheoleiddiwr arall, ar gyfer rheolaeth prisiau Dosbarthu Nwy rheoleiddiwr cyfleustodau Gogledd Iwerddon. Rydym wedi bod yn gweithio gyda UKRN ac Ofwat i nodi'r buddiannau, cyfleoedd a heriau posibl i wella'r broses o gyfnewid gwybodaeth am amgylchiadau bregus defnyddwyr yn y sector dŵr a'r sector ynni. Ym mis Medi 2016, cyhoeddodd UKRN adroddiad ar wefannau cymharu prisiau, a arweiniwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol gyda chyfraniadau gennym ni ac Ofcom.

Diogelwch cyflenwadau

Mae diogelwch cyflenwadau, o ran nwy a thrydan, yn flaenoriaeth i Ofgem a'r llywodraeth. Yn 2016-17, roedd gwaith yn y maes hwn yn cynnwys:

- Sicrhau y craffwyd yn fanwl ar gostau gwasanaethau cydbwysu newydd y Grid Cenedlaethol ar gyfer gaeaf 2015-16 ac mai dim ond costau effeithlon a darbodys yr aed iddynt yn unol â'r methodolegau a adenillwyd
- Rheoli newidiadau i Reolau'r Farchnad Gapasiti er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu a bod amcanion yn cael eu cyflawni
- Cyflawni ein rolau gorfodol o ran Diwygio'r Farchnad Drydan: delio ag anghydfodau ynghylch Contractau Gwahaniaeth a'r farchnad gapasiti; cyhoeddi adroddiadau ar gyflawniad National Grid Electricity Transmission o'i rôl corff cyflawni Diwygio'r Farchnad Drydan a gweithrediad y farchnad gapasiti; derbyn a chofnodi memoranda gwneud prisiau
- Goruchwylio ymddygiad cyfranogwyr yn y farchnad gapasiti ac atgyfeirio at gamau gorfodi, a chymryd rhan ym myrddau polisi a gweithredol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.



Gaeaf diwethaf gwelwyd sawl achos o dorri rhyng-gysylltiadau. Gwnaethom fonitro effaith y rhain ar ddiogelwch cyflenwadau, o lefel munud i funud i effeithiau cyfnodau brig y gaeaf ar Ddisgwyliad Colli Llwyth. Ar sail hyn, roedd modd i ni roi hyder i randdeiliaid mewnol ac allanol fod digon o gyflenwad i fodloni'r galw hyd yn oed yn ystod cyfnodau tynn y gaeaf.

Monitro'r farchnad cyfanwerthu

Rydym yn monitro marchnad ynni cyfanwerthu Prydain, er mwyn deall y tueddiadau, risgiau ac effeithiau ar ddefnyddwyr. Mae hyn yn ein helpu i nodi problemau o ran dyluniad y farchnad, a datblygu polisiau. Rydym hefyd yn monitro'r farchnad er mwyn nodi achosion o beidio â chydymffurfio â thrwyddedau a rheoliadau perthnasol, gan gynnwys y Rheoliad ar Uniondeb a Thyrlowyder y Farchnad Ynni (REMIT).

Un rhan bwysig o hyn yw gweithio gyda'r Grid Cenedlaethol ar asesu risgiau i ddiogelwch cyflenwadau nwy a thrydan. Defnyddiwn ein hallbynnau monitro'r farchnad a'n dealltwriaeth i herio ei asesiad ar ran defnyddwyr. Rydym yn monitro agweddau eraill ar y farchnad, megis cystadleuaeth, ac yn cyhoeddi dangosyddion chwarterol o'r farchnad er mwyn pennu pa mor effeithiol yw ein marchnadoedd ynni cyfanwerthu.

Os bydd gweithgarwch y farchnad yn herio uniondeb marchnadoedd cyfanwerthu, gall fod yn niweidiol i ddefnyddwyr a chynyddu biliau. Mae monitro'r marchnadoedd ac ymchwilio i ddiffyg cydymffurfiaeth posibl yn atal y rheini a all gael eu temtio i fanipwleiddio marchnadoedd ynni cyfanwerthu. Enghraifft o hyn yw Amod Trwydded Cyfyngu ar Drawsyrro, sydd wedi arbed tua £150m i ddefnyddwyr ers ei gyflwyno yn ôl ein hamcangyfrifon. Yn ddiweddar rydym wedi penderfynu ymestyn yr amod trwydded hwn yn barhaol.

Hylifedd yn y marchnadoedd cyfanwerthu

Er mwyn i farchnad Prydain Fawr fod yn gystadleuol, mae angen i gyflenwyr a chynhyrchwyr ynni fod yn hyderus y gallant brynu a gwerthu ynni cyfanwerthol am bris teg. Rydym yn monitro marchnadoedd cyfanwerthu Prydain Fawr, ac er bod y farchnad nwy yn hynod hylif, mae'r ochr drydan yn llai hylif. Mae marchnadoedd hylif yn bwysig am eu bod yn sicrhau bod prisiau yn gywir ac yn adlewyrchu gwerth y farchnad, sy'n golygu bod cwsmeriaid yn well eu byd hefyd.

Gwnaethom gyflwyno diwygiadau hylifedd i'r farchnad bŵer yn 2014, ac ers hynny rydym wedi gweld tueddiadau fel cynhyrchiant uwch (sawl gwaith y caiff trydan ei fasnachu cyn ei ddefnyddio), a lledaeniad cynnig is (y gwahaniaeth o ran y prisiau y bydd cynhyrchwyr ynni yn gwerthu pŵer amdano a faint y bydd cyflenwyr yn ei dalu), a ddynododd fod hylifedd yn gwella. Dangosodd adroddiad blynyddol 2016 fod cyflenwyr wedi bod yn prynu mwy, sydd wedi ennyn ymddiriedaeth yn y prisiau a ddarperir gan y cwmnïau mawr pan fyddant yn 'cyrraedd y farchnad'.

Mae'r diwygiadau hefyd wedi ei gwneud yn haws i gyflenwyr llai brynu cynhyrchion pŵer cyfanwerthol gan fod ganddynt wybodaeth gliriach am delerau masnachu.

E-Serve

Ym mis Ionawr, sefydlodd Gweinidog Cyllid Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ymchwiliad cyhoeddus er mwyn ystyried y Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig, yn arbennig gynllun, llywodraethu a gweithredu, ac ymdrechion i reoli costau'r cynllun. Gan mai ni oedd yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun, mae ein rôl yn y meysydd hyn hefyd yn cael ei harchwilio. Rydym wedi llunio tîm penodedig i weithio gyda'r ymchwiliad.

Drwy gydol y cyfnod hwn rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ein swyddogaeth graidd – gweinyddu cynlluniau amgylcheddol a rhaglenni defnyddwyr a chymdeithasol ar ran y llywodraeth. Ymysg y cynlluniau hyn mae'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig ac Annomestig, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, y Tariff Cyflenwi Trydan, Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni a'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes. Rydym wedi parhau i weithio'n galed i wella ansawdd y gwasanaeth a gaiff y sawl sy'n rhan o'r cynllun, tra'n sicrhau gwerth am arian i ddefnyddwyr a'r diwydiant. Dyma rai o'n prif gyflawniadau yn ystod y flwyddyn.

Mentrau a gyflawnwyd gennym

Yn 2016-17 gwnaethom barhau i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth gan y sawl sy'n rhan o'r cynllun a chyflenwyr â'r rhwymedigaethau sy'n gymwys iddynt. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod targedau polisi'r llywodraeth yn cael eu cyflawni, bod defnyddwyr yn cael eu diogelu, a bod cynlluniau yn cynnig gwerth am arian.

Ad-daliad Trydan y Llywodraeth

Ar gyfer Ad-daliad Trydan y Llywodraeth, gwnaethom adolygu blwyddyn olaf y cynllun a ph'un a gyflawnodd cyflenwyr eu rhwymedigaethau. Ad-dalodd y cynllun bawb ond nifer fechan o gwsmeriaid domestig. Yn achos ad-daliadau na ellid eu gwneud, gwnaethom sicrhau bod cyflenwyr yn cyfrif am y rhain yn eu ffurflenni i ni a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a wnaeth ddyrannu cyllid ar gyfer yr ad-daliad. Er mai cynllun byrhoedlog oedd hwn, roedd yn unigryw i ni ei weinyddu gan ei fod yn cynnwys pob cyflenwr domestig. O'r herwydd, bu'n ofynnol i ni feithrin cydberthnasau newydd â chyflenwyr llai a rhoi cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid i'r farchnad.

Gostyngiad Cartrefi Cynnes

O dan y Gostyngiad Cartrefi Cynnes, gwnaethom sicrhau bod cyflenwyr ynni domestig yn cyflawni eu rhwymedigaethau, drwy helpu bron 2.2m o gwsmeriaid agored i niwed bob blwyddyn, drwy ddarparu £140 mewn ad-daliadau biliau trydan a chymorth anuniongyrchol i ddefnyddwyr mewn perygl o dloidi tanwydd. Gwnaethom weithio gyda'r diwydiant a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i sefydlu menter a oedd yn galluogi cyflenwyr ynni i roi cymorth i fwy na 5,000 o breswylwyr cartrefi parciau, nad oeddent wedi cael budd o'r cynllun yn flaenorol. Hyd yma, mae hyn yn cynrychioli dros £700,000 mewn cymorth ad-daliadau biliau ynni.

Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni

O dan Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni, gwnaethom gymryd rhan yn adolygiad Mae Pob Cartref yn Cyfrif a wnaeth adolygu'n annibynnol gyngor i ddefnyddwyr ar fesurau effeithlonrwydd ynni cartrefi ac ynni adnewyddadwy. Gobeithiwn y bydd ei argymhellion yn diogelu ac yn cefnogi defnyddwyr sy'n elwa o osod mesurau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yn well, ac y gallwn adlewyrchu'r gwelliannau yn ein systemau cydymffurfio a monitro.

Tariffau Cyflenwi Trydan

O dan y cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan, gwnaethom ymgorffori'r gyfundrefn capiau defnydd a chyhoeddi canllawiau drafft ar gyfyngiadau porthiant a chynaliadwyedd. Gwnaethom wella boddhad gwasanaeth cwsmeriaid, drwy gyflwyno dulliau newydd o brosesu ceisiadau a chanllawiau hawdd eu darllen.

Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

Gwnaethom oruchwylio'r gwaith o gau'r cynllun Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy i ymgeiswyr newydd ar 31 Mawrth 2017, er bod cyfnodau gras ar gael o dan amgylchiadau arbennig amrywiol. Cyn hynny, gwnaethom ddarparu canllawiau yn egluro'r rheolau gwahanol ar gyfer cyfnodau gras ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon, gan ymgynghori â rhanddeiliaid a chynnal gweithdai yn ystod y flwyddyn.

Atal twyll ac archwiliadau

Gwnaethom barhau i adolygu a diweddarau ein strategaethau archwilio, er mwyn sicrhau ein bod yn archwilio cydymffurfiaeth cyfranogwyr â chrib mân. Cynhaliwyd cylch llwyddiannus o archwiliadau safle ar gyfer gorsafoedd micro o dan y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yng Ngogledd Iwerddon. Ar gyfer y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig, gwnaethom barhau i fesur archwiliadau a dargedwyd ac a samplwyd yn ystadegol er mwyn arddel barn fwy realistig o ddiffyg cydymffurfiaeth o fewn y cynlluniau.

Bu gwella diogelwch ac effeithlonrwydd ein prosesau gwneud cais o dan y cynlluniau gwres a thrydan adnewyddadwy yn flaenoriaeth yn 2016-17. Gwnaethom sicrhau profiad cwsmeriaid o'r radd flaenaf tra'n lleihau'r risg o dwyll.

Ym mhob cynllun, parhawyd i ganfod ac atal twyll, a bydd hynny bob amser yn faes allweddol i ganolbwyntio arno. Pan gafwyd tystiolaeth o dwyll, defnyddiwyd ein hadnoddau gweinyddol i gymryd camau a gwnaethom gydweithio ag awdurdodau erlyn a chyrrff ardystio.

Gweithio gyda rhanddeiliaid

Rydym wedi gweithio gydag amrywiaeth o rhanddeiliaid, gan gynnwys cwmnïau ynni, grwpiau defnyddwyr, a'r sawl

sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau. Drwy gyfarfodydd, ymgynghoriadau, gweithdai, weminarau ac arolygon, rydym wedi rhoi'r cyfle iddynt roi adborth i ni tra'n parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau. Drwy weithredu ar eu hadborth rydym wedi gallu gwella ein prosesau gweinyddol yn aml, gan ein galluogi i gyflawni cynlluniau yn y ffyrdd mwyaf darbodus posibl sy'n ystyriol o'r defnyddiwr.

Gwnaethom barhau i weithio'n agos gyda'r cyrrff sy'n ariannu'r cynlluniau a weinyddir gennym, gan gynnwys yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Adran yr Economi Gogledd Iwerddon, er mwyn sicrhau bod y newidiadau i'r cynlluniau yn cael eu gweithredu'n hawdd a'u bod yn cael eu gweinyddu mewn ffordd gosteffeithiol.

Gwnaethom weithio gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i symleiddio'r memorandwm cyd-dealltwriaeth y cytunwyd arno ym mis Mawrth 2013. Yn ogystal â'n helpu i gydweithredu i gyflawni amcanion polisi'r llywodraeth, mae hyn wedi ein helpu i ddeall mwy am y wybodaeth y mae angen i ni adrodd arni ar ei rhan.

Gwnaethom hefyd weithio gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i wella'r cynlluniau trydan adnewyddadwy, gan gynnwys symud y Tariff Cyflenwi Trydan yn llwyddiannus o fod yn gynllun ar sail galw i fod yn gynllun ar sail capasiti. O dan y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, gwnaethom ddarparu arweiniad a gweithdai i egluro newidiadau o ran cymhwysedd, a chau'r Rhwymedigaeth Ynni a chyfnodau gras cysylltiedig. Hefyd parhaodd ein gwaith i gefnogi'r Cwmni Contractau Carbon Isel ar addasrwydd a mesuriadau tanwydd.

O dan gynllun Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni, gwnaethom weithio gyda'r gadwyn gyflenwi i leihau'r baich gweinyddol a pharatoi ar gyfer newidiadau o dan y fersiwn estynedig o'r cynllun hwnnw. O 1 Hydref 2018 caiff y cynllun ei ddisodli gan rwymedigaeth cyflenwr newydd i leihau allyriadau carbon a chanolbwyntio ar y bobl sydd mewn tldi tanwydd.

O fewn ein cynlluniau ynni adnewyddadwy, ceisiwyd adborth gan rhanddeiliaid i'n helpu i wella ein prosesau gweinyddol. O dan y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig a Domestig, gweithredwyd ar adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid i ddiwallu eu hanghenion a symleiddio prosesau lle bo modd. Hefyd gwnaethom weithio gydag awdurdodau i ddiogelu defnyddwyr rhag masnachwyr a gosodwyr islaw'r safon.

Gwella tryloywder

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i wella ymddiriedaeth a hyder yn y cynlluniau a gyflwynwn drwy sicrhau eu bod yn dryloyw ac yn atebol. Mae ein prosesau trafodion a rheoleiddiol cryf a'n proses o gyfathrebu â rhanddeiliaid wedi gwneud hyn yn bosibl.

Gwnaethom wella adran E-Serve gwefan Ofgem, er mwyn ei gwneud yn haws i rhanddeiliaid gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen.

Fel rhan o hyn gwnaed y wybodaeth yn symlach ac yn haws ei deall, ac ychwanegwyd adrannau canllaw ac adnoddau. Gwnaethom ddiweddarau llyfrgelloedd pob cynllun er mwyn helpu defnyddwyr i chwilio am ddogfennau a pharhawyd i gyhoeddi siartiau rhyngweithiol, sydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn i rhanddeiliaid. Parhawyd i anfon cylchlythyrau ar gyfer pob cynllun, er mwyn diweddarau tanysgrifwyr.

Y tu ôl i'r llenni, rydym wedi bod yn ei gwneud yn haws i rhanddeiliaid gael gafael ar ein data. Mae hyn wedi cynnwys datblygu adnodd mapio ar-lein rhyngweithiol. Fe'i dyluniwyd i ddarparu gwybodaeth ranbarthol ac etholaethol i gynlluniau am fetrigau mor amrywiol â'r math o dechnoleg a osodwyd, y capasiti a osodwyd a'r math o fesur effeithlonrwydd ynni a osodwyd.

Ym mis Mai 2016, lansiodd ein hadnodd mesur boddhad cwsmeriaid ar gyfer cynlluniau seiliedig ar drafodion. Drwy'r arolygon a anfonwyd at ymgeiswyr cynlluniau, bu modd iddynt roi adborth ar eu profiad o wneud cais, gan ein helpu i'w gwella i ymgeiswyr yn y dyfodol. Rydym wedi gweld ein lefelau boddhad cwsmeriaid yn cynyddu yn ystod y flwyddyn, ac felly rydym wedi cyflwyno arolygon i gwmpasu mwy o feysydd, megis taliadau a datganiadau blynyddol, ac i gynlluniau nad ydynt yn seiliedig ar drafodion.

Gwnaethom adolygu'r data a gyhoeddwn ar berfformiad E-Serve, a'r cynlluniau a weinyddir gennym, er mwyn gweld sut y gallem eu gwella. O ganlyniad, rydym bellach yn cyhoeddi ein sgorau boddhad cwsmeriaid, yn ogystal â sut rydym wedi perfformio yn erbyn ein prif ddangosyddion perfformiad, ar ein gwefan. Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am nifer y ceisiadau a gawn a'r broses ar gyfer pob cynllun, bob mis, yn ogystal â hyd cyfartalog ciwiau gwneud cais. Mae hyn fel bod gan rhanddeiliaid syniad gwell o pa mor gyflym y mae'n debygol y caiff eu cais ei brosesu.

Sicrhau ein bod yn cyflawni gwelliant parhaus a gwerth am arian

Ein nod yw rhagori ym mhopeth a wnawn. Yn ystod 2016-17, parhaodd ein Fforwm Rhagoriaeth Weithredol i gydlynu prosiectau trawsgynllun er mwyn rhannu arfer gorau, cyflawni arbedion, a gwella ein prosesau i'r eithaf. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys datblygu a gweithredu polisiau cadw data, trefnu hyfforddiant LEAN a diweddarau a defnyddio ein matrices sgiliau. Yn ogystal â gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y rhai sy'n rhan o'r cynllun, sicrhodd y gwaith hwn ein bod yn cynnig gwerth am arian i ddefnyddwyr a'r diwydiant.

Un enghraifft o'r gwelliannau a wnaed gennym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw prosesu ceisiadau ROOFIT. Drwy newid y broses o adolygu ceisiadau, rydym wedi goruchwyllo cwmp sylweddol yn hyd ciwiau o bron 3,000 o geisiadau ddiwedd 2015, i lai na 500 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Dechreuwyd prosiect i ailddatblygu Cofrestr Ganolog y Tariff Cyflenwi Trydan er mwyn ei gwneud yn haws i gyflenwyr ei defnyddio.

O dan y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig, gwnaethom ganolbwyntio'n fwy ar gwsmeriaid a gwella ein gwybodaeth fewnol. Gwnaethom awtomeiddio'r broses Datganiad Blynyddol, gwella'r broses o ddilysu manylion banc, ac ailddylunio'r ffurflen gais er mwyn ei gwneud yn haws i ymgeiswyr ei chwblhau. Mae cryn dipyn o'r gwaith hwn wedi'i ddylunio er mwyn helpu i gyflawni cyfradd prosesu awtomatig uwch drwy leihau nifer y ceisiadau y mae angen eu hadolygu â llaw.

Rydym wedi cyflawni prosiectau o dan y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig er mwyn gwella'r broses o gyflwyno data cyfnodol ac ymdrin â galwadau ac ymholiadau, tra'n gweithio gyda'n tîm TG i weithredu dull ystwyth o newid systemau. Rydym wedi canolbwyntio'n sylweddol ar wneud y prosesau achredu a diwygio yn fwy ymatebol ac effeithlon.

Mae ein Rhaglenni Effeithlonrwydd Ynni a Chymdeithasol wedi gwneud gwelliannau gweinyddol sylweddol yn ystod 2016-17. Ymhlith y rhain bu diweddarau gweithdrefnau gweithredu safonol er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r cynllun, a phrosiect gwaith rhwng cynlluniau er mwyn galluogi staff i weithio'n hyblyg rhwng y tair rhaglen.

Ein rhanddeiliaid

Yr Alban

Ers etholiadau mis Mai 2015, rydym wedi canolbwyntio ar sefydlu cydberthnasau â Senedd newydd yr Alban, gan sicrhau ein bod yn weladwy ac yn hygyrch, ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau am ddiogelu defnyddwyr.

Gwnaethom friffio Pwyllgor newydd yr Economi, Swyddi a Gwaith Teg, cymryd rhan mewn bord gron, a rhoi tystiolaeth lafar fel rhan o'r craffu ar Gynllun Newid yn yr Hinsawdd a Strategaeth Ynni Ddrafft Llywodraeth yr Alban. Rydym wedi bod yn awyddus i gyfarfod ag ASAau yn unigol, yn y Senedd, ac yn ein swyddfa yn Glasgow.

Eleni gwnaethom hefyd roi tystiolaeth i Ymchwiliad Pwyllgor Materion yr Alban San Steffan i ddyfodol ynni adnewyddadwy yn yr Alban, ynghyd â thystiolaeth ysgrifenedig bellach i'r Pwyllgor Archwilio Cyhoeddus a Chraffu Ôl-Ddeddfwriaethol ar Fil yr Alban. Y flwyddyn 2016-17 oedd y gyntaf i ni gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol gerbron Senedd yr Alban o dan Ddeddf yr Alban, gan ffurfioli trefn rydym wedi'i dilyn ers sawl blwyddyn ar sail anstatudol.

Yn ogystal â sicrhau bod gennym gydberthnasau cadarn â'r Senedd, gwnaethom gyfarfod â Llywodraeth yr Alban a Gweinidogion yr Alban yn fynych. Y Gweinidog Busnes, Ynni ac Arloesi, Paul Wheelhouse, oedd gŵr gwadd ein digwyddiad blynyddol i randdeiliaid a arweiniwyd gan ein cadeirydd yng Nghaeredin, a gwnaethom gymryd rhan yn nhrafodaethau Bwrdd Cynghori ar Ynni'r Alban a Chonfensiwn yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd. Cefnogwyd Uwch Gynhadledd Llywodraeth yr Alban ar Gyfleustodau ym mis Rhagfyr drwy siarad am ein gwaith yn monitro rhwymedigaethau cymdeithasol cyflenwyr, ac rydym yn parhau i gymryd rhan yn y trafodaethau hyn.

Rydym wedi parhau i arsylwi ar Fforwm Tlodi Tanwydd yr Alban, gan gynnwys gwneud cyflwyniad mewn seminar ar newidiadau yn y farchnad ynni

fanwerthu a chanlyniadau ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Cyflwynodd y Tasglu Tlodi Tanwydd Gwledig ei adroddiad i Weiniogion yr Alban, a chan adeiladu ar ein cyfranogiad yng ngwaith y tasglu, gwnaethom ymateb yn ysgrifenedig i'r adroddiad hwn.

Eleni, gwnaethom dreialu rhai ffyrdd newydd o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn yr Alban, fel bod ein hymgyngoriadau a gwaith datblygu polisi yn elwa o ystod eang o fewnbwn, a'n bod yn rhoi cyfle i randdeiliaid glywed yn uniongyrchol gan uwch aelodau o staff am dueddiadau yn y farchnad a'r gwaith a wnawn i ddiogelu defnyddwyr. Er enghraifft, gwnaethom gynnal digwyddiad bord gron i gynghorwyr ynni rheng flaen gyda'n huwch bartner ar gyfer Defnyddwyr a Chystadleuaeth, a chynhaliwyd digwyddiad ymgynghori ar ein Blaenraglen Waith yn Glasgow. Gwnaethom gynnal dau weithdy ar ein rhaglen Future Insights yn yr Alban, gan symud y tu allan i'r gylchfa ganolog a chynnal digwyddiad yn Inverness.

Gan gydnabod y bydd ein digwyddiadau ymgynghori a briffiadau weithiau'n denu cynulleidfwa fwy arbenigol, gwnaethom hefyd ddarparu cyfleusterau fideogynadledda i randdeiliaid yn yr Alban ymuno â chyfarfodydd yn Llundain, arloesiad a groesawyd gan y rhanddeiliaid a oedd yn bresennol. Roedd hyn yn cynnwys briffiadau ar y Mynegai Cost Cyflenwi a Rhwymedigaethau Cymdeithasol. Gwnaethom gysylltu ag ystod eang o randdeiliaid yn yr haf wrth ymgynghori ar opsiynau i wella dyraniad unioni gwirfoddol, gan ddenu llawer o gyfranogwyr o'r sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus.

Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym eu bod am gael ystadegau sy'n dangos tueddiadau yn y farchnad i ddefnyddwyr yn yr Alban, a gwnaethom ddatblygu'r amrywiaeth o ddeunydd a gyhoeddwyd eleni gan gynnwys, am y tro cyntaf, ddadansoddiad o ad-daliadau Gostyngiad Cartrefi Cynnes a newid fesul gwlad. Rydym yn awyddus i glywed gan randdeiliaid am ddeunydd arall a fyddai'n ddefnyddiol iddynt.

Yn ogystal â threfnu ein cyfarfodydd a'n digwyddiadau ein hunain, gwnaethom achub ar y cyfle i siarad mewn cynadleddau sefydledig, gyda hyblygrwydd yn thema allweddol.

Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau a thrafodaethau a gynhaliwyd gan Lywodraeth yr Alban, yn fwyaf nodedig ei gwaith ar ddatganoli gwasanaethau eirioli a chynghori defnyddwyr, a'i strategaeth ynni. Mae arloesi hefyd wedi bod yn thema allweddol ac rydym wedi cyfrannu ein harbenigedd at banel Arddangosydd Carbon Isel Llywodraeth yr Alban ac wedi ymgysylltu â phartion â diddordeb drwy ein Cyswllt Arloesi a'n blwch tywod rheoleiddiol.

Cymru

Rydym wedi cyfarfod ag ystod eang o gynrychiolwyr gwleidyddol a'u briffio ynghylch rôl Ofgem yn diogelu defnyddwyr. Ym mis Tachwedd, cyfarfu ein Prif Swyddog Gweithredu ag ysgrifennydd newydd y cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig a chadeirydd newydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad i drafod ein gwaith a blaenoriaethau'r pwyllgor. Ar wahân, rydym wedi cyfarfod â llefarwyr ynni o'r holl bleidiau gwleidyddol er mwyn siarad am ein gwaith i ddiogelu defnyddwyr a hyrwyddo cystadleuaeth.

Rydym wedi cyfarfod â chynrychiolwyr gwleidyddol o Ynys Môn sawl gwaith i drafod y llwybr arfaethedig tuag at gysylltu'r orsaf ynni niwclear newydd ac rydym yn parhau i weithio gyda'r grŵp a sefydlwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith i archwilio atebion posibl i drydedd bont ar Ynys Môn.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â thrawstoriad o swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn trafod gwaith Ofgem a materion ynni yng Nghymru, ac rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi'i chynrychioli ar ein Fforwm Datblygu Cynaliadwy a'r Grŵp Defnyddwyr Mawr ar gyfer busnesau

sy'n defnyddio llawer o ynni. Rydym yn parhau i roi cyngor ar y fframwaith rheoleiddio fel rhan o Fforwm Technegol Byw'n Glyfar Llywodraeth Cymru. Ym mis Ionawr gwnaethom siarad mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd yn anelu at hwyluso ymateb swyddogol gan Gymru i ymgynghoriad ar y cyd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Ofgem ar hyblygrwydd yn y system ynni, ac ym mis Mawrth gwnaethom fynychu digwyddiadau ledled Cymru i archwilio'r cynnig am gwmni ynni nid er elw yng Nghymru.

Cafwyd nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus eraill. Yn yr haf, cynhaliodd ein huwch bartner dros Ddefnyddwyr a Chystadleuaeth ddigwyddiad bord gron lle rhannodd cynrychiolwyr o grŵp Clymblaid Tlodi Tanwydd Cymru a sefydliadau defnyddwyr eraill eu safbwyntiau a'u syniadau ynghylch cynnwys defnyddwyr yn y farchnad ynni, a sut i ddiogelu pobl agored i niwed orau. Hefyd, cyfarfu â chynghorwyr rheng flaen o Cyngor ar Bopeth yng Nghymru i glywed yn uniongyrchol am y problemau a wynebri gan ddefnyddwyr ynni. Fel rhan o'n huchelgais i ddeall yn well pa sbardunau o ran newid y system ynni a gaiff yr effaith bosibl fwyaf ar ddefnyddwyr a rheoleiddio, gwnaethom gynnal gweithdai lle cafodd rhanddeiliaid y cyfle i ddylanwadu ar ein gwaith. Cynhaliwyd digwyddiad tebyg ym mis Chwefror a ofynnodd am fewnbwn i'n Blaenraglen Waith.

Cynrychiolwyd Ofgem mewn llawer o'r cynadleddau ynni mawr yng Nghymru eleni, ac achubwyd ar y cyfle i siarad â chynulleidfaoedd am ein gwaith ar reoleiddio, arloesi a thwf a'r hyn rydym yn ei wneud i ddiogelu defnyddwyr agored i niwed a hyrwyddo cystadleuaeth.

Ymwelodd ein huwch bartner dros Wella Rheoleiddio â chanolfan wybodaeth SPECIFIC ym Mae Abertawe i edrych ar rai o'r syniadau arloesol sydd ar waith yno i gynhyrchu trydan a gwres carbon isel drwy alluogi adeiladau i gynhyrchu, storio a rhyddhau eu hynni eu hunain, mewn un system, gan ddefnyddio ynni'r haul yn unig.

Cynllun Iaith Gymraeg

Rydym yn falch o'n Cynllun Iaith Gymraeg, a phan fo'n briodol ac yn ymarferol gwnawn drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Er mai ymdrin â grwpiau diwydiant a defnyddwyr y byddwn yn bennaf, rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael yr un safonau uchel o wasanaeth â siaradwyr Saesneg wrth ohebu â ni. Rydym wedi cyhoeddi fersiwn iaith Gymraeg o'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon a fydd, ynghyd â'r fersiwn Saesneg, yn cael ei chyflwyno gerbron y Cynulliad. Maent ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.

Eleni, rydym wedi parhau i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddysgu Gydol Oes a'i swyddogion mewn ymateb i gyflwyniad Safonau'r Gymraeg i gyrff cyhoeddus a chwmnïau ynni. Rydym hefyd wedi defnyddio ein haelodaeth o Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU i danlinellu'r newidiadau sydd ar ddod i ddeddfwriaeth y Gymraeg.

San Steffan

Mae ein timau yng Nghymru a'r Alban yn gweithio'n agos gyda'n tîm cysylltiadau allanol yn San Steffan, sy'n gyfrifol am ein rhyngweithio â rhanddeiliaid gwleidyddol. Mae'r tîm yn cyfarfod yn rheolaidd â gweinidogion i drafod materion ynni.


Yn y flwyddyn ddiwethaf, rhoddodd y PSG Dermot Nolan dystiolaeth i Bwyllgor Materion Economaidd Tŷ'r Arglwyddi fel rhan o'i ymchwiliad i economeg polisi ynni'r DU. Hefyd rhoddodd Dermot a'r uwch bartner Defnyddwyr a Chystadleuaeth, Rachel Fletcher, dystiolaeth i Bwyllgor Dethol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar gystadleuaeth yn y farchnad ynni. Cyflwynwyd sylwadau i Bwyllgor Dethol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer ei ymchwiliad i adael yr UE: blaenoriaethau ar gyfer polisi ynni a newid yn yr hinsawdd y DU, a mynychwn gyfarfodydd grwpiau hollbleidiol yn rheolaidd – gan gynnwys cyfarfod Rachel Fletcher â'r APPG ar gostau ynni.

Y tu hwnt i'r byd gwleidyddol, cynhaliwn ddigwyddiadau â rhanddeiliad allanol, megis y digwyddiad Blaenraglen Waith ym mis Chwefror, a chynhaliwn arolwg bob yn ail flwyddyn o safbwyntiau rhanddeiliaid am Ofgem, sy'n helpu i lywio blaenoriaethau a ffocws Ofgem ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Adroddiad Cynaliadwyedd

Defnyddir Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos i ddangos effeithlonrwydd ynni adeiladau cyhoeddus. Mae ein sgôr ar gyfer ein pencadlys yn Llundain wedi gwella'n ddramatig ers i'r tystysgrifau gael eu cyflwyno yn 2008. Bryd hynny, roeddem wedi ein gosod ym mand G, gyda sgôr o 165. Bellach, mae gennym sgôr o 62, sy'n golygu ein bod ym mand C. Mae unrhyw fuddsoddiad mewn gwella wedi'i ohirio tan i ni symud i'r adeilad newydd yn Canary Wharf.

Tystysgrif Ynni i'w Harddangos 9 Millbank




Rydym wedi cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- gwella awtomiaeth yr adeilad
- gwella ein rheolaethau ar gyfer gwresogi ac oeri
- defnyddio prosesau oeri am ddim lle y bo'n bosibl
- monitro'r defnydd beunyddiol o ynni
- cywiro problemau'n gyflym
- gosod goleuadau mwy ynni-effeithlon
- cael gwared ar gyfarpar nad ydym yn ei ddefnyddio mwyach neu ei roi o'r neilltu.

Lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr

Cyfanswm y carbon



Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi lleihau ein carbon sy'n gysylltiedig ag adeiladau 32 tunnell.

Mae ein carbon teithio wedi cynyddu 43 tunnell. Y rheswm pennaf dros hyn yw gostyngiad o 5% yn y defnydd o drenau i deithio o fewn y DU a chynnydd o 16% wrth hedfan yn y DU.


Allyriadau nwyon tŷ gwydr		2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
	(Targed gostyngiad o 25%)	853	806	758	711	672	672
	Cyfanswm yr allyriadau gros	759	1,010	1,228	1,307	1,263	1,272
	Fesul CALI	1.35	1.33	1.31	1.27	1.34	1.39
	Cyfanswm yr allyriadau net (h.y. llai gostyngiadau – ee tariffau gwyrdd)	217	347	499	496	458	535
Dangosyddion anariannol (tCO₂e)	Cwmpas 1: allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol	150	147	144	121	118	153
	Cwmpas 2: allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol ynni	542	685	729	811	805	736
	Cwmpas 3: allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol eraill	67	178	355	375	339	382
Data defnydd cysylltiedig (kWh)	Trydan: anadnewyddadwy (k)	-	42	-	-	-	-
	Trydan: adnewyddadwy (k)	1,033	1,274	1,636	1,641	1,742	1,747
	Nwy (k)	816	795	783	656	640	749
	LPG	-	-	-	-	-	-
	Arall	-	-	-	-	-	-
Dangosyddion ariannol	Gwariant ar ynni	£140,556	£185,177	£244,291	£233,275	£275,616	£239,325
	Gwariant ar drwydded Ymrwymiad i Leihau Carbon	£1,200	£1,290	£1,290	£1,290	£1,290	£1,290
	Gwariant ar deithiau busnes swyddogol	£140,905	£296,684	£491,551	£772,248	£661,581	£824,023

Lleihau'r defnydd o ddŵr

Ein nod yw lleihau ein defnydd blynyddol o ddŵr islaw 6m³ y pen. Eleni rydym wedi lleihau ein defnydd o ddŵr i'n lefel isaf erioed.

Dŵr			2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Dangosyddion anariannol	Targed (gost-yngiad o 37%)		8.09	7.39	6.69	6.00	6.00	6.00
	Defnydd o ddŵr (m ³)	Cyflenwyd	5,462	6,639	8,609	7,553	8,359	6,564
		Fesul CALI	9.5	8.7	9.0	7.3	9.5	7.1
Dangosyddion ariannol	Costau cyflenwi dŵr		£10,562	£12,208	£20,517	£18,977	£17,601	£20,271


Dŵr fesul CALI



Dileu gwastraff


Am y seithfed flwyddyn yn olynol, ni wnaethom anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynhyrchu bron 40% yn llai o wastraff.

Dadansoddiad o gyfanswm y gwastraff



Gwastraff		2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	
Dangosyddion anariannol (tunelli)	Targed	76.5	72.25	68	63.75	63.75	63.75	
	Cyfanswm y gwastraff	107	98	114	102	106	65	
	Cyfanswm y gwastraff fesul CALI	0.19	0.13	0.12	0.10	0.11	0.07	
	Gwastraff peryglus	6	-	-	-	1	-	
	Gwastraff nad yw'n beryglus	Safle tirlenwi	-	-	-	-	-	-
		Aildefnyddio/ailgylchu	76	65	93	81	84	54
Llosgi/ ynni o wastraff		25	33	21	21	21	11	
Dangosyddion ariannol	Cyfanswm y gost gwaredu	£20,862	£32,022	£23,592	£24,477	£21,985	£19,442	

Adroddiad ar Atebolrwydd



Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Aelodau gweithredol o'r Awdurdod a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn

Penodwyd Dermot Nolan, y prif weithredwr, ym mis Chwefror 2014. Nid yw'n gyfarwyddwr unrhyw gwmnïau eraill.

Penodwyd Rachel Fletcher, uwch bartner, Defnyddwyr a Chystadleuaeth, ym mis Ionawr 2016. Nid yw'n gyfarwyddwr unrhyw gwmnïau eraill.

Penodwyd Dr Andrew Wright, uwch bartner, Systemau Ynni, ym mis Ionawr 2008. Mae'n aelod o fwrdd cynghori Athrofa Ynni Prifysgol Durham.

Aelodau anweithredol o'r Awdurdod a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn

Ymunodd David Gray ym mis Ionawr 2013 fel cadeirydd anweithredol. Daw ei benodiad i ben ym mis Medi 2018. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol yn yr Awdurdod Hedfan Sifil, ac yn Llywodraethwr y Central School of Ballet.

Ymunodd Christine Farnish ym mis Ionawr 2016. Daw ei phenodiad i ben ym mis Ionawr 2021. Hi yw Cadeirydd Cymdeithas Gyllid Peer 2 Peer ac mae'n gyfarwyddwr anweithredol yn Ofwat. Yn ystod y flwyddyn mae hefyd wedi dal y swyddi canlynol: cyfarwyddwr anweithredol yn ABTA, Ymddiriedolaeth Ysbytai Prifysgol Brighton a Sussex ac aelod o banel cynghori rhanddeiliad AXA.

Ymunodd yr Athro David Fisk CB ym mis Gorffennaf 2009. Fe'i hailbenodwyd ym mis Mehefin 2012 i wasanaethu tan fis Mehefin 2017. Mae'n Athro Emeritws Arloesedd a Pheirianneg Systemau yng Ngholeg Imperial, Llundain ac mae'n Aelod Cyngor o Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu.

Ymunodd yr Athro Paul Grout ym mis Hydref 2012. Daw ei benodiad i ben ym mis Medi 2022. Mae ganddo Gadair mewn Economi Wleidyddol ym

Mhrifysgol Caerfaddon ac ef yw Uwch Gynghorydd Cystadleuaeth ym Manc Lloegr.

Ymunodd Dr Nicola Hodson ym mis Mawrth 2015. Daw ei phenodiad i ben ym mis Chwefror 2020. Mae'n Is Lywydd Marchnata a Gwerthiannau Bydeang – Trawsnewid Maes yn Microsoft UK. Hefyd mae'n aelod bwrdd yn Tech UK, ac yn aelod cyngor o City University.

Ymunodd Jim Keohane ym mis Ionawr 2009. Fe'i hailbenodwyd ym mis Rhagfyr 2012 a daw ei benodiad i ben ym mis Rhagfyr 2017. Ef yw cadeirydd Sefydliad y Theatr Frenhinol ac Awdurdod Hafan Harwich, uwch gynghorydd annibynnol y Cwmni Contractau Carbon Isel, ac uwch gynghorydd annibynnol y Cwmni Setliadau Trydan.

Ymunodd Keith Lough ym mis Hydref 2012. Daw ei benodiad i ben ym mis Medi 2022. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol, ac yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, Rockhopper Exploration Ltd. Mae hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol yn Cairn Energy plc, ac yn gadeirydd anweithredol Gulf Keystone Petroleum plc, ac yn gyfarwyddwr yn Stavanger Petroleum SA. Yn ystod y flwyddyn roedd hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol yn Rock Solid Images, ac yn gyfarwyddwr anweithredol yn Papua Mining plc.

Ystyriar bod yr aelodau anweithredol yn annibynnol ar y rheolwyr ac maent yn cyfrif am y rhan fwyaf o aelodau'r Awdurdod.

Buddiannau eraill o bwys a ddelir gan aelodau'r Awdurdod

Mae Jim Keohane, Keith Lough, Andrew Wright a gŵr Nicola Hodson, a hwythau wedi gweithio i gwmnïau ynni yn y gorffennol, yn aelodau o gynlluniau pensiwn eu cyn-gyflogwyr. Gweinyddir y cynlluniau hyn yn unol â rheolau'r Rheoleiddiwr Pensiwn ac maent ar wahân i fusnes y cwmnïau a reoleiddir.

Trefniadau archwilio

Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan statud ac sy'n atebol i Senedd y DU, wedi archwilio'r cyfrifon adnoddau. Cost dybiannol archwilio'r cyfrifon adnoddau a'r datganiad ymddiriedaeth oedd £55,500 (2015–16: £52,500). Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth, gwirioneddol neu dybiannol, i archwilydwr am waith nad oedd yn waith archwilio.

Mae'r swyddog cyfrifyddu wedi gwneud popeth y dylai ei wneud er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod ein harchwilydwr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Nid yw'n ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydwr yn cael mynediad ati.

Mae ein gwasanaeth archwilio mewnol yn mesur ac yn gwerthuso'n annibynnol pa mor ddigonol, dibynadwy ac effeithiol yw ein systemau rheoli a rheolaeth ariannol. Mae'n gwneud argymhellion ac yn rhoi adroddiad sicrwydd i'r swyddog cyfrifyddu bob blwyddyn. Rydym wedi gosod y swyddogaeth archwilio mewnol ar gontract allanol er mwyn sicrhau ein bod yn cael dadansoddiad ac argymhellion annibynnol a phroffesiynol. Ailbenodwyd Deloitte i'r rôl hon ar 1 Ebrill 2015, ar ôl tendr cystadleuol. Daw'r contract presennol i ben ar 30 Mehefin 2018.

Fel rhan o'n proses sicrwydd cyflawni prosiectau, rydym yn cael sicrwydd annibynnol ar wahân ar gamau allweddol prosiect. Rydym wedi gosod y gwasanaeth hwn ar gontract allanol naill ai i Deloitte neu gwmnïau eraill sydd ar gael drwy ein fframwaith caffael.

Cyllidebau a hylifedd

Mae Senedd y DU yn cymeradwyo ein cyllideb, ar ôl i ni ymgynghori â'r diwydiant a phartïon eraill â diddordeb. Ar gyfer 2016-17 cymeradwyodd Senedd y DU drwy'r Prif Amcangyfrif:

- cyllideb adnoddau gros o £90.801 miliwn
- cyllideb cyfalaf o £6.000 miliwn (a ddiwygiwyd i £3.730 miliwn yn yr Amcangyfrif Atodol)
- gofyniad arian parod net o £16.098 miliwn (a ddiwygiwyd i £29.034 miliwn yn yr Amcangyfrif Atodol).

Cafwyd cynnydd yn y gyllideb cyfalaf a gofyniad arian parod net yn y Prif Amcangyfrif oherwydd y bwriad i symud i Canary Wharf yn ystod 2016-17. Disgwylir i hyn ddigwydd yn ystod 2017-18 bellach.

Cysoni rhwng yr amcangyfrif a'r gyllideb

	2016-17 £000	2015-16 £000
Alldro adnoddau net (amcangyfrif)	15,207	6,165
Costau gweithredu net (cyfrifon)	630	654
Alldro cyllideb adnoddau (cyllideb)	630	654
O'r cyfanswm hwnnw:		
Terfynau gwariant adrannol	630	654
Gwariant a reolir yn flynyddol	-	-

Gellir priodoli'r gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrif a'r alldro i ofyniad cyllidebu Trysorlys EM i drin rhyddhau'r ffi drwydded ohiriedig (a ddelir ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol) fel cyllid drwy bleidlais yn yr amcangyfrifon yn hytrach nag incwm gweithredu yn y cyfrifon. Y ffi drwydded ohiriedig a ryddhawyd yn 2016-17 oedd £14.506 miliwn.

Hawliwyd blaendaliad o £20.0 miliwn o'r gronfa wrth gefn ym mis Ebrill 2016 er mwyn rhoi hylifedd byrdymor nes ein bod yn dechrau cael ffioedd trwydded. Ad-dalwyd y swm hwn yn llawn gennym ym mis Awst 2016.

Mae'r alldro gofyniad arian parod net o £7,729 miliwn yn is na'r amcangyfrif o'r gofyniad arian parod net o £29,034 miliwn. Mae hyn yn rhannol oherwydd y derbyniadau arian parod dros ben ac nid y gronfa gyfunol o 2015-16 o £9.6 miliwn.

Byddwn yn cadw'n ôl £21.305 miliwn a fydd yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol ac yn ei ddefnyddio i ariannu gweithrediadau yn 2017-18, nes ein bod yn cael digon o incwm o ffioedd trwydded.

Cyllid a darpariaethau

Roedd cyfanswm y darpariaethau yn gwneud cyfanswm o £1.419 miliwn ar 31 Mawrth 2017. Rydym wedi darparu ar gyfer taliadau ymadael gwirfoddol, dadfeiliadau, a chostau parhaus ymddeoliadau cynnar sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd ariannol blaenorol.

Eleni cytunwyd ar nifer o daliadau ymadael gwirfoddol, sef cyfanswm o £0.340 miliwn, o ganlyniad i ad-drefnu mewnol.

Mae Ofgem hefyd wedi llofnodi cytundeb i gwtogi'r brydles ar gyfer swyddfa Cornerstone yn Glasgow gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn symud i'r safle. Yn ôl y cytundeb hwn rhennir costau dadfeiliadau hanner a hanner rhwng Ofgem a HSE. Mae'r ddarpariaeth yn creu cyfanswm o £0.050 miliwn.

Rydym wedi darparu cyfanswm o £0.446 miliwn yn ystod 2016-17.

Dengys ein datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2017 ecwiti trethdalwyr sy'n cyfateb i £5.800 miliwn.

Gwella ein cadwyn gyflenwi

Caffael amgylcheddol

Mae ein tîm caffael yn gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau prynu yn seiliedig ar werth gorau am arian; cadwn gofnod manwl o'r arbedion arian parod a gyflawnwn sydd fel arfer yn deillio o fanteisio ar fframweithiau cyflenwyr (ein rhai ni'n hunain a'r rhai a sefydlir gan Wasanaeth Masnachol y Goron).

Mae ein prosesau yn cydymffurfio ag Ardystiad Safon Rhagoriaeth y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi a ninnau wedi ennill ardystiad yn flaenorol.

Talu credydwr yn gyflymach

Rydym wedi ymrwymo i'r Cod Ymarfer Talu'n Well a sefydlwyd gan y Grŵp Ymarfer Talu'n Well, sef fforwm o aelodau'r gymuned fusnes a chynrychiolwyr y llywodraeth. Mae hyn yn golygu ein bod yn talu biliau o fewn 30 diwrnod (neu gyfnod arall y cytunwyd arno) i dderbyn nwyddau neu wasanaethau, neu anfoneb, p'un bynnag sydd hwyraf. Yn 2016-17 talwyd 99.93% o'r holl filiau na fu anghydfod yn eu cylch o fewn y terfyn amser hwn.

Yn unol â chyfarwyddeb flaenorol gan y llywodraeth, mae Ofgem yn anelu at dalu pob cyflenwr o fewn 10 diwrnod gwaith. Eleni, talwyd 93.80% o'r holl filiau na fu anghydfod yn eu cylch o fewn y terfyn amser hwn. Ar gyfer symiau sy'n ddyledus yn gytundebol ac sy'n cael eu hanfonebu erbyn 31 Mawrth 2017, nifer y diwrnodau pryniannau na thalwyd amdanynt yw 3.0.

Deilliodd y rhan fwyaf o gwynion Ofgem o anghydfodau ag ymgeiswyr y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy a'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig, yn bennaf lle nad oeddent yn gymwys i gael cymorth o dan y cynlluniau hyn. Ac eithrio un achos, roedd yr Ombwdsmon o blaid Ofgem, hynny yw roedd yn cytuno ein bod wedi gwrthod y ceisiadau yn gywir.



Dermot Nolan

Swyddog cyfrifyddu

16 Mehefin 2017

Adroddiadau i'r Ombwdsmon Seneddol

Cafodd yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO) y cwynion canlynol am y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan.

Blwyddyn	Ymholiadau a gafwyd ¹	Cwynion a aseswyd	Cwynion a dderbyniwyd i'w harchwilio	Ymchwiliadau a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol
----------	----------------------------------	-------------------	--------------------------------------	---

2016-17	96	41	12	2
2015-16	40	8	6	1

Blwyddyn	Ymchwiliadau nas cadarnhawyd	Ymchwiliadau a ddatryswyd heb ganfyddiad ²	Ymchwiliadau y rhoddwyd y gorau iddynt ³	Cyfradd gadarnhau
----------	------------------------------	---	---	-------------------

2016-17	3	1	1	28.6%
2015-16	1	0	1	33.3%

¹ Yn sgil cyflwyno system rheoli llwyth achos PHSO newydd, a methodoleg cofnodi newydd, ni ellir cymharu data ar gyfer nifer yr ymholiadau a gafwyd na nifer y cwynion a aseswyd yn 2016-17 â data yn 2015-16.

² Cwynion yw'r rhain lle mae PHSO yn dechrau ymchwiliad ond yn gallu datrys y gŵyn heb orfod cwblhau'r ymchwiliad yn ffurfiol.

³ Cwynion yw'r rhain lle mae PHSO yn gorffen yr ymchwiliad am amryw o resymau, er enghraifft, am fod yr achwynydd wedi gofyn iddi wneud.

Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi ein cyfarwyddo i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau yn nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'n defnydd ohonynt yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofgem a'i halldro adnoddau net, adnoddau a gymhwyswyd, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r swyddog cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth. Yn benodol, mae'n rhaid iddo wneud y canlynol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wriadau perthnasol oddi wrth y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae Trysorlys EM wedi dynodi'r prif weithredwr yn swyddog cyfrifyddu i ni. Mae cyfrifoldebau ein swyddog cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu ein hasedau, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, hyd y gŵyr ef, nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni, ac mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r barnau gofynnol ar gyfer pennu ei fod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Datganiad Ilywodraethu

Rydym yn cael ein cyfarwyddo a'n llywodraethu gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan, sy'n gwneud pob penderfyniad mawr ac sy'n pennu blaenoriaethau polisi. Mae'r Awdurdod yn cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol.

Pwy sy'n rhan o'r Awdurdod?

Sut y gwneir penodiadau

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn penodi aelodau anweithredol yr Awdurdod ar ôl ymgynghori â'r cadeirydd. Penodir aelodau gweithredol yr Awdurdod yn unol â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil. Maent yn dal eu swydd am gyhyd ag y byddant yn dal eu huwch swyddi yn Ofgem, yn amodol ar yr uchafswm cyfnodau swydd a nodir yn Nhrydydd Pecyn Ynni'r UE a'i reolau ynglŷn â phenodiadau i awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol mewn aelod-wladwriaethau.

Dangosir manylion cydnabyddiaeth aelodau'r Awdurdod a'u trefniadau pensiwn yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth sy'n dechrau ar dudalen 53.

Sut mae'r Awdurdod yn gweithio

Mae'r Awdurdod yn cyfarfod yn ffurfiol 11 o weithiau'r flwyddyn. Yn ogystal â hynny, mae aelodau'r Awdurdod hefyd yn mynychu sesiynau briffio anffurfiol rheolaidd i'w galluogi i adolygu materion sy'n datblygu ar lefel uchel a gwasanaethu ar bwyllgorau'r Awdurdod, y nodir manylion isod.

Yn 2016-17, adolygodd y cadeirydd berfformiad unigol aelodau'r Awdurdod unwaith eto, gan ystyried eu cyfraniadau i waith yr Awdurdod. Pennodd yr aelodau anweithredol eraill amcanion i'r cadeirydd ar ôl trafodaeth ag ef ac adolygwyd ei berfformiad yn erbyn yr amcanion hyn ganddynt.

Mae'r Awdurdod yn adolygu gweithgareddau, cynlluniau a pherfformiad ei bedwar prif is-adran reoleiddio yn erbyn ei amcanion strategol ar gylch bob pedwar mis, ac mae'n adolygu gweithgareddau a blaenoriaethau ei brif swyddogaethau cymorth bob chwe mis neu'n flynyddol.

Caiff gweithgareddau a blaenoriaethau E-Serve eu hadolygu gan yr Awdurdod ar gylch bob chwe mis. O 2015-16, mae'r Awdurdod hefyd yn adolygu risgiau strategol Ofgem, hynny yw, y risgiau hynny sydd fwyaf arwyddocaol i strategaeth Ofgem, ddwywaith y flwyddyn.

Ym mis Rhagfyr 2014 gwnaethom gyhoeddi ein strategaeth gorfforaethol a amlinellodd sut rydym yn anelu at wneud y mwyaf o'n hadnoddau a'n pwerau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr nawr ac yn y dyfodol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Adolygwn ein strategaeth bob blwyddyn, gydag adolygiad mwy sylfaenol bob pum mlynedd, neu oddeutu hynny, er mwyn sicrhau ei bod yn ddigon hyblyg i addasu i newidiadau yn y byd o'n cwmpas. Bob blwyddyn cyhoeddwn ein Blaenraglen Waith yn dilyn ymgynghoriad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gwnaethom gyhoeddi ein Blaenraglen Waith ddrafft ar gyfer 2017-18 ym mis Rhagfyr 2016 at ddiben ymgynghoriad a chyhoeddwyd y cynllun terfynol ym mis Mawrth 2017. Mae'r Awdurdod yn adolygu ei raglen gyffredinol o waith yn y tymor canolig a'r tymor hwy bob chwe mis. Mae'r Awdurdod hefyd yn gwneud penderfyniadau ar faterion rheoleiddio mawr penodol nad ydynt wedi cael eu dirprwyo i bwyllgorau neu swyddogion gweithredol.

Rydym yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod ar ein gwefan, ynghyd â chylch gorchwyl y pwyllgorau. Rydym hefyd yn paratogi agendâu dros dro ar gyfer prif gyfarfodydd yr Awdurdod. Mae'r cadeirydd a'r aelodau anweithredol eraill yn chwarae rhan lawn ym musnes yr Awdurdod. Buont yn bresennol yng nghyfarfodydd llawn yr Awdurdod a chyfarfodydd pwyllgorau fel a ganlyn:

Aelodau	Yr Awdurdod	Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg	Bwrdd E-Serve	Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol	Pwyllgor Ewrop
Christine Farnish	9/10	-	-	3/3	-
David Fisk	8/10	3/4	-	-	3/4
David Gray	10/10	-	-	3/3	4/4
Jim Keohane	10/10	-	4/4	3/3	3/4
Keith Lough	8/10	4/4	1/1	-	-
Nicola Hodson	7/10	-	1/3	-	-
Paul Grout	9/10	4/4	-	3/3	-

Cyfarfu'r Awdurdod yn yr Alban ar 10 Tachwedd 2016, gan ddefnyddio'r achlysur i gyfarfod â chynrychiolwyr gwleidyddol a rhanddeiliaid ynni lleol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Cynhaliwyd cyfarfodydd â phartion â diddordeb ar ôl rhai o'r prif gyfarfodydd, gan roi cyfle i'r Awdurdod drafod pynciau cyfoes â rhanddeiliaid.

Pa bwyllgorau sydd gan yr Awdurdod?

Mae strwythur corfforaethol yr Awdurdod – gyda chylch gorchwyl clir i bwyllgorau – yn parhau i roi sicrwydd i ni fod trefniadau llywodraethu cadarn drwy'r sefydliad cyfan.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r pwyllgor hwn yn cynghori'r Awdurdod a'r swyddog cyfrifyddu, lle y bo'n berthnasol iddynt, ar unrhyw beth sy'n effeithio ar ein hiechyd ariannol, adroddiadau ariannol, gonestrwydd, rheoleiddio neu reoli risg yn fwy cyffredinol a'r system lywodraethu. Mae'r pwyllgor hefyd yn edrych ar unrhyw agwedd ar y busnes a all effeithio ar yr amcanion strategol a gweithrediad effeithiol Ofgem ac mae'n goruchwyllo ein cyfundrefn rheolaeth costau ar gyfer Adolygiad o Wariant 2015.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2016-17. Caiff y pwyllgor ei gadeirio gan Keith Lough, a'r aelodau anweithredol eraill yw David Fisk a Paul Grout.

Eleni, roedd gwaith y pwyllgor yn cynnwys:

- cael adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol

- cael adroddiadau a monitro'r camau a gymerwyd i ymdrin â gwendidau yn deillio o adroddiadau sicrwydd, y tynnwyd sylw'r Pwyllgor atynt gan unrhyw Is-bwyllgor arall o'r Awdurdod neu'r Bwrdd Gweithredol
- cael adroddiadau ar ddiogelwch TG o fewn y sefydliad, yn arbennig adolygu a chynghori ar ddigonolrwydd polisiâu a phrosesau seibr-ddiogelwch, atal twyll a chwythu'r chwiban, a'r camau a gymerwyd gan y sefydliad mewn ymateb i ddigwyddiadau andwyol.

Yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r gwaith archwilio mewnol a gynlluniwyd, comisiynodd y pwyllgor y gwasanaeth archwilio mewnol i gynnal nifer o ymchwiliadau i weithrediad nifer o ymgymeriadau. Ymhlith y rhain roedd y canlynol:

- honiadau o dwyll yn ymwneud â'r Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig yng Ngogledd Iwerddon
- adolygiad o broses y Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig
- rheolaethau ariannol Cynlluniau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy

Tanlinellodd yr adolygiadau hyn rai diffygion ym meysydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth wrth weinyddu Cynlluniau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy a gyfrannodd at faterion gweithredol, gyda Chynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig Gogledd Iwerddon bellach yn destun proses gyfreithiol ffurfiol drwy Ymchwiliad Cyhoeddus Annibynnol (gweler yr adran Risg a rheolaeth ar y dudalen Datganiad Llywodraethu 50). O ganlyniad i'r ymchwiliadau hyn, nodwyd nifer o feysydd ar gyfer gwella a dysgwyd gwersi o'r methiannau a nodwyd.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r archwiliad a'r materion ehangach a nodwyd, mae Ofgem wedi cyflwyno cynllun gweithredu manwl er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a'r meysydd bregus gydag uwch aelodau o staff penodol yn gyfrifol am gamau gweithredu allweddol.

Mae'r pwyllgor yn monitro gweithrediad y cynlluniau adferol hyn er mwyn sicrhau bod camau rheoli yn lliniaru'r risgiau a nodwyd yn effeithiol.

Noda ein barn archwilio mewnol gyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, ar wahân i'r Cynlluniau RHI a weinyddir gan E-Serve, y gallwn roi lefel resymol o sicrwydd i Ofgem bod y trefniadau a'r systemau ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu yn golygu y gellir cyflawni amcanion Ofgem yn effeithiol ac yn effeithlon.

Pwyllgor Bwrdd E-Serve

Mae'r pwyllgor hwn yn cynghori'r Awdurdod ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd E-Serve o ran cyflawni ei weithgareddau perthnasol. Yn benodol, mae'n adolygu ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar strategaeth a chyllideb gyffredinol E-Serve, gweithgareddau newydd arwyddocaol i'w cyflawni gan E-Serve a newidiadau mawr i weithgareddau a gyflawnir eisoes. Mae'n rhoi sicrwydd i'r Awdurdod ynglŷn â pherfformiad y gweithgareddau hynny. Caiff ei gadeirio gan y prif weithredwr ac mae ei aelodau yn cynnwys rheolwr gyfarwyddwr E-Serve, cyfarwyddwr anweithredol a chynrychiolydd o'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Cyfarfu'r Bwrdd bedair gwaith yn 2016-17.

Panel Penderfyniadau Gorfodi

Mae'r Panel Penderfyniadau Gorfodi wedi cael ei sefydlu i wneud penderfyniadau pwysig mewn achosion gorfodi a ymleddir ar ran yr Awdurdod. Mae aelodau'r panel yn arbenigwyr penodedig, sy'n sicrhau gwahaniad gweladwy rhwng swyddogaethau ymchwilio a gwneud penderfyniadau. Cadeirydd y panel yw John Swift CF. Mae aelodau'r panel hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Setliadau Gorfodi (gweler yr adran nesaf).

Pwyllgorau Setliadau Gorfodi

Gellir sefydlu Pwyllgorau Setliadau Gorfodi i benderfynu a ddylid awdurdodi gweithdrefn setliad mewn perthynas ag ymchwiliad o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 neu

mewn perthynas ag achosion honedig o dorri'r gyfraith o dan adrannau amrywiol o Ddeddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989 a deddfwriaeth arall. Penodir pwyllgorau ar wahân ar gyfer pob achos ac maent yn cynnwys dau aelod o'r Panel Penderfyniadau Gorfodi a enwebir gan ei gadeirydd yn ogystal ag Uwch Was Sifil a enwebir gan gadeirydd yr Awdurdod. Am ragor o fanylion am y panel hwn, gweler tudalennau'r panel ar wefan Ofgem⁴.

Pwyllgor Ewrop

Caiff y pwyllgor hwn ei gadeirio gan gadeirydd Ofgem ac mae'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Mae'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol, yr uwch bartner dros Systemau Ynni a'r partner dros Farchnadoedd Cyfanwerthu. Mae gan uwch bartneriaid eraill wahoddiad sefydlog i fynychu a disgwylir iddynt wneud hynny pan fydd eitem o bwys penodol i'w his-adran yn cael ei thrafod.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Awdurdod ar ddatblygiadau ynni a rheoleiddiol allweddol yr UE, eu heffaith ar reoleiddio ynni ym Mhrydain Fawr, ac ar sut y gellid hyrwyddo nodau ac amcanion yr Awdurdod, fel rheoleiddwr Prydain Fawr a'r Awdurdod Rheoleiddio Cenedlaethol.

Gan weithio'n agos gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop a chyrff eraill, mae'r Arglwydd Mogg, cadeirydd blaenorol yr Awdurdod, wedi parhau i fod yn gynghorydd i'r Awdurdod ac wedi parhau i helpu i ddatblygu polisi rheoleiddio'r UE ar gyfer ynni. Mae hyn wedi cynnwys ei rolau fel llywydd Cyngor y Rheoleiddwyr Ynni Ewropeaidd a chadeirydd Asiantaeth yr UE dros Gydweithrediad Rheoleiddwyr Ynni. Roedd hefyd yn gadeirydd Cydffederasiwn Rhyngwladol y Rheoleiddwyr Ynni. Bydd yn ymgymryd â'r rolau hyn yn ei rhinwedd ei hun tan ddiwedd 2017. Mae'n parhau i weithredu fel cynghorydd ar yr UE i'n cadeirydd ac yn gynghorydd i Bwyllgor Ewrop.

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r pwyllgor hwn, a gadeirir gan Jim Keohane, yn ystyried cyflog a pherfformiad uwch aelodau o staff, a hefyd gynllunio olyniaeth. Am fanylion aelodau'r pwyllgor, ei rôl, a chyflog a hawliadau pensiwn uwch aelodau o staff, gweler yr adroddiad ar gydnabyddiaeth yn ddiweddarach yn yr adran hon.

⁴ <https://www.ofgem.gov.uk/about-us/how-we-work/our-approach-regulation/enforcement-decision-panel>

Sut y caiff perfformiad yr Awdurdod ei fesur?

Adolygwyd effeithiolrwydd y Bwrdd gan ymgynghorydd allanol yn 2016-17. Daeth i'r casgliad bod Bwrdd Ofgem yn gweithredu mewn ffordd iach, gydag aelodau anweithredol egniol a phwrpasol yn gwneud cyfraniadau amrywiol; perthynas dda a oedd yn cynnwys her a gwrando rhwng aelodau gweithredol ac anweithredol; sylfaen gadarn ym maes rheoli risg; ac ymrwymiad clir gan y cadeirydd, y prif swyddog gweithredu a'r bwrdd yn ei gyfarwydd i welliant. Gellid a dylid datblygu her ymhellach. Trafodwyd yr adolygiad mewn cyfarfod anffurfiol o aelodau'r Awdurdod ac uwch swyddogion gweithredol ac yn dilyn hyn mae tasglu bach yn ystyried sut i wella ymhellach y broses o bennu cyfeiriad strategol y bwrdd. Mae'r tasglu hwn yn cynnwys dau gyfarwyddwr anweithredol a dau aelod o'r bwrdd gweithredol ac fe'i cefnogir gan yr Ysgrifennydd i'r Awdurdod. Trafodir hyn eto gan yr Awdurdod cyn haf 2017.

Fframwaith llywodraethu'r bwrdd gweithredol

Uwch Dîm Arwain

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cefnogi'r prif weithredwr yn y gwaith o redeg Ofgem o ddydd i ddydd. Mae'n cynnwys pob un o'r aelodau gweithredol a ddangosir yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth. Maent yn cyfarfod yn wythnosol ac yn penderfynu ar bopeth yn ymwneud â rheoli ac adnoddau, yn ddarostyngedig i reolaeth gyffredinol yr Awdurdod.

Fframwaith Llywodraethu

Mae ein fframwaith llywodraethu gweithredol newydd yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a strategaeth, prosesau gwneud penderfyniadau cyflymach o ansawdd uchel a sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol er budd defnyddwyr. Mae'r byrddau canlynol yn eu lle ac yn cyfarfod bob mis.

Bwrdd Porth GEMA

Mae Bwrdd Porth GEMA yn gyfrifol am reoli'r agenda a chymeradwyo papurau ar gyfer sesiynau briffio dydd Mercher GEMA a chyfarfodydd dydd lau. Mae'r bwrdd hwn hefyd yn sicrhau y creffir yn briodol ar brosesau gwneud penderfyniadau yn y sefydliad. Caiff y bwrdd ei gadeirio gan y prif weithredwr.

Bwrdd Rheoleiddio a Pholisi

Mae'r Bwrdd Rheoleiddio a Pholisi yn cynorthwyo'r prif weithredwr yn y gwaith o bennu cyfeiriad polisi Ofgem ac mae'n gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud â safbwyntiau rheoleiddio, ac yn rhoi canllawiau ar faterion polisi ar gam cynnar. Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan yr uwch bartner ar gyfer Gwella Rheoleiddio.

Bwrdd Gweithrediadau

Mae'r Bwrdd Gweithrediadau yn cynorthwyo'r prif weithredwr yn y gwaith o reoli a rhedeg Ofgem yn effeithiol o ddydd i ddydd. Mae'r Bwrdd hwn yn ystyried pob mater gweithredol sy'n ymwneud â rheoli ac adnoddau gan gynnwys ein perfformiad gweithredol. Caiff ei gadeirio gan y prif swyddog gweithredu.

Bwrdd Strategaeth a Risg

Mae'r Bwrdd Strategaeth a Risg yn atebol am gyflawni'r strategaeth, ac ystyried y risgiau i sicrhau ein canlyniadau strategol. Mae'r Bwrdd yn cyflawni cyfrifoldebau'r Pwyllgor Risg Weithredol flaenorol, gan adolygu risg strategol a sicrhau bod camau lliniaru yn briodol. Y Bwrdd sydd â pherchenogaeth o'r Flaenraglen Waith, ac mae hefyd yn gyfrifol am gyllid prosiectau a rhaglenni, a weinyddir gan y Bwrdd Buddsoddi Portffolio (is-fwrdd y Bwrdd Strategaeth a Risg. Caiff y bwrdd ei gadeirio gan y prif weithredwr.

Pwyllgor Rheoli (E-Serve)

Mae'r pwyllgor hwn yn cefnogi'r gwaith o redeg uned fusnes E-Serve o ddydd i ddydd. Caiff ei gadeirio gan reolwr gyfarwyddwr E-Serve ac mae ei aelodau yn cynnwys pob pennaeth tîm E-Serve. Mae'n penderfynu ar bopeth yn ymwneud â rheoli ac adnoddau E-Serve, yn ddarostyngedig i reolaeth gyffredinol yr Awdurdod ac mae'n cyfarfod bob wythnos.

Fframwaith rheoli risg

Mae ein fframwaith rheoli risg yn amlinellu sut y dylid ymgorffori rheoli risg ym mhob rhan o Ofgem; sut rydym yn nodi, yn gweinyddu ac yn rheoli risgiau.

Mae'r fframwaith hwn yn disgrifio:

- y systemau sydd gennym i reoli risg
- sut rydym yn nodi, yn asesu ac yn rheoli risg
- pwysigrwydd rheoli risg i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr
- manylion rolau a chyfrifoldebau rheoli risg
- canllawiau ac adnoddau ar reoli risg.

Fel rhan o'r fframwaith rheoli risg, rydym wedi sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o brosesau gwneud polisiau, cynllunio a chyflawni. Mae gan bob uwch aelod o staff rheoli amcanion penodol ar gyfer rheoli risg yn eu maes.

Mae partneriaid a chyfarwyddwyr yn gyfrifol am weithredu'r fframwaith a sicrhau bod pawb yn ymwybodol ohono. Gall pob aelod o staff weld y fframwaith ar ein mewnwyd.

Rydym wedi pennu awydd i fentro a bennir yng nghyd-destun ein cenhadaeth i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr ynni. Ni allwn weithredu heb gymryd risgiau, felly mae'r fframwaith hwn yn ein helpu i nodi a gwerthuso'r risgiau hyn mewn ffordd strwythuredig sy'n eu cysylltu â'n cenhadaeth a'n strategaeth.

Risg a rheoli

Yn ystod 2016-17, arhosodd polisi ynni yn uchel ar yr agenda wleidyddol ac agenda defnyddwyr. Mae defnyddwyr yn pryderu am godiadau yn eu biliau ynni, a hynny'n ddealladwy.

Er mwyn sicrhau bod ein holl waith yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr, cyhoeddwyd ein strategaeth ym mis Rhagfyr 2014 ac, yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddwyd ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2017-18 ym mis Mawrth 2017. Ein cenhadaeth strategol yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol dros ddefnyddwyr ynni drwy reoleiddio annibynnol.

Ar 24 Ionawr 2017, sefydlodd Gweinidog Cyllid Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ymchwiliad cyhoeddus o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 er mwyn ystyried y Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig. Cadeirir yr Ymchwiliad gan Syr Patrick Coghlin. O dan ei glych gorchwyl, bydd yr Ymchwiliad yn ystyried dylunio, llywodraethu a gweithredu'r cynllun, ynghyd ag ymdrechion i reoli ei gostau. Gan mai Ofgem oedd yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun, bydd

ei rôl yn y meysydd hyn yn cael ei harchwilio gan yr Ymchwiliad. Rydym wedi llunio tîm penodedig i weithio gyda'r ymchwiliad.

Yn 2014, gwnaethom lansio ein Rhaglen Trawsnewid Strategol, a gynlluniwyd i ddatblygu Ofgem fel sefydliad ac ateb ei holl heriau rheoleiddio yn y dyfodol yn llwyddiannus. Nod y rhaglen drawsnewid oedd sicrhau bod gennym y bobl gywir, y prosesau cywir a'r dechnoleg gywir ar waith i gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus a'r ystyriedder i ymateb i heriau yn y dyfodol. Cwblhawyd ail gam a cham terfynol y rhaglen ym mis Medi 2015. Ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio i sicrhau bod newidiadau yn gynaliadwy ac yn dod yn ffordd newydd, a dderbynnir o wneud busnes yn Ofgem, a hefyd i adeiladu ar lwyddiannau'r rhaglen drwy addasu ac esblygu Ofgem yn barhaus fel ein bod yn y sefyllfa orau i ateb yr heriau sy'n ein hwynebu nawr ac a all ein hwynebu yn y dyfodol.

Argymhellodd adolygiad Syr Nicholas Macpherson o sicrwydd ansawdd modelau dadansoddol y llywodraeth yn 2013 y dylai datganiad llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu yn yr adroddiad blynyddol gadarnhau bod fframwaith sicrhau ansawdd priodol ar waith a'i fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob model busnes critigol. Gallwn gadarnhau bod Ofgem yn gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd modelu newydd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ei fodolau busnes critigol. Mae hyn yn unol ag adolygiad Macpherson, a bydd yn rhoi mwy o hyder o ran cywirdeb ein gwaith modelu.

Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr, gan gynnwys biliau is, llai o ddifrod amgylcheddol, gwell dibynadwyedd a diogelwch, gwasanaeth o ansawdd gwell a buddiannau i gymdeithas gyfan.

Rydym wedi rhannu'r gwaith a gynlluniwyd gennym yn chwe thema er mwyn dangos sut mae'n cyfrannu at chwe allbwn strategol ein trefniadau rheoleiddio annibynnol:

- rheoleiddio
- cystadleuaeth
- safonau
- partneriaethau
- hyder
- effeithlonrwydd

Ochr yn ochr â'r heriau hyn daw risgiau, ac rydym yn cydnabod ac yn croesawu dulliau rheoli risg fel ffordd o fynd i'r afael â hwy. Ein nod yw pennu

gweithdrefnau rheoli risg synhwyrol a chymesur ym mhob maes o'n gwaith. Mae rheolwyr yn ystyried bod rheoli risg yn rhan annatod o'u gwaith, ac mae'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Rheoli (dros E-Serve) yn adolygu prif risgiau Ofgem yn barhaus. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn paratoi proffil prif risgiau i gwmpasu E-Serve.

Cod Llywodraethu Corfforaethol

Rydym yn cydnabod gwerth trefniadau corfforaethol da ac yn cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Corfforaethol ('Corporate governance in central government departments: code of good practice 2011').

Yr unig eithriad yw bod y Cod yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gael eu cadeirio gan y gweinidog arweiniol. Fel un o adrannau anweinidogol y llywodraeth ac awdurdod rheoleiddio cenedlaethol annibynnol, gydag aelodau'r Awdurdod yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mae gan yr Awdurdod gadeirydd anweithredol yn lle hynny.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd gyfrannu at adroddiad y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus sef "Striking the Balance" ar gadarnhau Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ym maes Rheoleiddio (egwyddorion Nolan fel y'u gelwir). Gwnawn ystyried yr adroddiad a gweithio i sicrhau bod ein hymddygiad ein hunain fel rheoleiddiwr yn gyson ag argymhellion arfer gorau'r pwyllgor ar gyfer cyrff rheoleiddio.

Ansawdd data

Mae'r Awdurdod yn cael amrywiaeth eang o ddata ariannol a data eraill, er mwyn hwyluso'r broses o oruchwylio perfformiad swyddogaethau'r Awdurdod a llywio ei benderfyniadau rheoleiddio. Mae'r bwrdd o'r farn bod y wybodaeth hon o ansawdd da yn gyffredinol. Gwnaed newidiadau i'r ffordd y cyflwynir gwybodaeth reoli fewnol, yn weithredol o ddechrau'r flwyddyn ariannol 2016-17, er mwyn ei gwneud yn fwy defnyddiol o ran monitro effeithlonrwydd y sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol. Caiff y data a ddefnyddir i lywio penderfyniadau rheoleiddio eu hadolygu'n barhaus yn erbyn cefndir o newid parhaus yn y marchnadoedd perthnasol.

Digwyddiadau data personol

Mae gennym bolisi diogelwch data er mwyn cadw pob darn o wybodaeth swyddogol yn breifat ac yn ddiogel Profwyd achos o dor-data ar ôl i ddefnyddiwr busnes drosglwyddo rhywfaint o ddata drwy borth cydweithredu diogel, ond daeth i'r amlwg bod y data wedi'u hanfon at dderbynydd gwahanol. Cafodd y data eu hadalw'n gyflym a'u hailanfon yn gywir.

Nododd adolygiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, er bod hwn yn achos o dor-data, na chafwyd effaith sylweddol a bod y rheolaethau diwygiedig o ran y broses yn briodol. Caewyd yr achos heb gymryd unrhyw gamau pellach. Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau data personol eraill yr oedd angen hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdanynt.

Adolygiad y swyddog cyfrifyddu o effeithiolrwydd

Fel y swyddog cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Rwy'n seilio fy adolygiad ar waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y system lywodraethu. Rwyf hefyd yn ystyried sylwadau'r archwilwyr mewnol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae'r Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi dweud wrthyf am oblygiadau canlyniad fy adolygiad, ac mae cynllun yn bodoli i fynd i'r afael â'r gwendidau a welwn a sicrhau ein bod yn parhau i wella'r system.

Mewn adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2016-17 ac mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaeth ein harchwilwyr mewnol 32 o argymhellion y disgwyliid iddynt gael eu gweithredu cyn 31 Rhagfyr 2016. O'r rhain, erbyn mis Ebrill 2017, roedd cynnydd boddhaol wedi'i wneud gydag 20 o'r 32 o argymhellion naill ai wedi'u gweithredu neu wedi'u cwblhau i raddau helaeth, wyth argymhelliad arall yn mynd rhagddynt, tri argymhelliad yn weddill ac un argymhelliad lle mae rheolwyr wedi derbyn y risg.

Eleni, cymerwyd camau i fonitro a gwella ein system lywodraethu:

- Adolygodd yr Awdurdod ein risgiau strategol ym mis Ebrill a mis Hydref 2016
- Adolygwyd ein risgiau strategol gan yr Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Rheoli (dros E-Serve) a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg



- Cyfarfu Grŵp Rheoli Risg a Thwyll E-Serve bob mis i ddechrau ar waith a oedd yn ymwneud ag atal a chanfod twyll a'i adolygu, a sicrhau ein bod yn rheoli achosion o dwyll a amheuir, cam-ddatgan neu wyngalchu arian yn briodol
- Cyfarfu'r prif swyddog gweithredu a chyfarwyddwr cyswllt cyllid a rheoli risg yn rheolaidd ag uwch bartneriaid a rheolwyr gyfarwyddwyr yn unigol er mwyn adolygu adnoddau a chynnydd tuag at amcanion, a nodi a gwerthuso'r risgiau cysylltiedig
- Diweddarwyd ein datganiadau llywodraethu i'w gwneud yn ofynnol i bartneriaid a chyfarwyddwyr ystyried a chyflwyno adroddiadau ar bob agwedd ar reoli ariannol a rheoli risg a materion rheoli llywodraethu eraill yn eu maes

Ni chododd unrhyw broblemau sylweddol gyda'n system lywodraethu yn ystod y flwyddyn ariannol.

Dermot Nolan

Swyddog cyfrifyddu

16 Mehefin 2017



Adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff

Y pwyllgor cydnabyddiaeth

Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys aelodau anweithredol yr Awdurdod a benodir drwy benderfyniad cyffredin yr Awdurdod. Cadeirir y pwyllgor gan Jim Keohane. Yr aelodau eraill yw Paul Grout a Christine Farnish. Mae'r cadeirydd a'r prif weithredwr yn bresennol fel arsylwyr.

Rôl y pwyllgor yw adolygu a chymeradwyo'r dyfarniad cyflog blynyddol a lefel unrhyw fonws i aelodau'r Uwch Dîm Rheoli. Mae hefyd yn ystyried materion eraill sy'n ymwneud â chyflog a pherfformiad uwch aelodau o staff Ofgem. Dyfernir cyflog a bonysau ar sail perfformiad o fewn y terfynau a bennwyd gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil yn sgil argymhellion gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu gwaith cynllunio olyniaeth.

Polisi cydnabyddiaeth

Nodir cydnabyddiaeth uwch aelodau yn eu contractau a chaiff ei hadolygu'n flynyddol yn unol â'r dyfarniadau a argymhellir gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Ar wahân i'r cadeirydd, mae pob un o'n huwch aelodau yn aelodau parhaol o staff. Nid oes gan yr un ohonynt gyfnod rhybudd sy'n hwy na chwe mis.

Gwneir trefniadau i derfynu penodiad uwch aelodau yn gynnar yn unol â contract gwasanaeth yr unigolyn. Mae pob contract yn rhoi tâl yn lle rhybudd os caiff penodiad ei derfynu'n gynnar yn seiliedig ar ddarpariaethau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae pob aelod gweithredol yn gymwys i fod yn rhan o gynllun bonws sy'n unol ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Mae'r bonws yn seiliedig ar berfformiad yr unigolyn. Mae taliadau bonws yn rhai ar wahân i gyflog ac nid ydynt yn bensiynadwy.

Yn ystod 2016-17 gwnaethom ystyried dichonoldeb cyflwyno darpariaeth i adfachu bonysau lefel uwch. Penderfynwyd, oherwydd maint y taliadau bonws a diffyg darpariaeth o'r fath yn y Gwasanaeth Sifil yn ehangach, na ddylid mabwysiadu'r nodwedd hon ond i gynnal adolygiad blynyddol.

Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar sail teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r egwyddorion recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi pryd y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall, mae'r swyddogion a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n ben agored. Byddai dod â phenodiad i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk.

Cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliadau pensiwn

Mae'r wybodaeth yn y tablau canlynol wedi cael eu harchwilio gan archwilwyr allanol.

Dangosir cyflog aelodau lefel uchaf Ofgem (nad yw pob un ohonynt yn aelod o'r Awdurdod), eu taliadau bonws a gwerth unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da iddynt yn 2016-17 yn y tabl gyferbynn.



Un cyfanswm ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol

	pensiwn (£000)		Taliadau bonws (£000)		Buddion mewn da (i'r £100 agosaf)		Cyflog buddion (i'r £1,000 agosaf)‡		Cyfanswm (£000)	
	2016-17	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17	2015-16
Uwch aelodau gweithredol Ofgem										
Dermot Nolan Prif Weithredwr	190-195	190-195	15-20	15-20	-	-	34,000	32,000	240-245	235-240
Martin Crouch Uwch Bartner	140-145	135-140	-	-	-	-	74,000	85,000	215-220	220-225
Rachel Fletcher Uwch Bartner	140-145	140-145	15-20	-	-	-	42,000	69,000	200-205	205-210
Maxine Frerk Uwch Bartner Dros Dro (tan fis Tachwedd 2016)	95-100**	125-130	-	-	-	-	17,000	46,000	110-115	170-175
David Gillies Prif Swyddog Gweithredu (rhwng mis Ionawr 2016 a mis Mai 2016***)	95-100**	25-30*	-	-	-	-	4,000	8,000	25-30	30-35
Sarah Harrison Uwch Bartner (tan fis Gorffennaf 2015)	-	45-50*	-	15-20	-	-	-	30,000	-	90-95
Anthony Pygram Uwch Bartner Dros Dro (rhwng mis Gorffennaf 2015 a mis Rhagfyr 2015***)	-	60-65*	-	-	-	-	-	40,000	-	100-105
Dr Andrew Wright Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp (tan fis Rhagfyr 2015), Uwch bartner (o fis Ionawr 2016)	195-200	185-190	-	-	-	-	28,000	71,000	220-225	255-260
Sarah Cox Prif Swyddog Gweithredu (o fis Mehefin 2016)	110-115**	-	-	-	-	-	46,000	-	155-160	-
Jonathan Brearley Uwch Bartner (o mis Mai 2016)	115-20**	-	-	-	-	-	45,000	-	160-165	-
Uwch aelodau gweithredol Ofgem E-Serve										
Chris Poulton Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro	140-145	130-135	15-20	10-15	-	-	17,000	16,000	175-180	160-165
Aelodau anweithredol yr Awdurdod										
David Gray Cadeirydd	160-165	160-165	-	-	-	-	-	-	160-165	160-165

* Cyflog sylfaenol cyfatebol blynyddol (heb gynnwys tâl ar sail perfformiad):

David Gillies: 115-120**Sarah Harrison:** 140-145**Anthony Pygram:** 125-130

** Cyflog sylfaenol cyfatebol blynyddol (heb gynnwys tâl ar sail perfformiad):

Maxine Frerk: 120-125**Sarah Cox:** 125-130**Jonathan Brearley:** 140-145



*** cydnabyddiaeth yn ystod y cyfnod pan oeddent yn aelod o'r uwch dim rheoli.

‡ Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn

wedi'i luosi ag 20, llai'r cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys unrhyw gynnydd na lleihad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

Aelodau anweithredol eraill yr Awdurdod a dalwyd	2016-17		2015-16	
	Honorariwm	Lwfans	Honorariwm	Lwfans
Christine Farnish (o fis Ionawr 2016)	£20,000	-	£3,333*	-
David Fisk	£25,000	-	£25,000	-
Paul Grout	£20,000	-	£20,000	£2,081
Nicola Hodson (o fis Mawrth 2015)	£20,000	-	£20,000	-
Jim Keohane	£25,000	-	£25,000	£3,000
Keith Lough	£20,000	£3,000	£20,000	£3,000

* Swm cyfatebol blynyddol £20,000

Mae gan aelodau anweithredol benodiadau tymor penodol, am hyd at bum mlynedd fel arfer. Nid yw'r penodiadau hyn yn adnewyddadwy. Ceir gwybodaeth am ddyddiadau penodi ar dudalen 41. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol sy'n pennu cydnabyddiaeth ac yn gwneud penodiadau, ar ôl ymgynghori â'r cadeirydd. Telir cydnabyddiaeth iddynt ar ffurf honorariwm ynghyd â lwfans ychwanegol am gadeirio unrhyw un o bwyllgorau'r Awdurdod. Nid oes ganddynt yr hawl i gael tâl ar sail perfformiad na phensiwn. Telir iawndal am derfynu penodiad yn gynnar yn ôl disgrisiwn yr Ysgrifennydd Gwladol. Dechreuodd penodiad cadeirydd anweithredol yr Awdurdod, David Gray ar 1 Hydref 2013 a bydd yn para am bum mlynedd.

Yn ogystal â honoraria, sydd wedi'u cynnwys mewn cyflogau, caiff cyfarwyddwyr anweithredol hawlio treuliau gwirioneddol, os rhoddir tystiolaeth ar ffurf derbynebau.

Cyhoeddir y treuliau a hawli'r gan ein huwch aelodau a'n cyfarwyddwyr anweithredol ar ein gwefan (www.ofgem.gov.uk).

Cyflog

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n drethadwy yn y DU.

Bonysau

Yn 2016-17 roedd 679 (2015-16: 751) o staff a gafodd fonws. Y taliad bonws cyfartalog oedd £1,357 (2015-16: £1,260) ac roedd y cyfanswm a dalwyd mewn bonysau yn cyfateb i £921,403 (2015-16: £946,589). Tri unigolyn (2015-16: dau) a gafodd y taliad bonws mwyaf sef £15,000 (2015-16: £15,000).

Mae bonysau yn seiliedig ar lefelau perfformiad a chânt eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu. Mae'r bonysau a gofnodwyd yn 2016-17 yn ymwneud â pherfformiad yn 2015-16. Mae'r bonysau a gofnodwyd ar gyfer 2015-16 yn ymwneud â pherfformiad yn 2014-15.

Lluosrifau cyflog

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chydabyddiaeth ariannol ganolrifol gweithlur sefydliad.

Cydnabyddiaeth ariannol wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf yn 2016-17 oedd £205,000-£210,000 (2015-16: £205,000-£210,000). Roedd hyn 5.22 gwaith (2015-16: 5.21) yn fwy na chydabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, sef £40,000 (2015-16: £40,000).

Yn 2016-17 ni chafodd unrhyw (2015-16: dim) gyflogwyr gydnabyddiaeth yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf. Roedd cydnabyddiaeth yn amrywio o £8,840 i £208,819 (2015-16: £8,840-£206,900).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, cyflog yn gysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

Lleihaodd nifer gyfartalog y staff a gyflogwyd yn barhaol yn 2016-17, ond mae lluosrif cyflog y flwyddyn gyfredol wedi aros yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y lleihad mewn staff mewn sawl gradd ac felly nid yw wedi effeithio ar y canolrif.



Pension Benefits

	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed	Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd 60 oed ar 31 Mawrth 2016 a chyfandaliad cysylltiedig	Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2017	Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2016	Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod	Cyfraniad cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth
Buddiannau pensiwn	£000	£000	£000	£000	£000	£100 Agosaf
Uwch aelodau gweithredol Ofgem						
Dermot Nolan Prif Weithredwr	-	-	-	-	-	34,400
Martin Crouch Uwch Bartner	2.5-5.0	35-40	477	415	36	-
Rachel Fletcher Uwch Bartner	2.5-5.0	25-30	469	409	35	-
Maxine Frerk Uwch Bartner Dros Dro (tan fis Tachwedd 2016)	Cyfandaliad o 0-2.5 a 2.5-5.0	Cyfandaliad o 20-25 a 60-65	468	432	16	-
David Gillies Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro (rhwng mis Ionawr 2016 a mis Mai 2016)	0-2.5	15-20	351	345	4	-
Dr Andrew Wright Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp (tan fis Rhagfyr 2015), Uwch bartner (o fis Ionawr 2016)	-	-	-	-	-	27,700
Sarah Cox Prif Swyddog Gweithredu (o fis Mehefin 2016)	2.5-5.0	25-30	402	369	22	-
Jonathan Brearley Uwch Bartner (o fis Mai 2016)	2.5-5.0	0-5	25	0	17	-
Uwch aelodau gweithredol Ofgem E-Serve						
Chris Poulton Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro (o fis Rhagfyr 2014)	-	-	-	-	-	16,800

Pensiynau'r gwasanaeth sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n rhoi buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch).

O'r dyddiad hwnnw ymunodd bron bob gwas sifil newydd ei benodi a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes yn weision sifil ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, bu gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y cynllun bedair adran: tair yn rhoi buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60 oed; ac un yn rhoi buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.



Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddiannau eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Arhosodd unigolion a oedd eisoes yn aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai sydd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae buddiannau PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha wedi'u 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael eu buddiannau yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha yn briodol. Pan fydd gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun ei fuddiannau yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn seiliedig ar gyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy i aelodau o classic (ac aelodau o alpha a fu'n aelodau o classic yn union cyn ymuno ag alpha) a rhwng 4.6% ac 8.05% i aelodau premium, classic plus, nuvos a phob aelod arall o alpha. Mae buddiannau yn y cynllun 'classic' yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol adeg ymddeol.

Ar gyfer premium, mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun 'classic', ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae'r cynllun classic plus yn gynllun hybrid â buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun classic a buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth o fis Hydref 2002

yn cael eu cyfrifo fel y cynllun premium. Bydd aelod o gynllun 'nuvos' yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Mae buddiannau yn y cynllun alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio'r ffaith y ceir cyfradd gronni o 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (gohirio) i ddarparu cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes angen i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, telir cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy hefyd i gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Chwe deg oed yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 oed ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, i aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha yn briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun eu buddiannau yn y ddau gynllun ond nodir y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk



Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw'r gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraid o fuddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu priso yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin priso'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.



Adroddiad staff

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad staff wedi cael ei harchwilio'n allanol.

Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd

Roedd nifer y staff cyfwerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

			2016-17 £000	2015-16 £000
	Staff a gyflogir yn barhaol	Eraill	Cyfanswm	Cyfanswm
Rheoliadol	426	8	434	440
E-Serve	308	49	357	312
Gwasanaethau Corfforaethol	152	28	180	155
Cyfanswm	886	85	971	907

Roedd 41.3 o bobl sy'n gyfwerth ag amser cyfan ar gyfartaledd ar radd SCS yn ystod y flwyddyn. O'r rhain roedd 21.7 ym mand cyflog 1, 16.6 ym mand cyflog 2, a 3.0 ym mand cyflog 3.

Costau Staff

			2016-17 £000	2015-16 £000
	Staff a gyflogir yn barhaol	Eraill	Cyfanswm	Cyfanswm
Cyfanswm	53,327	5,966	59,293	53,711

Adrodd ar gynlluniau'r Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill - pecynnau ymadael

Ni chafodd unrhyw swyddi eu dileu yn ystod 2016-17 na 2015-16. Cydnabuwyd darpariaeth yn y Cyfrifon Adnoddau ar gyfer nifer o daliadau ymadael gwirfoddol disgwylidig y cytunwyd arnynt â Swyddfa'r Cabinet a'r unigolion. Disgwylir i'r rhain gael eu talu yn 2017-18.

Cynnwys cyflogaion

Eleni, roedd gan ein harolwg ymgysylltu â staff gyfradd ymateb o 88% (2015-16: 94%), a mynegai ymgysylltu o 61%. Mae'r ffigur ymgysylltu dri phwynt canrannol yn uwch nag yn 2015 ac rydym dau bwynt canrannol yn uwch na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil.

Mae 89% (2015-16: (88%) o'n staff hefyd yn parhau i ystyried bod eu rolau'n ddiddorol a dywed 76% eu bod yn heriol (2015-16: 71%). Dim ond 65% a fyddai'n argymhell Ofgem fel lle gwych i weithio (2015-16: 61%).

Cynllun Cydraddoldebau Sengl

Yn ein rôl ddeuol fel cyflogwr a rheoleiddiwr, rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ein gweithlu, yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn y diwydiant rydym yn ei reoleiddio. I'r perwyl hwn, yn 2013 cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldebau Sengl. Mae hwn yn nodi ein hymagwedd tuag at ein staff, prosesau mewnol, datblygu polisi a gwneud penderfyniadau. Byddwn yn adolygu'r cynllun yn 2017.

Cyfle cyfartal

Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith – mewn cyflogaeth, hyfforddiant a datblygu gyrfa. Ni ddylai neb wynebu gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhyw, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Nid ydym yn goddef gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu.

Yn arolwg ymgysylltu â staff 2016 cawsom sgôr o 80% ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg (2015-16: 77%).



Yn 2016-17 parhawyd i ddarparu hyfforddiant ar amrywiaeth a rhagfarn anymwybodol i staff yr oedd ei angen arnynt. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod staff yn deall ac yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ym mhopeth a wnânt. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:

- gwyddys bod gan 2.4% (2015-16:1.9%) o staff anabled
- roedd 47% (2015-16:46%) o staff yn fenywod
- roedd 45% (2015-16:45%) o staff mewn swyddi rheoli yn fenywod.
- roedd 35% (2015-16:29%) o aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn Ofgem yn fenywod.
- gwyddys bod 18% (2015-16:19%) o staff o darddiad lleiafrif ethnig
- gwyddys bod 62% (2015-16:64%) o staff o darddiad ethnig lleiafrif mewn swyddi rheoli.

Mae ein datganiad polisi am gyfle cyfartal ar gael i bob cyflogai.

Buddsoddi mewn dysgu a datblygu

Rydym wir yn gwerthfawrogi ein pobl. Mae rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu sgiliau newydd a datblygu eu gyrfaedd yn ein helpu i'w cadw a denu pobl newydd mewn sawl ffordd. Fel adlewyrchiad o'r buddsoddiad hwn, yn ein Harolwg o Bobl yn 2016 cawsom ein gosod bedwar pwynt canrannol yn uwch na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil ar gyfer dysgu a datblygu.

Ymgysylltu â'r gymuned

Rydym yn mynd ati i gefnogi cyflogaion sy'n rhoi o'u hamser neu eu harian eu hunain i helpu elusennau, neu weithgareddau cymunedol neu wirfoddol eraill. Er enghraifft, efallai y byddem yn rhoi amser i ffwrdd i rywun sy'n gweithredu fel llywodraethwr ysgol, ynad heddwch, aelod o banel tribiwnlys cyflogaeth, neu rywun sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd.

Rydym hefyd wedi rhoi caniatâd i nifer o elusennau gynnal digwyddiadau yn ein swyddfeydd.

Rydym yn parhau i weithio gyda Career Ready ac mae pedwar aelod o staff yn rhoi cymorth ac arweiniad un i un i bobl ifanc 16-19 oed drwy'r cynllun mentora. Yn 2016, cynigiwyd tri lleoliad interniaeth haf am chwe wythnos yn Llundain a dau leoliad interniaeth haf am bedair wythnos yn Glasgow. Byddwn yn cynnig tri lleoliad arall yn Llundain a dau yn Glasgow yn ystod haf 2017.

At hynny, recriwtiwyd un prentis TG yn 2016-17.

Hyrwyddo iechyd a diogelwch yn y gwaith

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb cyfreithiol am iechyd, diogelwch a lles ein cyflogaion o ddifrif. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio gyda ni neu i ni, ac unrhyw un arall sy'n defnyddio ein safleoedd. Ein nod yw atal unrhyw ddamwain sy'n cynnwys anaf personol, salwch neu niwed.

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac unrhyw ddeddfwriaeth arall. Mae ein datganiad polisi am iechyd a diogelwch yn disgrifio ein cyfrifoldebau a'n nodau yn fanylach. Mae ar gael i bob cyflogai.

Diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb

Yn 2016-17, collwyd 4.6 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai ar gyfartaledd (2015-16: 6.1 diwrnod). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y sector cyhoeddus sef 7.9 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai, a chyfartaledd y sector preifat sef 5.5 diwrnod.

Adolygiad o drefniadau treth penodeion yn y sector cyhoeddus


Ym mis Mai 2012 cyhoeddodd y llywodraeth adolygiad o drefniadau cyhoeddus o benodeion yn y sector cyhoeddus. Nododd yr adolygiad nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres gwerth mwy na £58,200 y flwyddyn ym mhob rhan o'r llywodraeth a gwnaeth argymhellion i wella tryloywder treth y mathau hyn o drefniadau.

Ceir gwybodaeth am benodeion presennol oddi ar y gyflogres yn Atodiad V ar dudalen 115.

Dermot Nolan
Swyddog cyrifyddu

16 Mehefin 2017

Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad



Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FRoM) yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol i ddangos alldro adnoddau yn erbyn yr amcangyfrif cyflenwi a gyflwynwyd gerbron Senedd y DU, ar gyfer pob terfyn rheoli cyllidebol. Mae'r wybodaeth yn y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol wedi cael ei harchwilio'n allanol.

Crynodeb o'r alldro adnoddau a chyfalaf 2016-17

	2016-17 £000						2015-16 £000	
	Amcangyfrif			Alldro			Alldro	
	Cymer- adwywyd drwy bleidlais	Nis cymer- adwywyd drwy bleidlais	Cyfan- swm	Cymer- adwywyd drwy bleidlais	Nis cymer- adwywyd drwy bleidlais	Cyfan- swm	Alldro a gymeradwywyd drwy bleidlais o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbediad	Cyfan- swm
Terfyn gwariant adrannol								
Adnodd	15,207	-	15,207	630	-	630	14,577	654
Cyfalaf	3,730	-	3,730	1,498	-	1,498	2,232	542
Gwariant a reolir yn flynyddol								
Adnodd	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfalaf	-	-	-	-	-	-	-	-
Nad yw'n gyllidebol	18,937	-	18,937	2,128	-	2,128	16,809	1,196
Adnodd	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	18,937	-	18,937	2,128	-	2,128	16,809	1,196
Cyfanswm yr adnoddau	15,207		15,207	630	-	630	14,577	654
Cyfanswm cyfalaf	3,730		3,730	1,498	-	1,498	2,232	542
Cyfanswm	18,937		18,937	2,128	-	2,128	16,809	1,196

	SoPS Nodyn	2016-17 £000	2016-17 £000		2015-16 £000
		Amcangyfrif	Alldro	Alldro o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbediad	Alldro
Gofyniad arian parod net	SoPS3	29,034	7,729	21,305	(9,600)
Costau gweinyddol		2016-17 £000	2016-17 £000		2015-16 £000
		Amcangyfrif	Alldro	Arbediad	Alldro
		15,207	630	14,577	654

Rhoddir esboniadau o'r amrywiannau rhwng yr amcangyfrif a'r alldro yn adroddiad y Cyfarwyddwyr



Alldro net SoPS1

SoPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net fesul adran

					2016-17 £000	2015-16 £000	
					Alldro	Amcangyfrif	
					Cyfan- swm net	Cyfanswm net o'i gymharu â'r amcangyfrif	Cyfan- swm
Gwariant	Incwm				Cyfan- swm net	Cyfan- swm net	Cyfan- swm
Gwariant mewn Terfynau							
Gwariant Adrannol							
A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu	42,217	(42,217)	-		14,507	14,507	-
B Ofgem E-Serve: gweinyddu	44,395	(43,765)	630		700	70	654
Total	86,612	(85,982)	630		15,207	14,577	654

SoPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net fesul adran

					2016-17 £000	2015-16 £000	
					Alldro	Amcangyfrif	Alldro
					Cyfan- swm net	Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif	Cyfan- swm
Gwariant	Incwm				Cyfan- swm net	Cyfan- swm net	Cyfan- swm
Gwariant mewn Terfynau							
Gwariant Adrannol							
A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu	1,498	-	1,498		3,730	2,232	542
B Ofgem E-Serve: gweinyddu	-	-	-		-	-	-
Cyfanswm	1,498	-	1,498		3,730	2,232	542

SoPS2 Cysoni alldro â'r gost weithredu net

		2016-17	2015-16
		£000	£000
Cyfanswm alldro adnoddau yn y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol	Nodyn		
	SoPS1.1	630	654
Costau gweithredu net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr		630	654

SoPS3 Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

		Amcangyfrif	Alldro	Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/(dros ben)
	Nodyn	£000	£000	£000
Alldro Adnoddau	SoPS1.1	15,207	630	14,577
Alldro cyfalaf	SoPS1.2	3,730	1,498	2,232
Croniadau i addasiadau arian parod:				
▪ Dibrisiant	4	-	(1,452)	1,452
▪ Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau	4	-	(473)	473
▪ Eitemau anariannol eraill	4	(53)	(56)	3
▪ Symudiad mewn cyfalaf gwaith		10,000	17,071	(7,071)
▪ Derbyniadau arian parod o 2015-16 nad ydynt yn ddyledus i'r gronfa gyfunol		-	(9,600)	9,600
▪ Defnydd o ddarpariaeth	13	150	111	39
Gofyniad arian parod net		29,034	7,729	21,305

Yn ystod 2016-17 rhoddodd Trysorlys EM ganiatâd i Ofgem gadw balans arian parod dros ben y flwyddyn flaenorol yn hytrach na gofyn am arian parod ychwanegol drwy'r Amcangyfrif Atodol.

SoPS4 Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r gronfa gyfunol

Ni chasglwyd unrhyw incwm o'r gronfa gyfunol gennym yn 2016-17. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gennym tra'n gweithredu fel asiant y gronfa gyfunol yn hytrach na phenadur. Ceir manylion llawn yr incwm a gasglwyd fel asiant y gronfa gyfunol yn natganiad ymddiriedaeth yr adran, a gyhoeddwyd ar wahân i'r datganiadau ariannol hyn ond ochr yn ochr â hwy.

Meysydd eraill o Atebolrwydd Seneddol

Nid oes gennym ddim i'w nodi mewn perthynas â'r canlynol:

- Colledion a thaliadau arbennig
- Datgeliadau ffioedd a thaliadau
- Rhwymedigaeth ddigwyddiadol annhebygol
- Tueddiadau gwariant hirdymor.



Dermot Nolan
Swyddog cyfrifyddu

16 Mehefin 2017



Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian Parod, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig, a'r wybodaeth yn yr Adroddiad am Daliadau a Staff a'r Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol a ddisgrifir yn yr adroddiadau a'r datgeliadau sydd wedi'u harchwilio.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi aswiriant rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: p'un a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Adran ac a ydynt wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu

sylweddol a wnaed gan y Swyddog Cyfrifyddu; a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau ariannol yn gyffredinol. Rwyf hefyd wedi darllen yr holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth nad yw'n ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol ymddangosiadol, ystyriaif y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi aswiriant rhesymol bod y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n gywir yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ac na chroeswyd trothwy'r cyfansymiau hynny.

Y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd drwy bleidlais gan y Senedd yw'r Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant Anghyllidebol (Adnoddau) a Gofynion Arian Parod Net. Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi aswiriant rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd o sylwedd:

- mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n gywir yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ac yn dangos na chroeswyd trothwy'r cyfansymiau hynny; ac



- mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Adran ar 31 Mawrth 2017, ac o gost weithredu net yr Adran ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad am Daliadau a Staff a'r datgeliadau Atebolwydd Seneddol i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad ar Atebolwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am y materion canlynol y byddaf yn adrodd amdanynt wrthyf os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd datgeliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu

- nid yw datganiadau ariannol na'r rhannau o'r Adroddiad am Daliadau a Staff na'r datgeliadau Atebolwydd Seneddol i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r datgeliadau cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Sir Amys C E Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road Victoria,
Llundain SW1W 9SP

23 Mehefin 2017

Cyfrifon Adnoddau



Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail cronïadau. Mae hefyd yn nodi incwm a gwariant cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill na ellir eu cydnabod fel incwm neu wariant eto.

				2016-17 £000	2015-16 £000
	Nodyn	Costau staff	Costau eraill	Incwm	
Costau gweinyddol					
Costau staff	3	59,293			53,711
Costau eraill	4		27,319		23,342
Incwm	5			(85,982)	(76,399)
Costau gweithredu net				630	654
Cyfanswm y gwariant	SoPS1.1			86,612	77,053
Cyfanswm yr incwm				(85,982)	(76,399)
Gwariant gweithredu net				630	654
Gwariant net cynhwysfawr arall					
Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net:					
Ennill/(colled) actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn		13		(56)	26
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017				574	680

Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2017

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno ein sefyllfa ariannol. Mae iddo dair prif ran: asedau a berchenogir neu a reolir, rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill, ac ecwiti, gwerth gweddilliol yr endid.

		2017	2016
	Nodyn	£000	£000
Asedau anghyfredol:			
Eiddo, offer a chyfarpar	6	2,524	2,478
Asedau anghyfredol eraill	11	-	1,977
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		2,524	4,455
Asedau cyfredol:			
Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill	11	15,590	8,919
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	10	21,305	25,355
Cyfanswm asedau cyfredol		36,895	34,274
Cyfanswm yr asedau		39,419	38,729
Rhwymedigaethau cyfredol:			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	12	(32,200)	(48,094)
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		(32,200)	(48,094)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		7,219	(9,365)
Rhwymedigaethau anghyfredol:			
Darpariaethau	13	(1,419)	(1,001)
Symiau taladwy eraill	12	-	(535)
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol		(1,419)	(1,536)
Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau		5,800	(10,901)
Ecwiti trethdalwyr:			
Cronfa gyffredinol		5,800	(10,901)
Cyfanswm ecwiti trethdalwyr		5,800	(10,901)



Dermot Nolan
Swyddog cyfrifyddu

16 Mehefin 2017

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 88 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

Mae'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn dangos ein newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut rydym yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo drwy ddsbarthu llifau arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth a'r graddau y caiff y gweithrediadau hyn eu hariannu drwy incwm gan dderbynyddion gwasanaethau a ddarparwyd gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y mae llifau arian parod i mewn ac allan wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan yr adran yn y dyfodol. Mae llifau arian parod sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn cynnwys y cyflenwad seneddol a llifau arian parod eraill, gan gynnwys benthyca.

		2016-17 £000	2015-16 £000
Nodyn			
Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu			
Cost gweithredu net	SoPS1.1	(630)	(654)
Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod	4	1,981	1,574
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11	(4,694)	1,948
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy	12	(16,429)	13,469
<i>llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SoCNE</i>	12	4,050	(4,177)
Defnydd o ddarpariaethau	13	(111)	(2,018)
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu		(15,833)	10,142
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd	6	(1,498)	(542)
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(1,498)	(542)
Llifau arian parod o weithgareddau cyllido			
O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol		13,281	15,755
Blaendaliadau o'r gronfa wrth gefn		20,000	20,000
Taliadau i'r gronfa wrth gefn		(20,000)	(20,000)
Ariannu net		13,281	15,755
Taliadau symiau'r gronfa gyfunol		-	(21,178)
Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol		(4,050)	4,177
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod	10	25,355	21,178
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod		21,305	25,355

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 88 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

	Nodyn	Cronfa gyffredinol £000
Balans ar 31 Mawrth 2015		(726)
Cyllid seneddol net – a hawliwyd		15,755
Cyllid seneddol net – tybiedig		-
Addasiad taladwy i'r cyflenwad		(25,355)
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		(654)
Cydnabyddiaeth yr Archwilydd	4	53
Enillion sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn	13.2	26
Balans ar 31 Mawrth 2016		(10,901)
Cyllid seneddol net – a hawliwyd		13,281
Cyllid seneddol net – tybiedig		15,755
Addasiad taladwy i'r cyflenwad		(21,305)
Derbyniadau arian parod o 2015-16 nad ydynt yn ddyledus i'r gronfa gyfunol		9,600
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		(630)
Cydnabyddiaeth yr Archwilydd	4	56
Enillion sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn	13.2	(56)
Balans ar 31 Mawrth 2017		5,800

Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan y Trysorlys. Mae'r polisiau cyfrifyddu a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer y sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, rydym wedi dewis y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i'n hamgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r SoPS a'r nodiadau cysylltiedig yn dangos alldro yn erbyn amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adran ar yr Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad sy'n dechrau ar dudalen 61.

1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol.

1.2 Eiddo, offer, cyfarpar a dibrisiant

Ni chaiff eiddo, offer a chyfarpar eu hailbriso'n flynyddol drwy ddefnyddio mynegeion mwyach. Yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, defnyddir cost hanesyddol wedi'i dibrisio bellach fel procsi am werth cyfredol gan fod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o'r ased yn realistig. Ni fyddai ailbrisiadau yn achosi gwahaniaeth perthnasol.

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu eiddo, offer a chyfarpar mewn rhandaliadau hafal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, ar ôl ystyried gwerth gweddilliol. Mae oes asedau o fewn yr amrediadau canlynol:

Gwelliannau lesddaliadol	Oes y brydles
Cyfarpar, dodrefn a ffitiadau swyddfa	Pum mlynedd
Cyfarpar TG	Tair blynedd

Yr isafswm lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, offer a chyfarpar yw £2,000. Mae grwpio asedau sydd islaw'r trothwy wedi'i gyfyngu i gyfarpar TG a dodrefn yn unig.

1.3 Darpariaethau

Lle mae gan Ofgem rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i dalu rhai costau, bydd yn darparu ar gyfer hynny ar sail amcangyfrif y rheolwyr o'r gwerth, tebygolrwydd ac amseru taliadau yn y dyfodol.

Pan fo gwerth amser arian yn berthnasol, rydym yn disgowntio'r ddarpariaeth i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 0.24%, sef cyfradd safonol y Llywodraeth. Bob blwyddyn mae'r taliadau ariannol yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn cynnwys yr addasiadau i amorteiddio disgownt blwyddyn ac ailddatgan rhwymedigaethau i lefelau prisiau presennol. Yn y cyfrifon eleni, dim ond darpariaeth ymddeol yn gynnar a welodd ddisgownt gan nad yw effaith disgowntio'r dadfeiliadau na darpariaethau ymadael gwirfoddol yn berthnasol.

1.4 Incwm gweithredu

Incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'n gweithgareddau gweithredu yw incwm gweithredu. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd am drwyddedau a ffioedd a thaliadau a godir am wasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn.

Gan fod holl gostau trwyddedau yn cael eu hadennill drwy'r ffioedd am drwyddedau a chaiff y rhain eu hanfonebu mewn dwy gyfran yn ystod y flwyddyn ar seiliedig ar gostau amcangyfrifedig, caiff unrhyw gostau sy'n cael eu goradennill eu trin fel incwm gohiriedig yn y symiau taladwy ac unrhyw gostau sy'n cael eu tanadennill fel incwm cronodig yn y symiau derbyniadwy.

1.5 Cyfnewid tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar ddyddiad pob trafodyn.

1.6 Pensiynau

Cwmpesir cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS). Disgrifir y rhain yn Nodyn 3. Mae'r ddau gynllun yn anghyfrannol a heb eu hariannu. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a gwmpesir gan y ddau gynllun yn cyflawni cost pensiynau a ddarperir ar gyfer y staff a gyflogir ganddynt drwy dalu taliadau a gyfrifir ar sail cronadau. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn arwystl ar y cynlluniau. Ceir datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS a'r CSOPS yn eu cyfanwydd.

Mae gan ein cyn-brif weithredwr a chyfarwyddwr cyffredinol drefniadau pensiwn ar wahân sy'n ddigon tebyg i'r PCSPS. Mae'r trefniadau yn darparu ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig heb ei ariannu. Fodd bynnag, yn wahanol i'r PCSPS, mae rhwymedigaeth pensiwn wedi'i chynnwys yn y cyfrifon fel sy'n ofynnol o dan IAS37.

1.7 Costau gadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i ni dalu cost buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol y PCSPS i gyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Rydym yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar wedi'i chyhoeddi ac mae'n gyfrwymol amom.

1.8 Treth ar werth

Yn ein cyfrifon, dangosir symiau yn glir o dreth ar werth (TAW), ac eithrio'r canlynol:

- codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr ac mae wedi'i chynnwys o dan y pennawd sy'n berthnasol i'r math o wariant
- mae TAW na ellir ei adennill ar brynu ased wedi'i chynnwys yng nghost prynu wedi'i chyfalafu'r ased.

Mae'r swm sy'n ddyledus gan Gyllid a Thollau EM ar gyfer TAW wedi'i gynnwys yn y symiau derbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

1.9 Prydlesau gweithredu

Caiff rhenti sy'n ddyledus o dan brydlesau gweithredu eu codi ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr dros dymor y brydles ar sail llinell syth, neu ar sail rhenti gwirioneddol sy'n daladwy sy'n adlewyrchu'r defnydd yn deg. Ni chaiff taliadau yn y dyfodol, a ddatgelir yn Nodyn 7, 'Ymrwymadau o dan brydlesau' eu disgowntio.

1.10 Busnes gweithredol

Dengys y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2017 ecwiti trethdalwyr negyddol sy'n cyfateb i £5.8 miliwn. Yn debyg i adrannau eraill y llywodraeth, caiff ein rhwymedigaethau eu hariannu yn y dyfodol drwy grantiau cyflenwi yn y dyfodol a defnyddio incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan Senedd y DU. Mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer 2017-18 eisoes wedi'u cymeradwyo ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff symiau yn y dyfodol eu cymeradwyo. Felly rydym wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

1.11 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn unol ag IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Amodol), at ddibenion adroddiadau ac atebolrwydd seneddol rydym yn cyflwyno adroddiad ar rhwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol penodol. Rydym yn gwneud hyn lle cred y rheolwyr ei bod yn annhebygol iawn y caiff budd economaidd ei drosglwyddo, ond lle mae adroddiad ar y rhwymedigaethau wedi cael ei gyflwyno i Senedd y DU yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

Lle mae gwerth amser arian yn berthnasol, datgenir rhwymedigaethau digwyddiadol y mae'n rhaid i ni eu datgelu o dan IAS 37 mewn symiau wedi eu disgowntio a gwneir nodyn ar wahân o'r swm y cyflwyniad adroddiad arno i Senedd y DU. Datgenir rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir o dan Rheoli Arian Cyhoeddus yn y symiau y cyflwynir adroddiad arnynt i Senedd y DU.

1.12 Asedau sy'n eiddo i drydydd partïon

Ni chaiff asedau sy'n eiddo i drydydd partïon fel y'u datgelir yn Nodyn 16 (megis arian a ddelir mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a chynlluniau Tariff Cyflenwi Trydan) eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol gan nad oes gennym unrhyw fudd ynddynt.

1.13 IFRS wedi'i gyflwyno ond ddim eto ar waith

Daw newidiadau i IFRS 9 (Offerynnau Ariannol) ac IFRS 15 (Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid) i rym ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2018. Nid ydym yn disgwyl i'r rhain gael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofgem.

2. Datganiad o gostau gweithredu yn ôl cylchran weithredu

2016-17				
	Gweithgareddau Rheoleiddio £000	Ofgem E-Serve £000	Swyddogaethau Corfforaethol £000	Cyfanswm £000
Gwariant Crynswth	42,217	20,534	23,861	86,612
Incwm	(42,217)	(19,904)	(23,861)	(85,982)
Gwariant Net	-	630	-	630

2015-16				
	Gweithgareddau Rheoleiddio £000	Ofgem E-Serve £000	Swyddogaethau Corfforaethol £000	Cyfanswm £000
Gwariant Crynswth	37,257	19,770	20,026	77,053
Incwm	(37,257)	(19,116)	(20,026)	(76,399)
Gwariant Net	-	654	-	654

Mae adroddiadau cylchrannol yn cael eu cyflwyno ar sail gweithgarwch, yn unol ag adroddiadau misol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y sefydliad.

3. Costau staff

Mae costau staff yn cynnwys	2016-17 £000		2015-16 £000	
	Staff a gyflogir yn barhaol	Eraill	Cyfanswm	Cyfanswm
Cyflogau	40,458	5,966	46,424	42,821
Costau nawdd cymdeithasol	4,544	-	4,544	3,522
Costau pensiwn eraill	7,995	-	7,995	7,481
Costau staff eraill	330	-	330	(113)
Cyfanswm	53,327	5,966	59,293	53,711

Cynlluniau buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr heb eu hariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "alpha", ond ni all Ofgem nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd actiwari'r Cynllun y cynllun ar 31 Mawrth 2012. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservicepensionscheme.org.uk).

Ar gyfer 2016-17 roedd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £7,040,371 yn daladwy i'r PCSPS a'r CSOPS (2015/16: £7,215,006) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 20.0% i 24.5% (2015-16: 20.0% i 24.5%) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir y cyfraddau cyfrannu i dalu cost y buddiannau sy'n cronni yn ystod 2016-17 a delir pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddiannau a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiywyr presennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £279,807 (2015/16: £254,465) i dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75% (2015-16: 3% i 12.5% hyd at 30 Medi 2015 ac o 8% i 14.75% o enillion pensiynadwy o 1 Hydref 2015). Bydd cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogai hyd at 3% y cant o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd y cyflogwr yn cyfrannu £11,087 (2015-16: £11,205), 0.8% o gyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o gyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015, i'r PCSPS a'r CSOPS i dalu cost darparu buddiannau yn y dyfodol ar ffurf cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y cyfnod adrodd. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalau ar y dyddiad hwnnw.

Nid ymddeolodd neb (2015-16: dim pobl) yn gynnar oherwydd salwch.

Gellir gweld nifer y staff yn yr adroddiad ar Gydnyddiaeth a Staff ar dudalen 59.

4. Costau gweinyddol eraill

		2016-17	2015-16
	Note	£000	£000
Rhenti o dan brydlesau gweithredu:		3,807	3,195
Prydlesau gweithredu		3,807	3,195
Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:		1,508	1,540
Cydnabyddiaeth a threuliau'r Archwilwyr*		56	53
Dibrisiant	6	1,452	1,487
Gwariant arall:		21,531	18,573
Contractwyr		9,448	7,230
Costau Llety		3,866	4,638
Cyflenwadau a chyfarpar swyddfa		3,234	2,189
Recriwtio a hyfforddiant		1,739	1,562
Gwasanaethau proffesiynol		886	761
Teithio a chynhalaeth		855	658
Costau sy'n ymwneud â staff		429	365
Costau gweinyddol eraill		1,074	1,170
Darpariaethau (nad ydynt yn rhai arian parod):			
Darparwyd yn y flwyddyn	13	446	16
Cost llog	13	27	27
Adfer darpariaeth	13		(9)
Symudiad mewn darpariaeth		473	34
Cyfanswm		27,319	23,342

* Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.

5. Incwm gweithredu

	2016-17 £000			2015-16 £000		
	Incwm	Costau llawn	Diffyg	Incwm	Costau llawn	Diffyg
Ffioedd trwydded	(59,572)	59,572	-	(49,119)	49,119	-
Arall	(26,410)	27,040	630	(27,280)	27,934	654
Cyfanswm	(85,982)	86,612	630	(76,399)	77,053	654

	2016-17 £000	2015-16 £000
Mae incwm arall yn cynnwys:	£000	£000
Tâl Tendr Trawsyrro ar y Môr a Ailgodir	1,842	2,170
Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (yn ymwneud â rhaglenni amgylcheddol a throsglwyddo staff)	19,038	18,528
Taliadau a ailgodir a ariennir gan y cynllun	2,590	3,134
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (yn ymwneud â chostau swyddfeydd wedi'u rhannu a throsglwyddo staff)	1,378	1,673
Adrannau eraill	1,344	1,256
Amrywiol*	218	519
	26,410	27,280

*Mae incwm amrywiol yn cynnwys ffioedd ar gyfer ceisiadau am drwydded, a mân eitemau eraill.

6. Eiddo, offer a chyfarpar

	Offer	Cyfarpar swyddfa	Technoleg gwybodaeth	Gwaith lesddaliannol	Asedau a Adeiledir ⁵	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000		£000
Cost neu brisiad						
Ar 1 Ebrill 2016	167	2,344	5,579	5,817	-	13,907
Ychwanegiadau	168	-	1,191	77	62	1,498
Ailddosbarthiadau	-	145	-	(145)	-	-
Ar 31 Mawrth 2017	335	2,489	6,770	5,749	62	15,405
Dibrisiant						
Ar 1 Ebrill 2016	154	2,161	4,288	4,826	-	11,429
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	12	135	815	490	-	1,452
Ar 31 Mawrth 2017	166	2,296	5,103	5,316	-	12,881
Swm cario ar 31 Mawrth 2017	169	193	1,667	433	62	2,524
Swm cario ar 31 Mawrth 2016	13	183	1,291	991	-	2,478
Ariannu asedau:	169	193	1,667	433	62	2,524
Swm cario asedau a berchenogir ar 31 Mawrth 2017	169	193	1,667	433	62	2,524

	Offer	Cyfarpar swyddfa	Technoleg gwybodaeth	Gwaith lesddaliannol	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2015	167	2,527	5,190	5,767	13,651
Ychwanegiadau	-	5	487	50	542
Gwarediadau	-	(188)	(98)	-	(286)
Ar 31 Mawrth 2016	167	2,344	5,579	5,817	13,907
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2015	149	2,204	3,534	4,341	10,228
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	5	145	852	485	1,487
Gwarediadau	-	(188)	(98)	-	(286)
Ar 31 Mawrth 2016	154	2,161	4,288	4,826	11,429
Swm cario ar 31 Mawrth 2016	13	183	1,291	991	2,478
Swm cario ar 31 Mawrth 2015	18	323	1,656	1,426	3,423
Ariannu asedau:	13	183	1,291	991	2,478
Swm cario asedau a berchenogir ar 31 Mawrth 2016	13	183	1,291	991	2,478

⁵Mae a wnelo asedau a adeiledir â chostau 3ydd llawr Commonwealth House yn Glasgow cyn llofnodi'r cytundeb prydles

7. Ymrwymiadau o dan brydlesau

Prydlesau gweithredu

Nodir cyfanswm yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Mae'r rhwymedigaeth o dan brydlesau gweithredu ar gyfer y cyfnodau canlynol yn cynnwys:		
Adeiladau:		
O fewn blwyddyn	6,300	6,203
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	1,932	7,803
Ar ôl pum mlynedd	-	-
	8,232	14,006

Disgwylir i bencadlys Ofgem symud o Millbank i Canary Wharf yn ystod 2017-18. Gan nad yw'r cytundeb prydles wedi'i lofnodi mae ymrwymiadau prydles weithredol yn cynnwys Millbank a Glasgow (adeiladau Cornerstone a Commonwealth House) yn unig.

Pan ymrwymwyd i'r brydles ar ein pencadlys yn Millbank yn 2000, cawsom bremiwm gwrthdro lesddaliad gan y landlord. £75,000 yw gweddill y premiwm gwrthdro. Caiff hyn ei ddefnyddio ar sail llinell syth dros dymor y brydles hyd at y dyddiad y byddwn yn gadael Millbank yn 2017-18. Datgelir hyn yn Nodyn 12.

7.1 Ymrwymiadau ariannol eraill

Ar 31 Mawrth 2017, nid oeddem wedi ymrwymo i unrhyw gontractau perthnasol na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesau gweithredu).

8. Incwm yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau gweithredu na ellir eu canslo

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Adeiladau:		
O fewn blwyddyn	1,583	1,583
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	364	1,948
	1,947	3,531

Mae'r wybodaeth uchod am brydlesau yn ymwneud ag is-osod lloriau yn ein pencadlys yn Llundain i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig o dan gytundeb Memorandwm o Delerau Meddiannu (MOTO).

9. Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy'r broses amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig wrth greu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwylidig yr adran. Felly, nid ydym yn cael ein hamlygu i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

10. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill	25,355	21,178
Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	(4,050)	4,177
Ar 31 Mawrth	21,305	25,355
Daliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn:		
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	21,305	25,355
Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw	-	-
Balans ar 31 Mawrth	21,305	25,355

Yn ogystal â'r balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i hynny a ddatgelir uchod, mae Ofgem yn dal asedau trydydd parti arian parod a llythyrau credyd sy'n ymwneud â sicred datblygwyr tendrau ar y môr, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, a chronfa lefelu Tariffau Cyflenwi Trydan. Disgrifir y rhain yn Nodyn 16.

11. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:	£000	£000
Symiau masnach derbyniadwy	3,246	656
Incwm a gronnwyd	3,605	4,062
Cymhelliant prydles a gronnwyd	3,514	-
Rhagdaliadau	4,454	3,581
Cyllid a Thollau EM (TAW)	540	389
Symiau derbyniadwy staff	231	231
Balans ar 31 Mawrth	15,590	8,919

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:	£000	£000
Cymhelliant prydles a gronnwyd	-	1,977
Balans ar 31 Mawrth	-	1,977

Mae symiau derbyniadwy staff yn cynnwys benthyciadau sy'n weddill, y mae £217k o'r swm hwnnw yn ymwneud â benthyciadau tocyn tymor i gyflogaion, ac y mae £7k yn ymwneud â'r cynllun seiclo i'r gwaith.

12. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	2016-17	2015-16
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:	£000	£000
Trethiant arall a nawdd cymdeithasol	1,180	1,035
Symiau masnach taladwy	43	133
Symiau taladwy staff	1,599	1,285
Ffioedd trwydded gohiriedig	3,529	14,506
Premiwm gwrthdro lesddaliad	75	316
Cymhelliant lesddaliadol	565	689
Croniadau ac incwm gohiriedig arall	3,904	4,775
Symiau a roddwyd o'r gronfa gyfunol i'w cyflenwi ond nas gwariwyd erbyn diwedd y flwyddyn	21,305	15,755
Derbyniadau arian parod dros ben	-	9,600
Balans ar 31 Mawrth	32,200	48,094

	2016-17	2015-16
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:	£000	£000
Premiwm gwrthdro lesddaliad	-	75
Cymhelliant lesddaliadol	-	460
Balans ar 31 Mawrth	-	535

Ym mis Chwefror 2015 llofnododd Ofgem gytundeb i ildio ei hawliau o dan Ddeddf Landlord a Tenant 1954, mewn perthynas â'i bencadlys yn Millbank. O dan y cytundeb bydd Ofgem yn gadael yr adeilad erbyn 23 Mehefin 2018 fan bellaf, yn hytrach nag arfer ei hawl i barhau â'r brydles tan y torbwynt nesaf ym mis Mehefin 2017.

Er mwyn cydnabod bod Ofgem wedi ildio ei hawliau, mae Berkeley Homes, yr ymrwymodd y landlord i gontract i ailddatblygu Millbank, wedi cytuno i dalu £5.25 miliwn i Ofgem.

Mae'r swm o £5.25 miliwn yn cynnwys adnau o £0.25 miliwn a oedd yn daladwy ar adeg llofnodi (mis Chwefror 2015). Roedd y cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i Berkeley Homes dalu'r adnau hwn i bwy bynnag a gyfarwyddwyd gan Ofgem. Cyfarwyddodd Ofgem y dylid talu'r swm i'r asiantau a negododd y cytundeb. Ni chafodd Ofgem unrhyw daliad.

Bydd Ofgem yn derbyn y £5.0 miliwn sy'n weddill pan fydd yn gadael Millbank, ac mae wedi cael ei drin fel cymhelliant prydles dros y cyfnod disgwylidig nes iddo adael Millbank. Mae'r swm a gronnwyd yn ystod 2016-17 wedi'i gynnwys o fewn incwm a gronnwyd yn nodyn 11.

Yn ystod 2016-17 rhoddodd Trysorlys EM ganiatâd i Ofgem gadw derbynebau arian parod dros ben y flwyddyn flaenorol, sef £9.6m, yn hytrach na gofyn am arian parod ychwanegol drwy'r Amcangyfrif Atodol.

13. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

13.1 Ymddeol yn gynnar

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill	239	332
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	56	16
Darpariaethau diangen a adferwyd	-	(9)
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(93)	(100)
Darpariaeth ar 31 Mawrth	202	239

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Dadansoddiad o amseriad disgwylidig llifau arian parod wedi'u disgowntio	£000	£000
O fewn blwyddyn	18	64
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	90	87
Ar ôl pum mlynedd	94	88
Balans ar 31 Mawrth	202	239

Yr adran sy'n talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS i gyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar drwy dalu'r symiau gofynnol yn fisol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng yr ymadawiad cynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Mae'r adran yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar yn ei rwydo drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau amcangyfrifedig a ddisgowntiwyd yn unol â chyfradd ddisgowntio'r Trysorlys, sef 0.24 (2015-16: 1.37) y cant mewn termau real.

13.2 Rhwymedigaethau pensiwn

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Darpariaeth ar 1 Ebrill	762	779
Cost llog	27	27
Taliadau buddiannau gwirioneddol (Ennill)/colled actiwaraid	(18)	(18)
Cost gwasanaeth yn y gorffennol	-	-
Darpariaeth ar 31 Mawrth	827	762
Symudiad net yn ystod y flwyddyn (heb gynnwys ennill/colled actiwaraid)	9	9

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Hanes colledion profiad		
Ennill profiad sy'n deillio o rwymedigaethau'r cynllun	(2)	(8)
Y swm a gydnabuwyd fel canran gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(2.2%)	(1.0%)
Cyfanswm a gydnabuwyd mewn datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr	56	(26)

Mae'r ddarpariaeth bensiwn ar gyfer y rhwymedigaethau pensiwn heb eu talu sy'n dod i'n rhan ar gyfer cyn-brif weithredwr a chyfarwyddwr cyffredinol. Nid yw'r ddarpariaeth bensiwn wedi'i hariannu, gyda'r buddiannau'n cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a'u gwarantu gan Ofgem. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Rydym wedi ceisio cyngor actiwaraid er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth a bennwyd ar lefel realistig.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraid gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2017. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

	At 31 Mawrth 2017	At 31 Mawrth 2016
	% (y flwyddyn)	% (y flwyddyn)
Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant - CPI	2.55	2.20
Cyfradd y cynnydd ar gyfer pensynau mewn taliadau ac incwm gohiredig	2.55	2.20

	2016-17	2015-16	2014-15
	£000	£000	£000
Dadansoddi colled actiwaraid			
(Ennill)/colli profiad sy'n deillio o rwymedigaethau'r cynllun	(2)	(8)	(3)
Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	58	(18)	24
Yn unol â'r datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr	56	(26)	21

O 31 Mawrth 2017, newidiodd y gyfradd ddisgownt ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn o 1.37% i 0.24%. Adlewyrchir y gyfradd hon ym mhriasiad rhwymedigaeth y cynllun pensiwn ar 31 Mawrth 2017.

13.3 Dadfeiliadau

	2016-17
	£000
Darpariaeth ar 1 Ebrill	-
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	50
Darpariaeth ar 31 Mawrth	50

	2016-17
	£000
Dadansoddiad o amseriad disgwylidig llifau arian parod allan	£000
O fewn blwyddyn	32
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	18
Ar ôl pum mlynedd	-
Balans ar 31 Mawrth	50

Ym mis Mai 2017 llofnododd Ofgem gytundeb i gwtogi'r brydles ar gyfer swyddfa Cornerstone yn Glasgow. O dan y cytundeb hwn bydd Ofgem yn ildio'r ail a'r trydydd llawer erbyn 29 Awst 2017. O'r dyddiad hwn bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn ymrwmo i gytundeb prydles newydd ar gyfer y lle gwag.

Mae parodrwydd HSE i dderbyn trosglwyddo'r eiddo yn weinyddol yn amodol ar ddyrannu costau dadfeiliadau hanner a hanner rhwng Ofgem a HSE.

13.4 Darpariaeth Ymadael Gwirfoddol

	2016-17
	£000
Darpariaeth ar 1 Ebrill	-
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	340
Darpariaeth ar 31 Mawrth	340

	2016-17
	£000
Dadansoddiad o amseriad disgwylidig llifau arian parod allan	£000
O fewn blwyddyn	340
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	-
Ar ôl pum mlynedd	-
Balans ar 31 Mawrth	340

Cytunwyd ar nifer o daliadau ymadael gwirfoddol â Swyddfa'r Cabinet ac unigolion. Mae'r rhain yn deillio o ad-drefnu mewnol o fewn yr is-adran Gwasanaethau Corfforaethol.

14. Rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir o dan IAS 37

O bryd i'w gilydd byddwn yn destun her gyfreithiol ac adolygiad barnwrol o benderfyniadau a wneir yn ystod ein busnes arferol fel rheoleiddiwr y marchnadoedd nwy a thrydan. Gallai dyfarniadau cyfreithiol arwain at atebolrwydd i dalu costau cyfreithiol ond ni ellir mesur y rhain gan y byddai canlyniad yr achos yn anhysbys. Felly, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â natur a graddau unrhyw rwymedigaeth ganlyniadol.

Ar 31 Mawrth 2017 nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol yr oedd angen eu datgelu.

15. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd £6.525 miliwn i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Roedd £5.670 miliwn o hwn ar gyfer costau cysylltiedig â'r sector ynni Llais y Defnyddiwr (yn gweithredu fel Dyfodol Defnyddwyr) a Cyngor ar Bopeth. Trosglwyddwyd y £0.855 miliwn oedd yn weddill ar gyfer gwasanaethau metroleg.

Rydym yn gweinyddu rhaglenni amgylcheddol ar ran yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ac yn secondio staff i'r adran honno. Roedd yr incwm gan yr Adran a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn yn gwneud cyfanswm o £19.038 miliwn.

Gwnaethom is-osod rhan o'n safle yn Millbank i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Rydym yn gweinyddu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi, ac yn gweinyddu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau. Yr incwm a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn oedd £1.378 miliwn gan DEFRA, £0.126 miliwn gan Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau, a £0.280 miliwn gan Adran yr Economi.

Yn ogystal, rydym wedi ymgymryd â nifer fach o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrrff llywodraeth ganolog.

Nid oes dim un o aelodau'r Awdurdod, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol ag Ofgem yn ystod y flwyddyn a nodir ar dudalen 54.

16. Asedau trydydd partïon

Sicred Datblygwyr Tendrau ar y Môr

Ynghyd â'r llywodraeth, rydym wedi sefydlu cyfundrefn reoleiddio trawsyrru ar y môr gystadleuol i benodi perchennog Trawsyrru ar y Môr drwy broses dendro gystadleuol.

Ni sy'n gyfrifol am reoli'r broses dendro gystadleuol y rhoddir trwyddedau trawsyrru ar y môr drwyddi.

Mae rhoi trwyddedau i weithredu asedau trawsyrru ar y môr newydd drwy broses dendro gystadleuol yn golygu y caiff cynhyrchwyr ynni eu partneru â'r chwaraewyr mwyaf effeithlon a chystadleuol yn y farchnad. Dylai hyn arwain at gostau is a safonau gwasanaeth uwch i gynhyrchwyr ynni ac, yn y pen draw, y defnyddwyr.

Rhan o strategaeth rheoli risg Ofgem ar gyfer y broses dendro gystadleuol yw dal sicred at ddibenion adennill costau os na chwblheir proses dendro. Mae'r sicred hwn ar ffurf llythyr credyd neu arian parod. Ar 31 Mawrth 2017 roedd Ofgem yn dal £9.950m mewn llythyrau credyd (2015-16 £5.315m) a £1.550m mewn arian parod (2015-16 £dim).

Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

Nod y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy'r Alban a Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon yw rhoi cymhelliant i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y farchnad cynhyrchu trydan. Cyflwynwyd y cynlluniau hyn gan yr Adran Masnach a Diwydiant (yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol bellach), Gweinyddiaeth yr Alban a'r Adran Menter, Masnach a Buddsoddi yn y drefn honno a chânt eu gweinyddu gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan y cyflawnir ei swyddogaethau o ddydd i ddydd gan Ofgem. Darperir ar gyfer y cynlluniau mewn is-ddeddfwriaeth ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr trydan trwyddedig gael cyfran benodol o'r trydan a gyflenwir ganddynt o ffynonellau adnewyddadwy neu wneud taliad i gronfa prynu cyfran, neu gyfuniad o'r ddau. Mae Tystysgrif Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn dystiolaeth bod cyflenwr wedi cael ei drydan o ffynonellau adnewyddadwy.

Mae pob taliad prynu cyfran yn mynd i mewn i'n cronfa prynu cyfran ar gyfer cyfnod cydymffurfio penodol. Yna caiff y taliadau hyn (gan gynnwys taliadau hwyr) eu hailddosbarthu i gyflenwyr erbyn canol mis Tachwedd ar ôl diwedd y cyfnod cydymffurfio (sy'n rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth bob blwyddyn) i'r rhai sydd wedi cyflwyno Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. Fel arfer mae'r balans yn y gronfa prynu cyfran yn werth bach iawn ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Y swm a ddaliwyd yn y gronfa prynu cyfran ar 31 Mawrth 2017 oedd £30 (31 Mawrth 2016: £362).

Cronfeydd lefelu Tariff Cyflenwi Trydan

Mae'r cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT) yn rhaglen a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ar 1 Ebrill 2010 i annog pobl i ddefnyddio technolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r cynllun ar ran yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, sy'n gyfrifol am bolisi a deddfwriaeth y cynllun FIT ac mae Cyflenwyr Trydan Trwyddedig (Trwyddedeion FIT) yn gweithredu'r agwedd ar y cynllun sy'n wynebu'r cyhoedd. Os bydd gan ddeiliad tŷ, cymuned neu fusnes osodiad cymwys, telir tariff iddynt am y trydan a gynhyrchir ganddynt a thariff am y trydan a allforir ganddynt yn ôl i'r grid gan eu Trwyddedai FIT.


Mae'r broses lefelu a weithredir gan Ofgem yn ailddosbarthu cost y cynllun ymhlith yr holl Gyflenwyr Trydan Trwyddedig, yn seiliedig ar eu cyfran o Farchnad Drydan Prydain Fawr ac unrhyw Daliadau FIT a wnaed ganddynt i osodiadau achrededig. Proses chwarterol yw hon, gyda phroses gysoni flynyddol a gwblheir erbyn mis Medi bob blwyddyn. Fel arfer, mae'r balans yn y gronfa lefelu yn werth bach ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Y swm a ddaliwyd yn y gronfa lefelu ar 31 Mawrth 2017 oedd £109,337 (31 Mawrth 2016: £93,289).

17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ar ddyddiad cyflwyno tystysgrif archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

Datganiad Ymddiriedaeth



Rhagair y swyddog cyfrifyddu i'r datganiad ymddiriedaeth

Cwmpas

Rheolir Ofgem gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan. Nodir cyfrifoldebau'r Awdurdod yn Neddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfleustodau 2000, Deddf Ynni 2004, Deddf Ynni 2008, Deddf Ynni 2010, Deddf Ynni 2011, Deddf Ynni 2013, Deddf Ynni 2016 a deddfwriaeth gysylltiedig.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am orfodi a chasglu dirwyon a chosbau a osodir ar y cwmnïau ynni y mae'n eu rheoleiddio, a chasglu ardollau tanwydd ffosil Cymru a Lloegr, a'r Alban.

Mae'r datganiad ymddiriedaeth yn adrodd ar y referniw a'r gwariant a'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â dirwyon, cosbau a'r ardollau tanwydd ffosil ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17. Casglwn y symiau hyn er mwyn eu talu i'r gronfa gyfunol.

Paratwir y datganiad hwn hefyd i ddatgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol nas cymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Ni fu unrhyw wariant nac incwm o'r fath yn ystod 2016-17.

Cefndir

Cosbau

O dan Ddeddf Nwy 1986 a Deddf Trydan 1989 gall yr Awdurdod osod cosb statudol os yw'n fodlon bod deiliad trwydded wedi mynd yn groes neu yn mynd yn groes i unrhyw ofyniad neu amod perthnasol, neu wedi methu neu yn methu â chyflawni unrhyw safon ragnodedig o berfformiad.

Ni all unrhyw gosb a osodir gan yr Awdurdod fod yn fwy na 10% o drosiant deiliad y drwydded. Caiff unrhyw symiau a osodir gan yr Awdurdod drwy gyfrwng cosb statudol eu talu i mewn i'r gronfa gyfunol. Yn 2016-17, cafwyd cyfanswm o £2 mewn cosbau nominal. Defnyddir cosbau nominal lle y deuir i benderfyniad ynghylch achosion a thelir taliadau unioni.

Mae'r Awdurdod yn hysbysu deiliad y drwydded ei fod yn cynnig gosod cosb ac mae'n ymgynghori ar hyn yn gyhoeddus.

Ardoll Tanwydd Ffosil

Nod Gorchmynion Rhwymedigaeth i Danwydd nad yw'n Danwydd Ffosil (NFFO) (Cymru a Lloegr) oedd creu marchnad gychwynnol ar gyfer technolegau cynhyrchu adnewyddadwy sefydledig, yn y gobaith y byddent yn y pen draw yn gallu cystadlu heb gymorth ariannol. Roedd Gorchmynion NFFO yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyn-gyflenwyr trydan cyhoeddus (PESs) brynu swm penodol o drydan o ffynonellau adnewyddadwy. Talwyd am gostau ychwanegol cyflenwyr trydan cyhoeddus yr aethpwyd iddynt wrth brynu trydan o ffynonellau adnewyddadwy drwy gyfrwng yr Ardoll Tanwydd Ffosil.

Gyda newidiadau i Ddeddf Cyfleustodau 2000 (h.y. cyflwyno Trefniadau Masnachu Trydan Newydd (NETA)) a chyflwyno Gorchymynion Arbed NFFO, daeth yr Asiantaeth Prynu nad yw'n Gysylltiedig â Ffossil (NFFPA) yn brynwr allbwn ar gyfer y cynhyrchwyr ynni NFFO hyn ar y pris contract gwarantedig. Mae NFFPA yn gwerthu'r allbwn i gyflenwyr trydan (drwy arwerthiannau ar-lein) ac mae ganddi hawl i gael arian ardollau i wneud iawn am unrhyw ddiffyg.

Ariannodd yr Ardoll Tanwydd Ffossil y gwahaniaeth rhwng y prisiau contract a warantwyd i'r cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy a phris marchnad trydan. Er i bris y farchnad barhau i fod yn is na'r pris gwarantedig, gwnaed iawn am ddiffyg refeniw'r Ardoll Tanwydd Ffossil (FFL). Casglodd cyflenwyr trydan trwyddedig FFL oddi wrth gwsmeriaid, ar y gyfradd a bennwyd gennym, a thalwyd yr arian hwn i ni i'w ailddosbarthu i gynhyrchwyr ynni cymwys.

Mae gan gyflenwyr sy'n prynu allbwn oddi wrth gynhyrchwyr ynni NFFO yr hawl i gael y Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (ROCs) cysylltiedig. Ar hyn o bryd, mae prinder tystysgrifau o'r fath, felly mae pris arwerthiant cyfartalog allbwn o gontractau NFFO yn fwy na'r pris cyfartalog a warentir i'r cynhyrchwyr ynni ar hyn o bryd o dan gontractau NFFO. Felly, sero yw'r gyfradd ardollau gyfredol a bennir gennym ni. Pan fydd pris arwerthiant allbwn yn fwy na'r pris gwarantedig, telir unrhyw warged i mewn i'n cyfrifon FFL. Ceir trefniant tebyg ar gyfer gweinyddu FFL yr Alban.

Oherwydd y contractau NFFO sy'n weddill sy'n dod i ben yn ystod y ddwy flynedd nesaf, bydd lefel yr incwm o'r ddau gynllun FFL yn parhau i ostwng.

Creodd Deddf Ynni Cynaliadwy 2003 system lle'r oedd gwarged yr FFL, hyd at uchafswm o £60 miliwn, yn gallu cael ei drosglwyddo o gyfrif ardollau Cymru a Lloegr i'r gronfa gyfunol. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ddyletswydd i wario'r swm at ddiben hyrwyddo'r defnydd o ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Cafodd darpariaeth debyg ei chynnwys ym Mil Ynni Gweithrediaeth yr Alban sy'n ymwneud â chyfrif ardollau'r Alban.

O ganlyniad i fynd y tu hwnt i'r terfyn o £60 miliwn, caiff pob derbyniad FFL arall ei thrin fel refeniw etifeddol, gan eu bod yn dderbyniadau anstatudol. Mae Adran 1 o Ddeddf Rhestr Sifil 1952 yn ei gwneud yn ofynnol i refeniw etifeddol gael ei dalu i mewn i'r gronfa gyfunol. Ar 30 Mawrth 2017, trosglwyddwyd £8.6 miliwn i'r gronfa gyfunol o gyfrif Cymru a Lloegr ar y sail hon.

Ar y cyd â'r Trysorlys, caiff tua £30 miliwn ei gadw fel isafswm balans ar gyfrif FFL Cymru a Lloegr. Mae'r swm hwn yn cynrychioli ardoll a dalwyd gan ddefnyddwyr cyn i'r gyfradd gael ei lleihau i 0% ar 1 Ebrill 2002, ac y cytunir y dylid ei chadw yn y cyfrif, fel cronfa wrth gefn, rhag ofn y bydd yn rhaid i ni unwaith eto wneud taliadau i gynhyrchwyr ynni cymwys.

O dan adran 187 o Ddeddf Ynni 2004, gall Llywodraeth yr Alban ein gorchymyn i dalu swm o gyfrif ardollau'r Alban i gronfa gyfunol yr Alban. Ni chafwyd gorchymyn o'r fath yn ystod 2016-17.

Adolygiad ariannol

Eleni gwnaethom osod cosbau ar gwmnïau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud iawn i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt neu fel arall gefnogi buddiannau defnyddwyr ynni. Mae'r adolygiad ariannol hwn yn ymdrin â chosbau a arweiniodd at ddsbarthu arian i'r gronfa gyfunol.

ScottishPower

Ar 8 Mehefin 2016 cyhoeddwyd hysbysiad gennym yn cadarnhau ein penderfyniad i osod cosb statudol o £1, a thaliadau unioni o £18 miliwn (llai £1), ar ScottishPower yn dilyn ymchwiliad gan Ofgem i gydymffurfiaeth ScottishPower â nifer o amodau a gofynion perthnasol a nodir yn yr Amodau Trwydded Safonau Cyflenwi a'r Rheoliadau Trin Cwynion Defnyddwyr.

Mae'r Amodau hyn yn nodi'r rheolau ar sut y gall trwyddedau weithredu o fewn telerau eu trwyddedau cyflenwi nwy a thrydan. Mae'r Rheoliadau Trin Cwynion Defnyddwyr yn rhagnodi'r safonau gofynnol y mae'n ofynnol i ddarparu'r rheoledig eu cyflawni wrth drin cwynion defnyddwyr.

Cytunodd ScottishPower i dalu £17,999,999 mewn taliadau unioni defnyddwyr. O'r swm unioni arfaethedig, bydd hyd at £15 miliwn yn mynd i gwsmeriaid agored i niwed yr effeithiodd methiannau ScottishPower arnynt yn uniongyrchol. Bydd o leiaf £3 miliwn yn mynd i National Energy Action ac Energy Action Scotland, sy'n cydweithio â Chymorth Canser MacMillan.

Nwy Prydain

Ar 27 Ionawr 2017, cyhoeddwyd hysbysiad gennym yn cadarnhau ein penderfyniad i osod cosb statudol o £1, a thaliadau unioni o £4.5 miliwn (llai £1), ar Nwy Prydain yn dilyn ymchwiliad gan Ofgem i gydymffurfiaeth Nwy Prydain ag Amod Trwydded Safonol 12 o Amodau Trwydded Safonau Cyflenwi Trydan, o ran uwch fesuryddion ar gyfer safleoedd annomestig.

Cytunodd Nwy Prydain i dalu cosb o £4,499,999 mewn taliadau unioni defnyddwyr i'r Ymddiriedolaeth Garbon. Defnyddir yr arian hwn i helpu busnesau ledled Prydain Fawr i arbed ynni drwy archwiliadau a chynghor arbed ynni, a gosod mesurau effeithlonrwydd ynni.

Ardoll Tanwydd Ffossil

Yn ystod 2016-17, gwnaethom gasglu £9.4 miliwn mewn perthynas ag ardoll Cymru a Lloegr, a £3.7 miliwn mewn perthynas ag ardoll yr Alban. Talwyd £8.6 miliwn o ardoll Cymru a Lloegr i'r gronfa gyfunol. Mae'r lleihad yn y symiau a gasglwyd o'i gymharu â 2015-16 yn adlewyrchu lleihad yn nifer y contractau NFFO. Bydd y lleihad hwn yn parhau tan 2018-19 pan ddaw'r contractau olaf i ben. Adenillir y costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r ddwy ardoll o'r ardoll gennym ni ac fe'u dangosir fel incwm yn ein cyfrifon adnoddau.

Archwilwyr

Archwilir y datganiad ymddiriedaeth gan y rheolwr ac archwilydd cyffredinol o dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r farn archwilio ar dudalennau 95 i 96. Cynhwysir cydnabyddiaeth dybiannol yr archwilydd ar gyfer hyn yn ein cyfrifon adnoddau.

Nid oedd dim ffioedd ar gyfer gwaith nad oedd yn waith archwilio.

Sail y paratoi

Mae Cyfarwyddyd Cyfrifon Trysorlys EM, a gyhoeddwyd o dan adran 7(2) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi'r datganiad ymddiriedaeth er mwyn rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa o ran derbyn a throsglwyddo arian yr FFL, a dirwyon a chosbau. Rhoddir ystyriaeth i'r holl ofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a roddir yn Rheoli Arian Cyhoeddus a chanllawiau eraill a gyhoeddir gan y Trysorlys.

Barnau cyfrifyddu

Fel swyddog cyfrifyddu, fy nghyfrifoldeb i yw cymhwyso polisiau cyfrifyddu addas wrth baratoi'r datganiad ymddiriedaeth. Cydnabyddir refeniw yn y mis y mae'r ardoll yn ymwneud ag ef.

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd.



Dermot Nolan

Swyddog cyfrifyddu

16 Mehefin 2017

Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu mewn perthynas â'r datganiad ymddiriedaeth

O dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) i baratoi datganiad ymddiriedaeth ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon.

Mae'r Trysorlys wedi penodi'r prif weithredwr fel swyddog cyfrifyddu Ofgem, gyda chyfrifoldeb cyffredinol am baratoi'r datganiad ymddiriedaeth ac am ei drosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Mae cyfrifoldebau swyddog cyfrifyddu, yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae swyddog cyfrifyddu yn gyfrifol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu ein hasedau, wedi'u nodi ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Paratwir y datganiad ymddiriedaeth ar sail cronïadau a rhaid iddo roi darlun gwir a theg o'r sefyllfa o ran dirwyon a chosbau a osodir gan Ofgem, a'r Ardoll Tanwydd Ffossil ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban a gesglir gennym ni, ynghyd â'r symiau net a ildwyd i'r gronfa gyfunol.

Wrth baratoi'r datganiad ymddiriedaeth, mae'n ofynnol i'r swyddog cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a baratowyd gan y Trysorlys a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrth y cyfrifon
- paratoi'r datganiad ymddiriedaeth ar sail busnes byw.

Datganiad llywodraethu

Mae datganiad llywodraethu Ofgem, sy'n cwmpasu cyfrifon yr adnoddau a'r datganiad ymddiriedaeth, ar dudalennau 46 i 52.

Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi aswiriant rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan ac wedi'u cymhwysu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan; a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau ariannol yn gyffredinol. Rwyf hefyd wedi darllen yr holl wybodaeth Ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a rhagair y Swyddog Cyfrifyddu i'r Datganiad Ymddiriedaeth er mwyn nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd aswiriant bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd sylweddol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.



Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan ar 31 Mawrth 2017, ac o'r refeniw net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol a rhagair y Swyddog Cyfrifyddu i'r Datganiad Ymddiriedaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am y materion canlynol y byddaf yn adrodd amdanynt wrthy ch os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd datgeliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r datgeliadau cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Sir Amyas C E Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road Victoria,
Llundain SW1W 9SP

23 Mehefin 2017

Datganiad o refeniw, ac incwm a gwariant arall am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

		2016-17	2015-16
	Nodyn	£000	£000
Refeniw			
Dirwyon a chosbau			
Cosbau a osodwyd	2.1	-	-
Ardoll Tanwydd Ffosil			
Ardoll Tanwydd Ffosil (Cymru a Lloegr)		6,721	20,529
Ardoll Tanwydd Ffosil (Yr Alban)		3,622	5,595
Incwm arall			
Llog ar gosbau		-	-
Llog ar Ardoll Tanwydd Ffosil (Cymru a Lloegr)		60	124
Llog ar Ardoll Tanwydd Ffosil (Yr Alban)		66	102
Cyfanswm y refeniw ac incwm arall		10,469	26,350
Gwariant			
Gweinyddu'r Ardoll Tanwydd Ffosil		(57)	(67)
Cyfanswm y gwariant		(57)	(67)
Refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol		10,412	26,283

Ni fu unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig y cyfrifwyd amdanynt y tu allan i'r datganiad uchod o refeniw ac incwm a gwariant arall.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 100 i 102 yn rhan o'r datganiad hwn.

Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2017

		2016-17	2015-16
		£000	£000
	Nodyn		
Asedau cyfredol			
Symiau derbyniadwy a refeniw cronedig derbyniadwy	3	1,020	3,773
Arian parod yn y banc - cronfa gyfunol y DU		29,915	29,111
Arian parod yn y banc - cronfa gyfunol yr Alban		41,045	37,291
Asedau cyfredol net		71,980	70,175
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau taladwy a rhwymedigaethau gwariant cronedig	4	(2)	(9)
Cyfanswm asedau net		71,978	70,166
Cynrychiolir gan:			
Balans ar gyfrif cronfa gyfunol y DU		30,268	32,134
Balans ar gyfrif cronfa gyfunol yr Alban		41,710	38,032
	5	71,978	70,166



Dermot Nolan
Swyddog cyfrifyddu

16 Mehefin 2017

Datganiad o lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu	13,159	33,812
Arian parod a dalwyd i'r cronfeydd cyfunol	(8,600)	(28,000)
Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod	4,559	5,812

Nodiadau i'r datganiad llif arian parod**A: Cysoni llif arian parod net i symudiadau mewn cronfeydd net**

		2016-17	2015-16
	Nodyn	£000	£000
Refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol		10,412	26,283
Gostyngiad mewn asedau nad ydynt yn arian parod	3	2,754	7,532
Gostyngiad mewn rhwymedigaethau	4	(7)	(3)
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu		13,159	33,812

B: Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod	4,559	5,812
Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2016	66,402	60,590
Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2017	70,961	66,402

Mae'r nodiadau ar dudalennau 100 i 102 yn rhan o'r datganiad hwn.

Nodiadau i'r datganiad ymddiriedaeth

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

1.1 Sail cyfrifyddu

Paratwir y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys o dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 ac yn unol â'r polisiau cyfrifyddu a nodir isod. Cytunwyd ar y rhain rhwng Ofgem a'r Trysorlys ac fe'u datblygwyd drwy gyfeirio at y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a chanllawiau perthnasol eraill. Mae'r polisiau cyfrifyddu wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yr incwm a'r gwariant cysylltiedig a geir yn y datganiadau hyn yw'r llifau hynny o gronfeydd y mae Ofgem yn ymdrin â hwy ar ran y gronfa gyfunol a lle y mae'n gweithredu fel asiant yn hytrach na phenadur.

Caiff y wybodaeth ariannol a geir yn y datganiadau ac yn y nodiadau ei thalgrynny i'r £1,000 agosaf.

1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

1.3 Cydnabod refeniw

Mesurir dirwyon, cosbau ac ardollau yn unol ag IAS 18. Fe'u mesurir ar werth teg y symiau a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy. Cydnabyddir incwm pan fydd y canlynol yn berthnasol:

- gosodir dirwy neu gosb yn ddilys a bydd rhwymedigaeth i dalu yn codi
- daw taliad ardoll yn ddyledus.

2. Refeniw

2.1 Dirwyon a chosbau

Yn ystod 2016-17 a 2015-16 dim ond cosbau nominal a gafwyd gan Ofgem.

3. Symiau derbyniadwy a refeniw cronedig derbyniadwy

	Refeniw cronedig derbyniadwy ar 31 Mawrth 2017	Cyfanswm ar 31 Mawrth 2017	Cyfanswm ar 31 Mawrth 2016
	£000	£000	£000
Dirwyon a chosbau	-	-	-
Ardoll Tanwydd Ffosil	1,020	1,020	3,773
Cyfanswm	1,020	1,020	3,773

Symiau derbyniadwy yw'r symiau sy'n deillio o'r rhai y gosodwyd cosbau ariannol arnynt neu lle yr aseswyd ardoll ar ddyddiad y fantolen, ond lle y ceir derbyniad wedi hynny.

Nid yw'r cosbau nominal derbyniadwy yn dangos oherwydd talgrynnu.

4. Symiau taladwy a rhwymedigaethau gwariant cronedig

	Symiau taladwy ar 31 Mawrth 2017	Cyfanswm ar 31 Mawrth 2017	Cyfanswm ar 31 Mawrth 2016
	£000	£000	£000
Ardoll Tanwydd Ffosil	2	2	9
Cyfanswm	2	2	9

Symiau taladwy yw'r symiau y cadarnhawyd eu bod yn ddyledus ar ddyddiad y fantolen, ond lle y gwneir taliad wedi hynny.

5. Balans ar gyfrifon y Gronfa Gyfunol

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol	70,166	71,883
Refeniw net ar gyfer cyfrifon y gronfa gyfunol	10,412	26,283
Llai swm a dalwyd i'r gronfa gyfunol	(8,600)	(28,000)
Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol ar 31 Mawrth	71,978	70,166

Atodiadau





Atodiad I

Perfformiad yn erbyn nodau i'w cyflawni 2016–17

Roedd ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2016-17 yn cynnwys nodau i'w cyflawni ym mhob chwarter. Strwythurodd y Flaenraglen Waith ar gyfer 2016-17 nodau i'w cyflawni yn ôl ein hallbynnau strategol.

Mae'r tabl isod a'r manylion ar y tudalennau canlynol yn dangos y nodau a gyflawnwyd gennym.

	Nifer yn y Flaenraglen Waith	Cyfanswm a gyflawnwyd (heb gynnwys camau gweithredu chwarterol)		Gohiriwyd tan 2017-18
		Cyflawnwyd mewn chwarter	Cyflawnwyd mewn chwarter diweddarach	
Blwyddyn lawn				
Cyfanswm am y flwyddyn	34	27	4	3
Chwarter cyntaf				
Cyfanswm y chwarter	4	2	2	-
Ail chwarter				
Cyfanswm y chwarter	9	9	-	-
Trydydd chwarter				
Cyfanswm y chwarter	12	10	2	-
Pedwerydd chwarter				
Cyfanswm y chwarter	9	6	-	3



Rheoleiddio cwmnïau rhwydwaith a monopoliau eraill		
Cam gweithredu	Chwarter Disgwyliedig	Chwarter Gwirioneddol
Cwblhau Proses Iteriad Flynyddol	Ch3	Ch3
Cyhoeddi adroddiadau blynyddol RIIO T1, GD1 ac ED1	Ch4	Ch4
Cyhoeddi Adolygiad Rheolaeth Prisiau Dosbarthu 5	Ch3	Ch3
Cyhoeddi'r adolygiad o'r Gronfa Rhwydwaith Carbon Isel	Ch3	Ch4
Cyhoeddi adolygiad canol cyfnod RIIO	Ch3	Ch3
Cyhoeddi penderfyniad ar y math o safon adrodd ariannol rheoliadol ar gyfer cyfrifon RIIO	Ch4	Gohiriwyd tan 2017-18
Gwneud newidiadau i drwydded ryng-gysylltu NEMOlink ar gyfer cap a therfyn isaf	Ch1	Ch3
Cyhoeddi ymgynghoriad ar asesiad prosiect cychwynnol o geisiadau cap a therfyn isaf ail ffenestr	Ch4	Gohiriwyd tan 2017-18
Cyhoeddi adroddiad rheoleiddio ar refeniw perchenogion gweithrediadau trawsyrru ar y môr (OFTO)	Ch3	Ch3
Gweithredu newidiadau i drwydded National Grid Electricity Transmission ar gyfer cyfundrefnau rhyng-gysylltwyr trydan trawsffiniol	Ch1	Ch3
Cyhoeddi cymeradwyaethau datganiad Defnydd Refeniw Rhyng-gysylltwyr	Ch2	Ch2

Cystadleuaeth Effeithiol		
Cam gweithredu	Chwarter Disgwyliedig	Chwarter Gwirioneddol
Cyhoeddi'r llinell sylfaen dylunio cyntaf ar gyfer cyfnod glasbrint y Rhaglen Newid	Ch4	Ch4
Cyhoeddi'r drydedd 'cerdyn sgorio gorfodi' flynyddol	Ch1	Ch1
Cyhoeddi ein harolwg blynyddol i ddefnyddwyr annomestig	Ch4	Ch1 (2017-18)
Cyhoeddi ymgynghoriad ar drefniadau manwl i gyflwyno tendrau cystadleuol ar gyfer gweithrediadau trawsyrru ar y tir	Ch2	Ch2
Cyhoeddi adolygiad blynyddol o ddiddordeb ar y cam adeiladu ar gyfer prosiectau trawsyrru ar y môr a adeileddir gan gynhyrchwyr ynni	Ch4	Ch3

**Safonau uchel o Allbynnau a Diogelwch**

Cam gweithredu	Chwarter Disgwyliedig	Chwarter Gwirioneddol
Cyhoeddi adroddiad blynyddol rhwymedigaethau cymdeithasol cyflenwyr domestig	Ch2	Ch2
Cyhoeddi ein hymchwil i foddhad cwsmeriaid â phroses gwyno cyflenwyr	Ch2	Ch2
Cyhoeddi ymgynghoriad ar egwyddorion trwydded gyflenwi	Ch3	Ch4

Ymddiriedaeth a Hyder

Cam gweithredu	Chwarter Disgwyliedig	Chwarter Gwirioneddol
Cyhoeddi'r Adroddiad blynyddol ar Hylifedd	Ch3	Ch3
Cyhoeddi ein hail Adroddiad blynyddol ar y Farchnad Ynni Fanwerthu	Ch2	Ch2
Cyhoeddi adroddiad wedi'i ddiweddarau ar y Farchnad Ynni Cyfanwerthu	Ch3	Ch3
Cyhoeddi metrigau hylifedd ar ein gwefan ar gyfer nwy a thrydan	Bob chwarter	Bob chwarter
Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynllun Tariff Cyflenwi Trydan	Ch3	Ch3
Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynllun Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy	Ch4	Ch4
Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig	Ch2	Ch2
Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig	Ch2	Ch2
Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes	Ch3	Ch3
Cyhoeddi proses lefelu flynyddol y Tariff Cyflenwi Trydan	Ch2	Ch2
Cyhoeddi adroddiad chwarterol ar y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig	Bob chwarter	Bob chwarter
Cyhoeddi adroddiad chwarterol ar y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig	Bob chwarter	Bob chwarter
Cyhoeddi adroddiadau ar gynnydd yn erbyn ECO	Bob chwarter	Bob chwarter



Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

Cam gweithredu	Chwarter Disgwyliedig	Chwarter Gwirioneddol
Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16	Ch2	Ch1
Cyhoeddi ymgynghoriad ar Flaenraglen Waith 2017-18	Ch3	Ch3
Cyhoeddi Blaenraglen Waith derfynol 2017-18	Ch4	Ch4
Cyhoeddi Cynllun Symleiddio 2017-18	Ch4	Ch4
Cyhoeddi safbwyntiau rheoleiddio	Ch3	Ch3

Pennu'r rheolau ar gyfer marchnadoedd

Cam gweithredu	Chwarter Disgwyliedig	Chwarter Gwirioneddol
Cyhoeddi llythyr yn amlinellu ein bwriad i lansio Adolygiad Cod Sylweddol yn dilyn cyhoeddi ymgynghoriad ar y cyd â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd/Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar y cynllun ar gyfer Setliad gorfodol bob Hanner Awr	Ch1	Ch1



Appendix II

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2016-17

Cystadleuaeth Effeithiol			
Metrig (DPAau)	Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur	Targed blynyddol 2016-17	Gwirioneddol
Ceisiadau am Randdirymiad o reolau'r Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu	Gwneud penderfyniadau am geisiadau am randdirymiad o reolau'r Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu o fewn 60 diwrnod gwaith i dderbyn cais (oni fydd angen ymgynghoriad ffurfiol)	90%	100%
Trosglwyddo ar y Môr - prosesu	Rhoi trwydded o fewn 70 diwrnod i ddechrau ymgynghoriad Adran 8a	70 diwrnod gwaith	100%
Trosglwyddo ar y Môr - prosesu	Detholiad cynigydd a ffefrir o fewn 120 diwrnod i gyflwyno ITT (ac eithrio Cynnig Gorau a Therfynol)	120 diwrnod gwaith	67% ⁶

Safonau uchel o Allbynnau a Diogelwch			
Metrig (DPAau)	Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur	Targed blynyddol 2016-17	Gwirioneddol
Ceisiadau am Drwydded	Gwneud penderfyniadau ar geisiadau am drwydded o fewn 45 diwrnod	100%	100%
Addasiadau i'r Cod	Gwneud penderfyniadau ar addasiadau i'r cod o fewn 25 diwrnod gwaith i dderbyn Adroddiad Addasu Terfynol (neu, lle bo'n gymwys, ymatebion terfynol i Asesiad Effaith Terfynol neu ymgynghoriad arall gan Ofgem) a, lle bo'n gymwys, gyhoeddi Asesiad Effaith addasu cod (neu ymgynghoriad arall gan Ofgem) o fewn tri mis i dderbyn yr Adroddiad Addasu Terfynol.	90%	83% ⁷
Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig - prosesu	Ymgeiswyr i dderbyn penderfyniad awtomatig ar y diwrnod gwneud cais	60%	51% ⁸
Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig - prosesu	Argaeledd system gwneud cais ar-lein yn ystod oriau busnes a gefnogir 08:00-17:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau banc (heb gynnwys amser segur a gynlluniwyd)	99% availability	99.7%

⁶ Cafwyd tri i gyd yn ystod y flwyddyn - y digwyddodd un 39 diwrnod ar ôl y targed o 120 diwrnod i ddewis y cynigydd a ffefrir.

⁷ Mae'r ffigur yn un treigl drwy gydol y flwyddyn - gan ostwng i 83% erbyn diwedd y flwyddyn oherwydd y nifer fawr o addasiadau i'r cod yn ymwneud â materion buddion ymgorfforedig, yr ymgynghorwyd amynt, a arweiniodd at nifer fwy o benderfyniadau yn cael eu gwneud y tu hwnt i 25 diwrnod gwaith.

⁸ Yn ystod 2016-17 roedd ein dangosydd perfformiad allweddol 'Ymateb i randdeiliaid' yn seiliedig ar darged o 60% o geisiadau yn derbyn penderfyniad awtomatig ar ddiwrnod y cais. Roedd y DPA hwn yn seiliedig ar segmentiad disgwylidig y farchnad a'r cymysgedd disgwylidig o dechnoleg ar gyfer 2016/17. Mewn gwirionedd, cafwyd lefelau sylweddol is o fewn rhai segmentiadau marchnad a thechnolegau, a olygodd na ellid cyflawni'r gyfradd achredu awtomatig ddisgwylidig.



Safonau uchel o Allbynnau a Diogelwch			
Metrig (DPAau)	Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur	Targed blynyddol 2016-17	Gwirioneddol
Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig	Argaeledd system gwneud cais ar-lein yn ystod oriau busnes a gefnogir 08:00-17:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau banc (heb gynnwys amser segur a gynlluniwyd)	99% o argaeledd	99.5%
Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig	Ymatebion i ymholiadau e-bost a gwaith dilynol gyda chynhyrchwyr ynni ar faterion heb eu datrys ynghylch eu ceisiadau am achrediad	90% o fewn 10 diwrnod gwaith	95.5%
Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni (ECO)	Ymateb i ymholiadau e-bost o fewn 10 diwrnod gwaith	90%	95.9%
Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni (ECO)	Argaeledd system gwneud cais ar-lein yn ystod oriau busnes a gefnogir 08:00-17:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau banc (heb gynnwys amser segur a gynlluniwyd)	99% o argaeledd	99.9%
Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (RO) - prosesu	Gwaith dilynol gyda chynhyrchwyr ynni ar faterion heb eu datrys ynghylch eu ceisiadau am achrediad	90% o fewn 10 diwrnod gwaith	99.3%
Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (RO) - prosesu	Argaeledd system gwneud cais ar-lein yn ystod oriau busnes a gefnogir 08:00-17:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau banc (heb gynnwys amser segur a gynlluniwyd)	99% o argaeledd	99.7%
Prosesu Tariff Cyflenwi Trydan	Gwaith dilynol gyda chynhyrchwyr ynni ar faterion heb eu datrys ynghylch eu ceisiadau am achrediad	90% o fewn 10 diwrnod gwaith	98.6%
Prosesu Tariff Cyflenwi Trydan	Argaeledd system gwneud cais ar-lein yn ystod oriau busnes a gefnogir 08:00-17:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau banc (heb gynnwys amser segur a gynlluniwyd)	99% o argaeledd	99.7%
Gostyngiad Cartrefi Cynnes (WHD) - prosesu	Ymateb i gynlluniau Gostyngiad Cartrefi Cynnes y parti gorfodol am gymeradwyaeth	100% o fewn 28 diwrnod	100%



Ymddiriedaeth a Hyder			
Metrig (DPAau)	Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur	Targed blynyddol 2016-17	Gwirioneddol
Cysylltiadau Cwsmeriaid	Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb sylweddol cyntaf i gysylltiadau cwsmeriaid	93% - 10 diwrnod gwaith diwrnod	92.8%
Chwythwyr Chwiban	Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau chwythwr chwiban	90% i gael ymgysylltiad cychwynnol o fewn 1 diwrnod gwaith	100%

Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd			
Metrig (DPAau)	Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur	Targed blynyddol 2016-17	Gwirioneddol
Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig	Gwnaed taliadau ar ôl cyflwyno data cyfnodol chwarterol cywir	95% o fewn 30 diwrnod gwaith	97.2%
Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig	Taliadau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig Amserol	Talu 95% o daliadau o fewn 5 diwrnod gwaith i'r dyddiad talu dyledus	98.5%
Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig	Cyhoeddi'r prif sypiau o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn dilyn dyddiad cau adrodd y cynhyrchwyr ynni ar eu hallbwn data	95% o fewn 17 diwrnod gwaith (Ebrill - Mehefin) 95% o fewn 12 diwrnod gwaith (Gorffennaf -Mawrth)	98.8%
Prosesu Tariff Cyflenwi Trydan	Mae angen i broses lefelu Tariffau Cyflenwi Trydan gael ei chwblhau mewn modd amserol ar ôl derbyn data gan gyflenwyr	95% o fewn 22 diwrnod gwaith	100%
Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (ECO)	Mesurau prosesu wedi'u cyflwyno o fewn un mis calendr	95%	97.6%

Atodiad III

Asesiadau effaith a gynhaliwyd yn 2016-17

Cyhoeddwyd 13 asesiad effaith gennym rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Ceir rhagor o wybodaeth am y dogfennau canlynol yn www.ofgem.gov.uk.

Dyddiad	Teitl
28 Gorffennaf 2016	Asesiad effaith ar yr adolygiad o wrthwynebiadau domestig
28 Gorffennaf 2016	Asesiad effaith ar yr adolygiad o wrthwynebiadau annomestig
14 Medi 2016	Mesuryddion rhagdalau wedi'u gosod o dan asesiad effaith drafft gwarant
1 Rhagfyr 2016	Adolygiad arloesi RIIO
1 Mawrth 2017	Buddion Ymgorfforedig: Ymgynghoriad ar CMP264 a CMP265 â gogwydd at benderfyniad ac Asesiad Effaith drafft
12 Ionawr 2017	Trefniadau'r dyfodol ar gyfer y gweithredwr system drydan: ei rôl a'i strwythur
27 Mai 2016	Ehangu cystadleuaeth ym maes trawsyrru trydan (asesiad effaith wedi'i ddiweddarau)
12 Mai 2016	Penderfyniad ar adolygiad canol cyfnod ar gyfer RIIO-T1
24 Chwefror 2017	Gwaith cyfochrog ACC - atebolwydd allbwn
24 Chwefror 2017	Gwaith cyfochrog ACC - sbardun nifer y cysylltiadau
24 Chwefror 2017	Cyflawni allbynnau gwaith ehangach yn hwyr
3 Chwefror 2017	Asesiad Effaith ar amod trwydded arfaethedig i atal camddefnydd posibl o gyfyngiadau trawsyrru gan gynhyrchwyr ynni yn y system gydbwysu
3 Awst 2016	Asesiad Effaith ar amod trwydded arfaethedig i atal camddefnydd posibl o gyfyngiadau trawsyrru gan gynhyrchwyr ynni yn y system gydbwysu

Atodiad IV

Ymchwiliadau a chamau gorfodi 2016-17

Mae manylion ein hachosion ar gael ar ein gwefan⁹ yn unol â'n polisi fel y'i nodir yn ein Canllawiau Gorfodi¹⁰. Byddwn fel arfer yn cyhoeddi manylion byr y ffeithiau a natur yr ymchwiliadau ar ein gwefan¹¹, er bod polisi yn wahanol ar gyfer y Rheoliad ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni Cyfanwerthu (REMIT).

Isod ceir manylion yr ymchwiliadau a gwblhawyd gennym eleni. Mewn ymchwiliadau lle rydym wedi sicrhau taliadau unioni, gwnaeth y cwmnïau daliadau naill ai'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a/neu i raglenni a chronfeydd a fyddai'n elwa arnynt.

Cwmni	Mater	Penderfyniad	Dyddiad y penderfyniad
Nwy Prydain	Cydymffurfiaeth ag Amod Trwydded Safonol Amod 12 mewn perthynas â gosod uwch fesuryddion ar gyfer safleoedd annomestig.	Mae Nwy Prydain wedi cytuno i dalu cosb o £1 a thaliadau unioni o £4.5 miliwn (llai £1) mewn taliadau unioni i'r Ymddiriedolaeth Garbon er mwyn helpu busnesau i arbed ynni drwy archwiliadau a chyngor arbed ynni, a gosod mesurau effeithlonrwydd ynni.	Ionawr 2017
SSE	Cydymffurfio â Phennod II o Ddeddf Cystadleuaeth 1998 a/neu Erthygl 102 i'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â phwyntiau cysylltu.	Wedi cau. Mae'r Awdurdod wedi derbyn ymrwymadau cyfrwymol gan SSE i wella gwasanaethau sydd eu hangen ar gystadleuwyr er mwyn cysylltu cwsmeriaid â'i rwydweithiau dosbarthu.	Tachwedd 2016
Heb ei ddatgelu	Cydymffurfio â Phennod I o Ddeddf Cystadleuaeth 1998 a/neu Erthygl 101 i'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â defnyddio cyfryngwyr trydydd parti/gwefannau cymharu.	Wedi cau. Trosglwyddodd yr Awdurdod ei ymchwiliad o dan y Ddeddf Cystadleuaeth i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Mae'r Awdurdod wedi cau'r ymchwiliad hwn.	Mehefin 2016
Scottish Power	Cydymffurfio â Safonau Ymddygiad ar gyfer cwsmeriaid domestig (Amod Trwydded Safonol 25C), Amod Trwydded Safonol 27 mewn perthynas â darparu biliau terfynol, a Rheoliadau Nwy a Thrydan (Safonau Trin Cwynion Defnyddwyr) 2008.	Setliad. Cytunodd ScottishPower i dalu cosb o £1 a £18 miliwn (llai £1) mewn taliadau unioni i gwsmeriaid y mae ei fethiannau wedi effeithio arnynt, a gwneud taliadau i National Energy Action ac Energy Action Scotland gan weithio mewn partneriaeth â Chymorth Cancer Macmillan i gynnig cymorth cysylltiedig ag ynni i unigolion a chartrefi sy'n byw â chanser.	Mehefin 2016

⁹ <https://www.ofgem.gov.uk/investigations>

¹⁰ <https://www.ofgem.gov.uk/ofgem-publications/89753/enforcementguidelines12september2014publishedversion.pdf>

¹¹ Mewn perthynas ag achosion agored, nid yw'r ffaith ein bod wedi agor ymchwiliad yn awgrymu bod y cwmnïau dan sylw wedi torri amodau'r drwydded neu rwymedigaethau eraill.



Isod ceir manylion y taliadau unioni a sicrhaodd Ofgem drwy gamau gweithredu amgen neu waith cydymffurfio. Mae hyn yn rhoi cyfle i gwmni unioni pethau i ddefnyddwyr heb i ni ddod o hyd i achos o dor-rheol.

Cwmni	Mater	Canlyniad	Dyddiad
Ovo	Methiant i gyrraedd y Safonau Gwarantedig ¹² ar ôl i'w asiantiaid fethu apwyntiadau cwsmeriaid, neu droi i fyny'n hwyr, ac yna fethu â thalu iawndal iddynt fel sy'n ofynnol gan Ofgem.	Cytunodd OVO Energy i dalu £58,000 i elusen Step Change er mwyn helpu defnyddwyr mewn dyled ynni.	Rhagfyr 2016
Co-operative Energy	Gadawodd Co-operative Energy gwsmeriaid i lawr wrth ddatrys cwynion, ymdrin â galwadau a bilio.	Mae Co-operative Energy wedi cytuno i dalu £1.8 miliwn i gwsmeriaid y mae ei broblemau wedi effeithio arnynt.	Hydref 2016
E.ON	Methiant i gyrraedd y Safonau Gwarantedig ar ôl i'w asiantiaid fethu apwyntiadau cwsmeriaid ac yna fethu â thalu iawndal iddynt fel sy'n ofynnol gan Ofgem.	Cytunodd E.ON i dalu £1.2 miliwn i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt ac £1.9 miliwn i elusennau er mwyn helpu cwsmeriaid mewn angen gan gynnwys personél y lluoedd arfog drwy gynllun 'Heat for Heroes' National Energy Action.	Medi 2016
Western Power Distribution (WPD)	Gwall wrth ddefnyddio methodolegau codi tâl. Cais am rannirymadau i allu gwneud cywiriadau.	Cytunodd WPD i wneud taliad ewyllys da o £300,000 i elusennau (Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy) er mwyn helpu cwsmeriaid agored i niwed a/neu gwsmeriaid mewn tloidi tanwydd, yn ogystal â sicrhau nad oedd neb ar eu colled yn sgil y gwall wrth gyfrifo taliadau.	Mawrth 2017

¹² <https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/supplier-guaranteed-and-overall-standards-performance-reforms-final-decision-and-statutory-instrument>

Isod ceir yr ymchwiliadau agored fel yr oeddent ar ddiwedd mis Mawrth 2017. Noder, nid yw agor ymchwiliad yn awgrymu ein bod wedi gwneud unrhyw ganfyddiad(au) ynghylch diffyg cydymffurfiaeth. Nid yw Ofgem yn cyhoeddi gwybodaeth am bob ymchwiliad agored. Yn benodol, mae Ofgem yn cynnal ymchwiliadau i achosion posibl o fethu â chydymffurfio â gofynion REMIT. Fodd bynnag, fel rheol, nid ydym yn rhoi sylwadau pellach ar yr ymchwiliadau hyn, gan gynnwys pwy rydym yn ymchwilio iddo, oni chredwn fod angen gwneud hynny er budd defnyddwyr neu hyder y farchnad.

Cwmni	Dyddiad Agor	Mater
Heb ei ddatgelu	Hydref 2016	Ymchwiliad i ganfod p'un a dorwyd Pennod I o Ddeddf Cystadleuaeth 1998 o ran cytundebau nad oeddent yn gystadleuol o bosibl ac arferion ar y cyd.
E (Gas and Electricity)	Medi 2016	Ymchwiliad i ganfod p'un a yw E (Gas and Electricity) wedi cydymffurfio â'r amodau perthnasol yn Amod Trwydded Safonol 25 o ran ei rwymedigaethau gwerthu a marchnata.
Economy Energy	Medi 2016	Ymchwiliad i ganfod p'un a yw Economy Energy wedi cydymffurfio â'r amodau perthnasol yn Amod Trwydded Safonol 25 o ran ei rwymedigaethau gwerthu a marchnata.
SSE	Gorffennaf 2016	Ymchwiliad i ganfod p'un a yw SSE wedi cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 25C, 27.1, 28.1, 27.5, 27.6 a 27.8 o ran trin ei gwsmeriaid yn deg wrth newid i fesuryddion rhagdalau o dan y trwyddedau cyflenwi nwy a thrydan.
Extra Energy	Gorffennaf 2016	Ymchwiliad i ganfod p'un a yw Extra Energy wedi cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Amodau Trwydded Safonol 7B, 14, 21B, 25C, 27, 31A ac â Rheoliadau Nwy a Thrydan (Safonau Trin Cwynion Defnyddwyr) 2008 o ran bilio, gwasanaeth cwsmeriaid a delio â chwynion.
Nwy Prydain	Hydref 2015	Ymchwiliad i ganfod p'un a yw Nwy Prydain wedi cydymffurfio â Safonau Ymddygiad i Ddefnyddwyr Microfusnesau (Amod Trwydded Safonol 7B) ac Amodau Trwydded Safonol 7A, 14, 14A ac 21B o ran cysylltiadau Microfusnesau, blocio trosglwyddo, trosglwyddo cwsmeriaid a bilio, ac â Rheoliadau Nwy a Thrydan (Safonau Trin Cwynion Defnyddwyr) 2008.
Npower	Medi 2014	Ymchwiliad i ganfod a yw Npower wedi cydymffurfio ag Amod Trwydded Safonol 12 o ran cymryd pob cam rhesymol i osod uwch fesuryddion ar safleoedd ei gwsmeriaid annomestig mwy o faint a chyflenwi trydan drwyddynt

Atodiad V

Ymrwymadau nad ydynt ar y gyflogres

Ymrwymadau nad ydynt ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2017, sy'n costio mwy na £220 y diwrnod ac yn para am fwy na chwe mis

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r sefyllfa ar ymrwymadau nad ydynt ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2017:

Nifer yr ymrwymadau presennol ar 31 Mawrth 2017	21
O'r cyfanswm hwnnw:	
Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg adrodd.	13
Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg adrodd.	6
Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd.	1
Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd.	0
Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu fwy ar adeg adrodd.	1

Mae pob ymrwymiad nad yw ar y gyflogres sydd eisoes yn bodoli, a amlinellir uchod, wedi bod yn destun asesiad ar sail risg ar ryw adeg i weld a oes angen sicrhau bod yr unigolyn yn talu'r swm cywir o dreth a, lle bo angen, fod y sicrwydd hwnnw wedi'i gadarnhau.

Ymrwymadau newydd nad ydynt ar y gyflogres, neu'r rhai sydd wedi para am chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, sy'n costio mwy na £220 y diwrnod ac sy'n para am fwy na chwe mis

Nifer yr ymrwymadau newydd, neu'r rhai sydd wedi para chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017	14
Nifer yr ymrwymadau hyn uchod sy'n cynnwys cymalau cytundebol sy'n rhoi'r hawl i'r adran ofyn am sicrwydd mewn perthynas â rhwymedigaethau treth incwm ac Yswiriant Gwladol	13
Nifer yr ymrwymadau y gofynnwyd am sicrwydd mewn perthynas â hwy	10
O'r cyfanswm hwnnw:	
Nifer yr ymrwymadau y cafwyd sicrwydd mewn perthynas â hwy	10
Nifer yr ymrwymadau na chafwyd sicrwydd mewn perthynas â hwy	0
Nifer yr ymrwymadau a derfynwyd am na chafwyd sicrwydd mewn perthynas â hwy.	0

Ymrwymadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017

Nifer ymrwymadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol.	0
Nifer yr unigolion y tybiwyd eu bod yn "aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys ymrwymadau nad ydynt ar y gyflogres a rhai sydd ar y gyflogres.	2

Llundain

9 Milbank
Llundain SW1P 3GE
Ffôn: 020 7901 7000

Yr Alban

Cornerstone
107 West Regent Street
Glasgow G2 2BA
Ffôn: 0141 331 2678

Cymru

1 Pentir Caspian
Bae Caerdydd
CF10 4DQ
Ffôn: 029 2044 4042

www.ofgem.gov.uk

